# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU GOFAL**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD IAU, 25AIN MEDI, 2025**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home**

Pwynt Cyswllt

**Courtney Leigh Jones**

**courtneyleighjones@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Mercher, 17 Medi 2025)

## PWYLLGOR CRAFFU GOFAL

### AELODAETH (18)

### Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Menna Baines | Rheinallt Puw |
| Linda Morgan | Gwynfor Owen |
| Meryl Roberts | Einir Wyn Williams |
| Jina Gwyrfai | John Pughe |
| Sian Williams | Berwyn Parry Jones |
| Elin Walker Jones | Geraint Wyn Parry |

### Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Elwyn Jones | Anwen J. Davies |
| Eryl Jones-Williams | Beth Lawton |
| Angela Russell | |

### Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorydd

### Aelod Unigol (1)

Y Cynghorydd

### Propel (1)

Y Cynghorydd

### Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 5 - 10

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod diwethaf y pwyllgor hwn, a gynhaliwyd ar y 12 o Mehefin 2025, fel rhai cywir.

**5. ADRODDIAD BLYNYDDOL AR Y WEITHDREFN CWYNION, YMHOLIADAU A DIOLCHIADAU'R ADRAN PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD AC ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT AR GYFER 2024-25** 11 - 45

Paratoi Adroddiad Blynyddol ar weithrediad y Weithdrefn Sylwadau a Chwynion a'i gyflwyno i'r Cabinet a'r Pwyllgor Craffu er mwyn craffu a monitro'r trefniadau ar gyfer delio'n effeithiol â chwynion a dderbyniwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'u cynrychiolwyr

**6. PROSIECT RHYDDHAU O'R YSBYTY** 46 - 77

Cyng. Dilwyn Morgan i gyflwyno'r adroddiad.

**7. CYDWEITHIO EFO'R GYMUNED** 78 - 97

Cyng. Dilwyn Morgan i gyflwyno'r adroddiad.

**8. TAI GWAG** 98 - 106

Cyng. Paul Rowlinson i gyflwyno'r adroddiad.

**9. BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU GOFAL 2025/26** 107 - 110

Cyflwyno rhaglen waith ddrafft y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 i'w mabwysiadu.

**PWYLLGOR CRAFFU GOFAL, 12 MEHEFIN 2025**

**Presenoldeb:**

**Y CYNGHORWYR:**

Elwyn Jones, Jina Gwyrfai, Menna Baines, Elin Walker Jones, Sian Williams, Meryl Roberts, Berwyn Parry Jones, Gareth Coj Parry, Eryl Jones-Williams, Beth Lawton, Einir Williams, Rheinallt Puw, Angela Russell a Gwynfor Owen

**Swyddogion yn bresennol:**
Llywela Haf Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu) a Iwan Edwards (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 7:**
Y Cynghorydd Paul Rowlinson (Aelod Cabinet Tai ac Eiddo), Carys Fon Williams (Pennaeth Adran Tai ac Eiddo), Lowri Cadwaladr Roberts (Pennaeth Cynorthwyol Adran Tai ac Eiddo) a Sion Elwyn Hughes (Uwch Swyddog Gweithredol Tai ac Eiddo).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 6:**
Y Cynghorydd Menna Trenholme (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teuluoedd), Aled Gibbard (Pennaeth Cynorthwyol Plant a Chefnogi Teuluoedd), Sharon Williams Carter (Pennaeth Cynorthwyol Plant a Chefnogi Teuluoedd), Dylan Owen (Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 7:**
Y Cynghorydd Dilwyn Morgan (Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant), Aled Davies (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant), Mari Wynne Jones (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant), Alun Gwilym (Pennaeth Cynorthwyol Busnes) a Dylan Owen (Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol).

**1. ETHOL CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Elwyn Jones yn Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn 2025/26.**

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Sian Williams yn Is-gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn 2025/26.**

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Anwen J. Davies, Geraint Parry a Linda Morgan.

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 5. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 6. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 3 Ebrill 2025, fel rhai cywir.

## 7. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET TAI AC EIDDO

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Aelod Cabinet Tai ac Eiddo, Pennaeth Adran Tai ac Eiddo a Phenaethiaid Cynorthwyol yr Adran.

Adroddwyd bod yr Adran yn gweithredu ar Gynllun y Cyngor 2023-2028, ac ar y cynnydd hyd at ddiwedd Ebrill 2025. Nodwyd bod cynnydd yn erbyn y cerrig milltir a osodwyd i brosiectau'r Adran o fewn blaenoriaeth wella Gwynedd Glyd a Gwynedd Effeithlon. Adroddwyd bod y cynnydd, ar y cyfan, yn dda gyda sawl carreg filltir wedi'i chyrraedd erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, a hynny o dan amgylchiadau heriol.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan yr Aelodau:

Tynnwyd sylw at y cynllun 'Siop un Stop' a nodwyd yr aelod ei fod yn siomedig gyda'r cynnydd yn y cynllun. Gofynnwyd am eglurhad am pam bod y cynllun yma wedi cymryd amser mor hir i'w ddod mewn i weithrediad. Cydnabuwyd fod oedi wedi bod yn dod a'r cynllun yma i mewn i weithrediad ond eglurwyd ei fod yn falch o gyhoeddi fod y siop yn agor ar y 15fed o Fedi.

Nodwyd fod yr adroddiad yn un da a cynhwysfawr iawn. Er hyn, nodwyd pryder gyda'r niferoedd o bobl sydd yn ddigartref ac yn byw mewn llety anaddas yng Ngwynedd. Gofynnwyd beth yw'r cynllun i wella'r ystadegau yma. Eglurwyd eu bod yn datblygu cynlluniau i daclo'r broblem yma gyda safleoedd yn cael ei adeiladu ar hyn o bryd. Nodwyd fod datblygiadau mawr yn cael ei adeiladu ar hyn o bryd yng Nghaernarfon a Bangor. Gobeithiwyd y byddai'r adeiladau yma yn barod i'w agor yn fuan. O ran eglurdeb, esboniwyd fod dros 200 o bobl mewn llety argyfwng ar hyn o bryd gyda'r ffigwr yn codi i dros 400 wrth gyfri'r tai sydd ar les.

Gofynnwyd cwestiwn ynglŷn â'r cysylltiad Gwynedd, y bobl sydd ddim yn byw yng Ngwynedd ar hyn o bryd, yn benodol faint o'r bobl yma sydd yn medru hawlio cysylltiad gyda Gwynedd a chael tŷ Cyngor. Eglurwyd fod 97% o dai cymdeithasol Gwynedd yn mynd i bobl sydd â chysylltiad â Gwynedd ac yn ychwanegol mae 60% yn mynd i bobl sydd yn dymuno byw yn y ward maen nhw eisiau byw ynddo. Yn ychwanegol, adroddwyd fod y Cymdeithasau Tai wedi

gwneud arolwg diweddar o'r 9 datblygiad diwethaf maen nhw wedi cwblhau a darganfuwyd fod 90% o'r bobl sydd wedi symud i'r tai cymdeithasol yma yn siarad Cymraeg.

Nodwyd canmoliaeth i'r adran am y nifer o gynlluniau sydd yn ceisio mynd i'r afael ar y problemau difrifol o angen tai yng Ngwynedd. Tynnwyd sylw i'r garreg filltir a osodwyd i ddenu 20 eiddo ychwanegol i Gynllun Lesu Cymru – Gwynedd ond dim ond 12 sydd wedi'i ddenu gan ofyn beth yw'r problemau sydd yn achosi hyn. Eglurwyd fod diddordeb y cynllun yma wedi dechrau pylu ac felly ei fod yn fwriad i'r adran wneud ymgyrch sylweddol i godi'r diddordeb eto. Nodwyd ei fod yn gynllun arbennig  sydd yn diwallu nifer o anghenion tai gwag.

Tynnwyd sylw at Eiddo 5 yr Uned Cydymffurfiaeth gan nodi fod y nifer o adeiladau sydd wedi cwblhau wedi disgyn ac yn dal i ddisgyn. Derbyniwyd fod Swyddog newydd wedi'i benodi a heb ei hyfforddi eto ond mynegwyd pryder gyda'r gwaith yn cael ei gwblhau. Eglurwyd fod y nifer wedi gostwng oherwydd lot o ffactorau gwahanol ond fod yr adran ar y trywydd iawn i hyfforddi eto a newid cyfrifoldebau o fewn y tîm sydd yn mynd i olygu fod mwy o ymchwiliadau cyflwr yn digwydd. Nodwyd ei bod yn ffyddiog y bydd y swyddog yn mynd i'r afael ar y broblem yma.

Nodwyd, o ran cynyddu cyflenwad o dai i bobl leol, croesawyd fod yr adran wedi prynu mwy oedd wedi'i dargedu gyda'r ffigwr yn 46. Er hyn, dim ond 16 sydd gyda thenantiaid ynddynt. Holwyd beth yw'r rheswm mwyaf dros gymaint o'r tai yma dal yn wag. Eglurwyd eu bod wedi canolbwyntio ar brynu'r tai ar ddechrau'r cynllun gan fod amserlen ar fedru gwario'r arian grant a dderbyniwyd. Soniwyd fod 16 wedi i'w gosod, 20 yn cael ei atgyweirio a 10 yn barod i'w gael ei gosod. Ar ben hyn, amcanwyd y bydd 53 wedi gosod o fewn y flwyddyn. Gobeithiwyd gweld cynnydd sylweddol yn y nifer o dai sydd yn cael ei gosod blwyddyn yma.

**PENDERFYNIAD**

**Derbyn yr adroddiad.**

**8. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teuluoedd a'r Pennaeth Adran.

Adroddwyd bod yr adran yn gweithredu ar Gynllun y Cyngor 2023-2028 ac yn adrodd ar y cynnydd a wnaed hyd at ddiwedd Mawrth 2025, gan gydnabod ei bod yn parhau'n ddyddiau cynnar yng nghyd-destun rhai o'r addewidion sy'n newydd yn y ddogfen ers Ebrill y llynedd.

Nodwyd fod gan yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd ddau brosiect yng Nghynllun y Cyngor sef y Cynllun Awtistiaeth a Chynllun datblygu darpariaeth breswyl i blant mewn gofal mewn cartrefi grŵp bychan. Eglurwyd fod y Cynllun Awtistiaeth yn ffynnu, gyda rhaglen hyfforddiant i staff rheng flaen yn parhau gyda'r amcan o fod yn awdurdod lleol sydd yn deall ac yn ymwybodol o

awtistiaeth. Soniwyd hefyd fod y cydweithio gyda'r adran Addysg yn parhau gyda staff mewnol ag allanol yn ymgysylltu a'r trydydd sector. Mynegwyd balchder fod dim rhestr aros ar gyfer y Tîm Awtistiaeth ar hyn o bryd, ond rhagdybiwyd na fydd hyn yn parhau am hir gan fod galw uchel am y gwasanaeth.

Eglurwyd fod y cynllun datblygu darpariaeth breswyl i blant mewn gofal mewn cartref grŵp bychan wedi datblygu'n sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf. Nodwyd fod staff wedi penodi i'r cartref cyntaf ym Morfa Bychan a chroesawyd dau blentyn i'r lleoliad. Adroddwyd hefyd fod dau eiddo ychwanegol wedi eu prynu a bod y gwaith paratoi i'w cael i'r safon cofrestriad wedi cychwyn.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan yr Aelodau:

Holwyd am y Gwasanaeth Derwen, yn benodol beth yw meini prawf ar gyfer mynediad i gael gwasanaeth gan Derwen. Eglurwyd mai'r meini prawf y os oes gan blentyn anabledd dysgu neu yn oediad sylweddol mewn mwy nag un maes datblygiad. Nododd yr aelod ei fod yn gwerthfawrogi'r holl waith gwych mae Derwen yn gwneud ond fod hyn yn golygu fod llawer o deuluoedd sydd gyda phlant sydd angen gwasanaeth tebyg i'r hyn mae Derwen yn gynnig yn colli allan oherwydd ei bod ddim yn ffitio i mewn i'r meini prawf anabledd dysgu. Credwyd fod y Cyngor yn diffinio ar sail 'IQ' yn unig ac felly fod amryw o blant, er enghraifft plant gydag awtistiaeth, yn methu allan ar y gwasanaeth maen nhw angen. Eglurwyd nad yw'r Cyngor yn defnyddio 'IQ' ar gyfer meini prawf Derwen, ond cydnabuwyd fod yna fwlch a dyna yw'r rheswm dros sefydlu'r tîm awtistiaeth i drio cyfarch rhywfaint o'r bwlch.

Gofynnwyd a all yr adran rhoi sicrwydd fod pob un o'r gweithwyr y tîm awtistiaeth wedi cael hyfforddiant i lefel uchel yn y maes awtistiaeth. Nodwyd ei fod yn un o flaenoriaethau'r adran i sicrhau fod staff sydd gyda chysylltiad efo'r cyhoedd yn derbyn hyfforddiant priodol a pherthnasol i'r gwaith maent yn gwneud. Eglurwyd na allai ddweud gyda sicrwydd fod pob aelod o staff wedi derbyn yr hyfforddiant ar hyn o bryd ond fod y rhaglen yn ei le a'r bwriad i'w i holl staff y tîm dderbyn yr hyfforddiant perthnasol.

Gyda'r cynllun dechrau'n deg, cydnabuwyd fod cyfarch ardaloedd gweledig yn heriol ble mae diffyg gwasanaethau a thlodi cefn gwlad. Er hyn, nodwyd fod y cynllun Dechrau'n Deg wedi cynyddu a gwasgaru'r ddarpariaeth yn ddiweddar.

Mynegwyd pryder am arian mae'r adran yn mynd ei golli yn 2027 oherwydd diffyg grantiau. Credwyd mai rŵan yw'r amser i ddweud wrth Lywodraeth Cymru fod y cynllun yn rhoi cymorth mawr i bobl Wynedd a ni ddylai gael ei dorri. Cytunwyd gyda geiriau'r aelod a nodwyd yr heriau sydd yn codi o gael grantiau a Llywodraeth sydd yn gweithredu ar gefn grantiau. Eglurwyd fod yr arian yn cael ei rhoi yn y fformat yma er mwyn i'r Cyngor allu ceisio am fwy o gynlluniau gwahanol i ddangos os ydynt yn gweithio a bod budd yn dod ohonynt wedyn y gall buddsoddi mwy yn y cynlluniau yma.

Tynnwyd sylw at yr adran Maethu, a eglurwyd y byddai o fydd i gael golwg mwy manwl i weld yn union beth yw heriau'r adran maethu. Holwyd os byddai'n bosib cael graff i ddangos os yw'r sefyllfa yn gwella neu waethygu dros y blynyddoedd.

Nodwyd fod y gwasanaeth maethu bellach yn rhan o rwydwaith gyda gweddill awdurdodau Cymru ac yn cydweithio gyda rhain. Ynglŷn â'r ystadegau, esboniwyd eu bod yn ystadegau sydd yn cael eu cymharu ar draws y siroedd gwahanol. Nodwyd ei bod hi'n anodd credu, allan o'r ymholiadau cychwynnol, dim ond 17% sydd yn troi yn rhywun yn cael eu cymeradwyo fel gofalwr maeth.

**PENDERFYNIAD**

**Derbyn yr adroddiad.**

**9. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET OEDOLION, IECHYD A LLESIANT**

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Pennaeth Adran.

Adroddwyd bod yr adran yn gweithredu ar Gynllun y Cyngor 2023-28 a'i bod yn adrodd ar y cynnydd hyd at ddiwedd mis Mawrth 2025. Nodwyd ei bod yn ymwybodol o'r holl heriau sydd yn wynebu'r adran a bod hyn wedi ei amlygu fwy nag erioed fel rhan o'r adroddiad Llechen Lân. Nodwyd ei bod yn hapus adrodd fod cynnydd sylweddol wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn.

Rhoddwyd crynodeb o brif brosiectau sydd wedi gweld cynnydd neu sy'n peri pryder gan nodi mai rhai esiamplau sydd yn yr adroddiad, a nad yw'n cyfeirio at bob un llif gwaith gan fod prosiectau'r adran yn eang iawn.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan yr Aelodau:

Diolchwyd i'r Pennaeth Adran sydd yn ymddeol am ei holl waith caled dros y blynyddoedd a chroesawyd y pennaeth Adran newydd.

Gofynnwyd i'r aelod Cabinet i wneud yn siŵr fod y Cyngor yn cysylltu gyda'r Llywodraeth yng Nghaerdydd i herio i wneud yn siŵr fod y grantiau sydd ar gael i'r tîm awtistiaeth tan 2027 yn parhau tu hwnt i hyn. Holwyd hefyd am faint sydd yn aros am asesiad gofal cartref a beth yw'r ffigyrau ynglŷn a hyn. O ran herio'r Llywodraeth, nodwyd ei fod yn broses parhaol i'r aelodau cabinet ac yn digwydd yn wythnosol. I ateb cwestiwn yr aelod, eglurwyd fod y rhestr aros am ofal cartref wedi dod i lawr i 64. Esboniwyd mai blaenoriaeth yr adran yw sicrhau fod y bobl sydd ar y rhestr aros yn ddiogel. O ran nifer y bobl sydd yn aros am asesiad, soniwyd fod gan yr adran y wybodaeth yma fesul mis hyd at ddiwedd mis Mawrth gyda 129 o asesiadau wedi cael eu cynnal dros y ddau fis diwethaf. Cadarnhawyd nad oes unrhyw unigolyn yn cael ei gwrthod am asesiad.

Gofynnwyd am beth sydd yn cael ei wneud i wella'r sefyllfa o ran pobl hyn yn aros am gynllun gofal a chefnogaeth. Nodwyd ei fod yn bwynt amserol iawn oherwydd bod yr adran yn gwneud llawer iawn o waith o dan y faner ataliol ar hyn o bryd a bod pobl yn aros am asesiad mwy manwl. Adroddwyd fod angen symud i ffwrdd o'r meddylfryd fod angen gofal cartrefi i gefnogi pobl. Mae Gofal Cartref yn un o'r opsiynau ond mae llawer o waith yn digwydd o fewn cymunedau i gefnogi pobl

sydd angen cymorth a chefnogaeth. Nodwyd fod y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a llesiant yn pwysleisio'r angen i edrych ar gryfderau unigolion yn hytrach na'r hyn nad ydynt yn gallu ei gyflawni.

Holwyd beth mae'r adran yn ei weld fel y rhwystr mwyaf i fod yn gwneud mwy o Daliadau Uniongyrchol i gefnogi pobl. Eglurwyd fod cymhlethdodau yn y broses o sefydlu'r trefniadau wedi bod yn rhwystr i bobl fod yn awyddus i ystyried taliadau uniongyrchol ond fod llawer o waith wedi ei wneud gan yr Adran i symleiddio'r broses a sicrhau swyddogion i ddarparu cefnogaeth i bobl i roi'r trefniadau mewn lle.

Tynnwyd sylw at drefniadau ‘DOLS’. Esboniodd un aelod ei fod yn ansicr o’r gwahaniaeth rhwng ‘DOLS’ a diffyg galluedd meddyliol. Holwyd os fyddai’n bosib cael esboniad o’r gwahaniaeth rhwng y ddau. Eglurwyd fod rhestr aros hir ar gyfer DOLS a bod hynny’n wir ar draws Cymru i gyd. Esboniwyd fod DOLS yn ei hanfod yn gweithio gyda phobl sydd heb y gallu meddyliol i wneud penderfyniadau penodol. Os yw rhywun heb y gallu i wneud penderfyniadau ynglŷn â bod yn ddiogel mae angen gwneud penderfyniad lles gorau ar eu rhan. Os ydi hyn yn golygu fod unigolyn o dan oruchwyliaeth cyson ac ddim yn rhydd i adael, mae angen cwblhau asesiad DOLS. Cytunwyd i drefnu sesiwn gwybodaeth i aelodau ar asesiadau gallu meddyliol a’r drefn DOLS.

Tynnwyd sylw at yr unedau dementia a holwyd beth oedd y rheswm dros y llithriad a’r oedi yn agor yr unedau yma. Adroddwyd fod yr uned Bryn Blodau wedi agor yn rhannol ac mai staffio ydy’r prif reswm dros yr oedi yn agor. Cadarnhawyd fod pethau yn symud ymlaen rŵan a bod angen i’r uned agor cyn gynted â phosib. Nodwyd fod Plas Hedd wedi wynebu llawer iawn o heriau o ran gwaith adeiladu ond fod gobaith fod yr heriau yma wedi dod i ben bellach a gorau bo’ gyntaf y gallai’r unedau yma agor.

**PENDERFYNIAD**

**Derbyn yr adroddiad**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30yb a daeth i ben am 3yp

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Adroddiad Blynyddol ar y Weithdrefn Cwynion, Ymholiadau a Diolchiadau'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd ac Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ar gyfer 2024-25** |
| **PWRPAS** | **Paratoi Adroddiad Blynyddol ar weithrediad y Weithdrefn Sylwadau a Chwynion a'i gyflwyno i'r Cabinet a'r Pwyllgor Craffu er mwyn craffu a monitro'r trefniadau ar gyfer delio'n effeithiol â chwynion a dderbyniwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'u cynrychiolwyr** |
| **AWDUR** | **Sharron Williams Carter – Pennaeth Adran Plant Gweithredol Dros Dro**<br><br>**Aled Gibbard – Pennaeth Adran Plant Adnoddau Dros Dro**<br><br>**Mari Wynne Jones – Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant** |
| **AELODAU CABINET** | **Cynghorydd Dilwyn Morgan**<br>**Cynghorydd Menna Trenholme** |
| **DYDDIAD Y PWYLLGOR CRAFFU** | **25/09/2025** |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Yn unol â Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014 a'r Rheoliadau Gweithdrefn Sylwadau (Cymru) 2014 ddaeth i rym ar 1af o Awst, 2014, mae'n ofynnol i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol gynhyrchu adroddiad blynyddol ar y modd ymchwilir ac ymdrinnir â chwynion o fewn yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd a'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant. Caiff yr adroddiad ei gynhyrchu gan Swyddogion Gofal Cwsmer y ddwy Adran, ar ran Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol.

1.2 Diben yr adroddiad hwn yw darparu gwybodaeth ar niferoedd y cwynion a dderbyniwyd gan yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd a'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn ystod y flwyddyn, a'r rhesymau drostynt ynghyd â datrysiadau. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys crynodeb o'r gwersi a ddysgwyd a'r camau a gymerwyd o ran y cwynion a dderbyniwyd. Ceir hefyd fanylion am y niferoedd o geisiadau mynediad at wybodaeth gwybodaeth a cheisiadau rhyddid gwybodaeth a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod hwn.

## 2. Cyd-destun

2.1 Mae'n ofynnol i'r ddwy Adran roi Gweithdrefn Sylwadau a Chwynion statudol ar waith, yn unol â Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014 a Rheoliadau Gweithdrefn Sylwadau (Cymru) 2014. Mae ymrwymiad i lunio Adroddiad Blynyddol ar weithrediad y Weithdrefn Sylwadau a Chwynion a'i gyflwyno i Bwyllgor Craffu perthnasol y Cyngor er mwyn iddo fedru craffu a monitro'r trefniadau ar gyfer delio'n effeithiol â chwynion a dderbyniwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'u cynrychiolwyr. Mae'n bwysig bod cofnod yn cael ei gadw o sylwadau a chwynion er mwyn i'r Adran allu dysgu gwersi oddi wrthynt, a hynny fel rhan o'r broses o wella'r gwasanaethau a ddarperir. Mae'n ymarfer da i rannu'r adroddiad cwynion blynyddol ag aelodau'r Cyngor er mwyn sicrhau tryloywder. Mae ystadegau ar gyfer cwynion o dan Weithdrefn Sylwadau a Chwynion yr Adran yn cael eu hadrodd ar wahân i'r rhai ar gyfer cwynion a dderbyniodd ymateb o dan Bolisi Pryderon a Chwynion corfforaethol y Cyngor. Mae hyn yn galluogi'r Pwyllgor Craffu a'r Pwyllgor Gwaith i graffu'n rheolaidd ar ystadegau am gwynion.

2.2 Mae Swyddog Gofal Cwsmer yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd wedi ei lleoli o dan reolaeth yr Pennaeth Cynorthwyol Diogelu ac Ansawdd yn yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd.

Lleolwyd Swyddog Gofal Cwsmer yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant o dan reolaeth Pennaeth Cynorthwyol Diogelu a Sicrwydd Ansawdd yr Adran.

Er i'r Swyddogion gael eu lleoli oddi fewn i'w Adrannau, mae'n bwysig nodi fod y Swyddogion yn annibynnol er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â chwynion yn unol â Rheoliadau Gweithdrefn Cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014. Mae'r Drefn Gwynion Gwasanaethau Cymdeithasol yn benodol yn ymwneud ag unigolion sydd yn derbyn gwasanaeth gan un o'r ddwy Adran, neu sydd â hawl i gynrychioli'r defnyddiwr gwasanaeth.

Mae'r Swyddogion Gofal Cwsmer yn gyfrifol am:

- Cydlynu trefniadau'r gwasanaeth er mwyn cydymffurfio â'r Weithdrefn Sylwadau a Chwynion;
- Cofnodi cwynion a sylwadau cadarnhaol a negyddol gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'u cynrychiolwyr;
- Monitro'r ymateb i gwynion o fewn yr amserlenni a bennir yn y rheoliadau ar gyfer ymdrin â chwynion o dan Gam 1 y weithdrefn;
- Cydlynu ymchwiliadau gan ymchwilwyr annibynnol i gwynion ffurfiol o dan Gam 2 y weithdrefn;
- Sicrhau yr anfonir ymateb ysgrifenedig ffurfiol a chopi o adroddiad yr ymchwiliad annibynnol (neu grynodeb o'r canlyniad) at yr achwynydd o fewn 25 diwrnod gwaith o dan Gam 2 y weithdrefn, a hysbysu'r achwynydd os rhagwelir y bydd oedi;
- Cydlynu ymatebion gan y Gwasanaethau Cymdeithasol i ymholiadau gan Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus

Cymru ynghylch cwynion am faterion yn ymwneud â'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant;

- Monitro Cynlluniau Gweithredu i sicrhau y dysgir gwersi o gwynion er mwyn gwella ansawdd gwasanaethau;
- Datblygu'r Weithdrefn Sylwadau a Chwynion mewnol;
- Sicrhau bod gwybodaeth ar gael er mwyn hwyluso mynediad i'r Weithdrefn Sylwadau a Chwynion i ddefnyddwyr gwasanaeth a'u cynrychiolwyr.
- Darparu hyfforddiant a chefnogaeth i hyrwyddo dealltwriaeth o'r Weithdrefn Sylwadau a Chwynion ymysg staff Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant.
- Mae'r Swyddog Gofal Cwsmer ar gyfer Oedolion yn aelod o Banel Mannau Parcio i'r Anabl, sydd yn gyfrifol am gydlynu'r broses o asesu ceisiadau gan y cyhoedd am fannau parcio penodol i drigolion anabl tu allan i'w eiddo.

## 3. Hwylustod y Drefn Cwyno

3.1 Pan mae person yn cysylltu â'r Swyddogion Gofal Cwsmer mae'n ymwneud ag anfodlonrwydd â gwasanaeth yr Adrannau ac mae'r dewis i wneud cwyn yn ddewis olaf gan amlaf ganddynt. Mae'r Swyddogion Gofal Cwsmer yn canolbwyntio ar sicrhau hwylustod i'r Drefn Gwyno fel bod pobl yn ymwybodol o'u hawl i gael gwrandawiad ac ymchwiliad llawn o'u cwyn.

3.2 I'r diben hwn, caiff gwybodaeth ynglŷn â'r drefn gwyno gryn gyhoeddusrwydd ac mae ar gael mewn amrywiaeth o fformatau e.e. taflenni, ar-lein a fersiwn "hawdd i'w ddarllen". Mae'r holl wybodaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg fel bod yr achwynydd yn medru dewis yr iaith sydd orau ganddo ef/ganddi hi. Mae trefniadau amgen megis Braille neu ieithoedd eraill ar gael ar ofyn. Mae eiriolaeth neu gefnogaeth arall ar gael i'r achwynydd yn ei h/iaith ddethol er mwyn cynorthwyo wrth i'r Drefn Gwynion fynd rhagddi. Mae taflenni gwybodaeth yn cael eu diwygio a'u diweddaru'n barhaus.

3.3 Yn unol â threfniadau'r drefn gwynion, mewn rhai achlysuron nid oes modd derbyn cwyn ar y pryd hynny. Os oes ymchwiliad Heddlu cyfredol, ymchwiliad o dan y drefn Diogelu, ymchwiliad Amddiffyn Plant cyfredol, neu mae'r mater yn derbyn sylw gerbron y Llys, ni allwn dderbyn y gwyn. Gall derbyn cwyn amharu ar unrhyw ymchwiliad cyfredol sydd yn cymryd lle ar y pryd. Mi fyddwn mewn achos fel hyn yn cynghori'r achwynydd o'r rhesymau, unwaith mae'r ymchwiliad wedi dod i ben yna mi allwn ddechrau'r broses gwynion.

## 4. Materion a gofnodwyd fel Ymholiadau

4.1 Y nod yw ymateb i bob cwyn gyda thegwch, didueddrwydd a pharch fel bod yr unigolyn yn hyderus fod ei gwyn yn derbyn ymdriniaeth broffesiynol a hynny mewn modd positif yn hytrach na negyddol. Yn aml, pan mae'r unigolyn yn dewis peidio â dilyn y Drefn Gwyno, fe ymdrinnir â'r mater fel

ymholiad neu gŵyn anffurfiol. Enghraifft arall o hyn fyddai llythyr gan Aelod Seneddol neu Gynghorydd lleol sy'n dymuno mynegi anfodlonrwydd neu sydd angen ateb i gwestiwn penodol.


4.2 Trwy ymateb yn bositif yn ystod y camau cynnar hyn, gall rhai materion gael eu datrys yn effeithiol heb fod angen dilyn y Drefn Gwyno am fod dewis i ymdrin ag unrhyw gamddealltwriaeth neu ymateb i ymholiadau. Heb os, dyma'r canlyniad gorau i bawb. Gweler Tabl 1(a) ac 1(b) isod am ddadansoddiad o darddiad pob ymholiad a'r uned/gwasanaeth sy'n gyfrifol am ymateb i'r ymholiad arbennig hwnnw.

**TABL 1(a) - Ymholiadau a Chwynion Anffurfiol a dderbyniwyd gan yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd**

| | 2023/24 | 2024/25 |
|---|---|---|
| *Cyfreithwyr* | 2 | 1 |
| *Ymholiad Ombwdsmon* | 3 | 3 |
| *Aelodau lleol* | | 1 |
| *Aelodau Seneddol neu Aelodau Cynulliad* | 5 | 13 |
| *Defnyddwyr Gwasanaeth* | 1 | |
| *Perthynas* | 15 | 6 |
| *Y Cyhoedd* | 1 | 4 |
| *Gofalwr Maeth* | 1 | |
| *Asiant Arall e.e. gwasanaeth eiriolwr* | 2 | |
| **Cyfanswm** | 30 | 28 |

**TABL 1(b) - Ymholiadau a Chwynion Anffurfiol a dderbyniwyd gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant**

| | 2023/24 | 2024/25 |
|---|---|---|
| *Cyfreithwyr* | 1 | |
| *Ymholiad Ombwdsmon* | | |
| *Aelodau lleol* | 3 | 1 |
| *Aelodau Seneddol neu Aelodau Cynulliad* | 16 | 12 |
| *Defnyddwyr Gwasanaeth* | | 1 |
| *Perthynas a/neu Ofalwr* | 14 | 13 |
| *Y Cyhoedd* | 10 | 9 |
| *Eiriolwr* | | 1 |
| *Materion Mannau Parcio Anabl* | 2 | |
| *Asiantaeth arall* | 1 | 4 |
| *Siroedd Eraill* | 1 | |
| *Yr Heddlu* | | 1 |
| *Comisiynydd Pobl Hyn* | | |
| *Cwmnïau Darparu Gofal Allanol* | 1 | |
| *Staff Cyngor Gwynedd (Adran arall)* | | |
| *Staff Bwrdd Iechyd* | | |
| **Cyfanswm** | 49 | 42 |




**5. Cam 1 - Trefn Gwyno Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol – Datrysiad Lleol**

5.1 Gwneir pob ymdrech i ddatrys y gŵyn fel bod yr achwynydd a'r Adran yn fodlon. Yn amlwg, datrysiad lleol a buan yw'r canlyniad gorau i bawb a gellir cyflawni hyn trwy fuddsoddi amser ac ymdrech yn gynnar. Os yw'r achwynydd, fodd bynnag, yn penderfynu gwneud cwyn ffurfiol o dan Cam 1 o’r Trefn Gwynion, y drefn arferol yw cysylltu dros y ffôn, trwy e-bostio, neu wyneb yn wyneb â'r achwynwyr neu gynrychiolydd er mwyn ceisio datrys y mater. Dros y blynyddoedd, mae'r Swyddogion Gofal Cwsmer wedi llwyddo i sefydlu cysylltiadau gweithio clos gyda'r timau, rheolwyr a'r adain gyfreithiol fel modd o drafod a datrys materion a chaiff hyn ei adlewyrchu yn y nifer fechan o gwynion sy'n cyrraedd Cam 2 yn y Drefn Cwynion.

5.2 Weithiau, mae modd datrys pryder erbyn diwedd y diwrnod gwaith canlynol, ac yn yr achosion hynny, nid oes angen eu cofnodi fel cwyn ffurfiol o dan Gam 1 o’r Drefn Cwynion. Yn hytrach, byddant yn cael eu cofnodi fel Ymholiadau a Chwynion Anffurfiol. Yn ogystal, ar rhai achlysuron bydd yr achwynydd yn datgan nad ydynt yn dymuno gwneud cwyn ffurfiol o dan Gam 1 na Cham 2 o’r Drefn Cwynion.

Ar adegau eraill, mae’r pryderon a dderbynnir yn ymwneud â materion hanesyddol ac, o’r herwydd, nid ydynt yn gymwys ar gyfer ymchwiliad o dan y Drefn Cwynion, er y bydd rhyw fath o ymateb yn cael ei roi pan yn briodol. Yn achos rhai pryderon, nid yw’n bosib ymateb iddynt o dan y Drefn Cwynion pe byddai gwneud hynny’n niweidio achosion cyfreithiol neu ymchwiliadau amddiffyn oedolion sy’n mynd rhagddynt. Hysbysir yr

achwynydd fod hawl ganddynt i ailgyflwyno'r cwyn ar ôl i'r achos cyfredol ddod i ben os ydynt yn dymuno.

5.3 Ymdriniwyd a chwynion ffurfiol o dan drefniadau cwynion statudol Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn dilyn derbyn y gwyn mae yn cael ei anfon ymlaen i sylw'r Rheolwr Tim a'r Pennaeth Cynorthwyol perthnasol. Mi fyddai'r Rheolwr Tim neu'r Pennaeth Cynorthwyol perthnasol yn cysylltu gyda'r achwynydd dros y ffon i drafod eu cwyn a cheisio dod i ddatrysiad. Yn dilyn y sgwrs hon mae'r Pennaeth Cynorthwyol yn anfon llythyr yn cadarnhau'r sgwrs ymlaen at yr achwynydd. Os nad yw'r achwynydd eisiau sgwrs ffôn yna mae posib anfon ymateb ysgrifenedig yn unig. Yn unol â'r canllawiau mae gan yr Adran 10 diwrnod gwaith i gysylltu gyda'r achwynydd i drafod eu cwyn, ac yna 5 diwrnod gwaith i gadarnhau'r sgwrs drwy lythyr.


5.4 Os yw'r achwynydd yn anfodlon gyda'r ymateb o dan Gam 1 o'r broses gwynion yna mae posib iddynt ofyn i'r mater gael ei uchafu i Gam 2 o'r trefniadau Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn unol â'r canllawiau mae gan yr Adran perthnasol 25 diwrnod gwaith i gwblhau ymchwiliad Cam 2. Mewn achosion eithriadol mae posib ehangu'r amserlen os oes angen. Mae'n bwysig hefyd i nodi fod y Drefn Cwynion yn caniatáu i achwynydd ofyn i'r Adran perthnasol uwchraddio eu cwyn yn syth i Gam 2 o'r Trefn Cwynion a dewis peidio derbyn ymateb ffurfiol o dan Cam 1.


5.5 Mae **Tabl 2** isod yn dangos y nifer o gwynion ffurfiol a dderbyniwyd gan y ddwy Adran rhwng 01/04/24 a 31/03/25, gyda ffigyrau y blwyddyn canlynol wedi eu cynnwys er mwyn cymhariaeth. Gweler hefyd **Tabl 2(a) a Thabl 2(b) isod** am gymhariaeth o'r niferoedd o cwynion a dderbyniwyd gan y ddwy Adran rhwng Ebrill 2020 a Mawrth 2025.

Fe weler enghreifftiau o'r cwynion a dderbyniwyd gan y ddwy Adran yn **Atodiad 1(a) ac 1(b).**

| **TABL 2 Trefn Gwyno Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol** | | |
|---|---|---|
| ***ADRAN PLANT A THEULUOEDD*** | ***2023/24*** | ***2024/25*** |
| *Cam 1* | 13 | 22 |
| *Cam 2* | 4 | 3 |
| *Ombwdsmon* | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **17** | **25** |
| | | |
| ***ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT*** | ***2023/24*** | ***2024/25*** |
| *Cam 1* | **22** | **16** |
| *Cam 2* | **2** | **0** |
| *Trefn Gwyno Corfforaethol* | **2** | **7** |
| *Ombwdsmon* | **0** | **0** |
| **Cyfanswm** | **26** | **23** |

| TABL 2(a) Trefn Gwyno Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol - Plant | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2020/21** | **2021/22** | **2022/23** | **2023/24** | **2024/25** |
| *Cam 1* | 21 | 26 | 16 | 13 | 22 |
| *Cam 2* | 1 | 3 | 1 | 4 | 3 |
| *Ymchwiliad Ombwdsmon* | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **22** | **29** | **17** | **17** | **25** |
| **TABL 2(b) Trefn Gwyno Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol - Oedolion** | | | | | |
| | **2020/21** | **2021/22** | **2022/23** | **2023/24** | **2024/25** |
| *Cam 1* | 15 | 29 | 22 | 22 | 16 |
| *Cam 2* | 0 | 1 | 1 | 2 | 0 |
| *Ymchwiliad Ombwdsmon* | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **15** | **30** | **23** | **24** | **16** |




## 6. Cam 2 - Trefn Gwyno Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol - Ymchwiliad Ffurfiol

6.1 Pe byddai achwynydd eisiau uchafu eu cwyn i Gam 2, byddai'n rhaid iddynt ddarparu cofnod llawn o'u cwyn ynghyd ag unrhyw ddeilliannau cyraeddadwy; dyma fydd yn ffurfio'r sylfaen ar gyfer beth rydym yn ei alw'n Ymchwiliad Cam 2. Ar gyfer y ddwy Adran, mae'r ymchwiliad yn cael ei gynnal gan berson annibynnol i'r Cyngor sydd yn cael eu hadnabod fel Ymchwilydd Annibynnol. Yn ogystal, mewn achos o gwyn yn ymwneud a'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd, mae angen apwyntio Person

Annibynnol. Eu rôl ydy cyfarfod gyda'r achwynydd, cyfweld staff perthnasol a darllen y ffeil gofal cymdeithasol. Yn dilyn hyn maent yn creu adroddiad o'u darganfyddiadau ynghyd â unrhyw argymhellion i'r Adrannau perthnasol. Bydd yr Adrannau yn paratoi ymateb i'r argymhellion hyn i'w rannu gyda'r achwynydd.

Mae'r ddwy Adran yn gyfrifol am ariannu ymchwiliadau ei hunain trwy gomisiynu ymchwilydd annibynnol, a'r person annibynnol pan yn berthnasol, fel unigolion hunangyflogedig. Mae costau ymchwiliad yn amrywio yn nol cymhlethdod y mater a'r amser sydd ei angen i gasglu'r dystiolaeth i greu'r adroddiad.

Os bydd yr achwynydd yn parhau i fod yn anhapus ar ôl dilyn y broses Gam 2, yna mae modd iddynt ofyn i'r Ombwdsmon ymchwilio ymhellach.

Trwy ddilyn yr egwyddor o ganolbwyntio ar ddatrysiad buan a lleol yn llwyddiannus, ac ymdrin â materion yn gyflym ac effeithiol, mae'r angen i symud cwynion ymlaen i Gam 2, yn anghyffredin yng Ngwynedd. Deallir fod Gwynedd yn ennill y blaen ar hyn ledled gogledd Cymru. Mae'n dystiolaeth bendant o ymroddiad y Swyddogion Gofal Cwsmer, trwy dderbyn cydweithrediad parod y staff perthnasol ymhob achos unigol, i ddatrys pob cwyn mewn modd effeithiol ac amserol.

6.2 Yn ystod 2024/25, derbyniwyd yr Adran Plant a Theuluoedd tri cais i uchafu cwyn i Gam 2 o'r Drefn Gwynion Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol. Ceir ddadansoddiad o'r tri Ymchwiliad Cam 2 yn **Atodiad 1(a)**.

Ni symudodd unrhyw gwyn i'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ymlaen o Gam 1 i Gam 2 yn ystod 2024/25. Gweler **Atodiad 1(b)** am fanylion pellach.

## 7. Ymchwiliadau i gwynion a dderbyniwyd gan Ombwdsmon y Gwasanaethau Cyhoeddus

7.1 Os nad yw cwyn yn cael ei datrys ar ddiwedd ymchwiliad o dan Gam 2 o'r Drefn Cwynion, mae gan yr achwynydd hawl i gyfeirio'r achos i Ombwdsmon y Gwasanaethau Cyhoeddus dros Gymru, neu i Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg neu'r Comisiynydd Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, yn dibynnu ar natur y gŵyn.

7.2 Mae gan achwynydd yr hawl i gysylltu gyda'r Ombwdsmon ar unrhyw bwynt, ond yn arferol mae'r Ombwdsmon yn disgwyl i'r achwynydd fynd drwy'r broses gwynion yn ei gyfanrwydd cyn y byddent yn edrych ar y mater. Felly mi fyddai'r Ombwdsmon yn cyfeirio'r achwynydd yn ôl i'r Adran i geisio datrys y gwyn yn lleol.

7.3 Ni dderbyniwyd unrhyw ymchwiliad newydd gan swyddfa'r Ombwdsman yn 2024/25 gan yr un o'r ddwy Adran yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn.

## 8. Cwynion am wasanaethau a ddarparwyd ar y cyd efo'r Bwrdd Iechyd

8.1 Mae protocol cwynion ar y cyd yn bodoli ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r Chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru. Ni chyflwynwyd unrhyw ymatebion ar y cyd i gwynion o dan y protocol hwn yn ystod 2023/24.

## 9. Ymlyniad at Amserlen Ymateb y Drefn Gwyno Statudol


9.1 Mae gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth ar y modd y mae'n archwilio ac ymdrin â chwynion o fewn yr amserlen a nodwyd yn y Canllawiau a'r Rheoliadau. Unwaith y byddwn wedi derbyn cwyn, bydd y rheolwr perthnasol neu uwch ymarferydd yn cynnig cysylltu gyda'r achwynydd i gynnig cyfarfod/galwad ffôn o fewn 10 diwrnod gwaith er mwyn trafod y cwyn ac i geisio ei ddatrys. Byddwn wedyn yn ysgrifennu at yr achwynydd o fewn 5 diwrnod gwaith i'r drafodaeth i gadarnhau telerau datrysiad y cwyn.

9.2 Llwyddodd yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant i ymateb i 94% o gwynion Cam 1 o fewn yr amserlen yma yn ystod 2024/25. Llwyddodd yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd i ymateb i 95% o gwynion o fewn yr un amserlen yn ystod 2024/25.

9.3 Mae'r rhesymau dros unrhyw ymatebion hwyr yn bennaf yn gysylltiedig â chymhlethdod y cwyn dan sylw, a'r gwaith ymchwil sydd angen ei wneud i allu darparu ymateb llawn. Mae absenoldebau oherwydd salwch, gwyliau blynyddol, ayyb, y Swyddog Gofal Cwsmer a'r staff sydd yn gysylltiedig â'r cwyn hefyd yn cael effaith arwyddocaol ar allu/methu cadw at yr amserlen ymateb.

Mae'r amserlen ar gyfer darparu ymateb ysgrifenedig, sy'n cadarnhau deilliant y drafodaeth, yn dynn iawn, sef 5 diwrnod gwaith. Serch hynny mae'r rhan fwyaf o achwynwyr yn derbyn ymateb o fewn yr amserlen neu wedi cytuno i ymestyn yr amserlen.


| **Trefn Gwyno Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol – Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd - Perfformiad Ymateb 2024/25** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cam 1** (cyfanswm – 13) | | | | | | |
| *Cwynion a dderbyniwyd cyn pen 12 mis i'r digwyddiad* | *Cwynion a dderbyniwyd 12 mis ar ôl y digwyddiad* | *Wedi eu cydnabod o fewn 2 ddiwrnod* | *Trafodaeth i gael ei ddatrys cyn pen 10 diwrnod* | *Penderfyniad wedi ei gyhoeddi cyn pen 5 diwrnod* | *Amser ymateb wedi'i ymestyn* | *Cyfartaledd dyddiau wedi eu hymestyn* |
| 21 | 1 | 22 | 21 | 21 | 1 | 10 |
| **Cam 2** (cyfanswm – 2) | | | | | | |
| ***Nifer a gydnabuwyd mewn 5 diwrnod*** | *Nifer o ymatebion a dderbyniwyd mewn 25 diwrnod gwaith* | *Nifer wedi'u gohirio dan amgylchiadau eithriadol* | | | | *Nifer a gyflawnwyd mewn 6 mis* |
| | 1 | 2 | | | | 2 |



| **Trefn Gwyno Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol – Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant - Perfformiad Ymateb 2024/25** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cam 1** (cyfanswm – 16) | | | | | | |
| *Cwynion a dderbyniwyd cyn pen 12 mis i'r digwyddiad* | *Cwynion a dderbyniwyd 12 mis ar ôl y digwyddiad* | *Wedi eu cydnabod o fewn 2 ddiwrnod* | *Trafodaeth i gael ei ddatrys cyn pen 10 diwrnod* | *Penderfyniad wedi ei gyhoeddi cyn pen 5 diwrnod* | *Amser ymateb wedi'i ymestyn* | *Cyfartaledd dyddiau wedi eu hymestyn* |
| 16 | 0 | 16 | 15 | 15 | 1 | 15 |

| **Cam 2** (cyfanswm – 0) | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ***Nifer a gydnabuwyd mewn 5 diwrnod*** | *Nifer o ymatebion a dderbyniwyd mewn 25 diwrnod gwaith* | *Nifer wedi'u gohirio dan amgylchiadau eithriadol* | | *Nifer a gyflawnwyd mewn 6 mis* |
| 0 | | 0 | | 0 |

**Perfformiad ymateb i Cwynion Cam 1 a Cham 2 Oedolion, Iechyd a Llesiant - 2024/25**



## 10. Trefn Gwyno Corfforaethol Cyngor Gwynedd

10.1 Ymdrinnir â rhai materion sydd y tu hwnt i orchwyl Trefn Gwyno'r Gwasanaethau Cymdeithasol o dan Bolisi Cwynion Corfforaethol Gwynedd. Mae cwynion sydd yn cael eu trafod o dan y Drefn Cwyno Gorfforaethol yn bennaf yn ymwneud a materion sydd ddim yn gysylltiedig yn uniongyrchol gyda’r gwasanaethau gofal mae’r Adrannau yn eu cynnig o dan y Ddeddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

10.2 Derbyniwyd saith cwyn eleni gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a gafodd sylw o dan Drefn Cwynion Corfforaethol y Cyngor. Mae mwy o wybodaeth am y cwynion yma ar gael yn **Atodiad 2**.

## 11. Dysgu Gwersi ac Adnabod Tueddiadau

### Dysgu Gwersi

11.1 Cyflwynir adroddiadau chwarterol i gyflwyno'r modd yr ymdrinnir â chwynion i Dîmau Rheoli'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd a’r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant. Mae hwn yn gyfle i’r Penaethiaid Cynorthwyol i ddadansoddi pob cwyn ac i drafod a dysgu er mwyn wella'r gwasanaeth sy’n cael ei gynnig i Ddefnyddwyr Gwasanaeth.

11.2 Mae'r Tîmau Rheoli'n cynnwys y gwersi a ddysgwyd yn eu cynlluniau gwaith diwygiedig ac fe gaiff unrhyw anghenion hyfforddiant eu hadnabod. Mae’r log gwersi i’w ddysgu cyfredol yn cael ei weinyddu gan y Swyddogion Gofal Cwsmer. Mae’r log yn cael ei ddosbarthu’n rheolaidd ymysg y Penaethiaid Cynorthwyol er mwyn eu hysbysu o’r gwersi sydd wedi cael eu hadnabod. Bydd y log yn cael ei ddiweddaru gydag unrhyw wybodaeth am weithredoedd a wnaed yn gysylltiedig â’r gwersi i’w dysgu. Mae gobaith bydd hyn yn fodd mwy effeithiol o adnabod gwersi a sicrhau fod gwelliannau yn cael eu gweithredu.

### Tueddiadau Cwynion – Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd

11.3 Mae’r Adran Blant a Chefnogi Teuluoedd yn gweithio yn ddyddiol gydag amrediad eang o deuluoedd gwahanol. Mae rhai teuluoedd yn dod i sylw’r Adran drwy ofyn yn uniongyrchol am gymorth, er enghraifft, os oes anabledd gan eu plentyn. Mae’r mwyafrif o deuluoedd yn dod i sylw’r Adran oherwydd pryderon dros les a diogelwch plentyn neu berson ifanc.

11.4 Oherwydd natur gwaith yr Adran, ac yn bennaf Gweithwyr Cymdeithasol, yn anffodus mae tensiwn neu wrthdaro gyda theuluoedd yn anochel ar adegau. Mae rhaid i Weithwyr Cymdeithasol wneud penderfyniadau anodd iawn, ac nid yw teuluoedd yn hapus bob amser. Mae’r Adran yn deall ac yn derbyn y gall teuluoedd fod yn anfodlon sydd yn arwain atynt i wneud cwyn ffurfiol yn erbyn yr Adran.

11.5 Mae’n deg i nodi ei bod yn anodd gweld a oes yno dueddiadau pendant neu themâu clir yn y cwynion a dderbyniwyd yn ystod 2024/25, gan fod pob

cwyn yn dueddol o fod yn unigryw i bob achos. Yn unol â'r Drefn Gwynion, bydd y Rheolwr Tîm neu'r Pennaeth Cynorthwyol yn trafod y gŵyn gyda'r achwynydd. Drwy gynnal trafodaeth, mae'r Rheolwr Tîm yn gallu ymateb i faterion yn uniongyrchol ac mae'r mwyafrif o achosion yn cael eu datrys dros y ffôn; mae'n glir fod y ffordd yma o ddelio â chwynion yn gweithio. Yn y mwyafrif o achosion, mae'r gŵyn yn deillio o gamddealltwriaeth a cham-gyfathrebu. Unwaith caiff y materion eu hesbonio'n llawn, rhan fwyaf o'r amser, bydd yr achwynydd yn hapus.

11.6 Mae'n bwysig iawn nodi hefyd, ar sawl achlysur pan fydd achwynwyr yn cysylltu gyda'r Swyddog Gofal Cwsmer yn gyntaf maent o dan deimlad – boed hynny yn flin neu'n ofidus am benderfyniad neu gamddealltwriaeth. Yn y mwyafrif o achosion, bydd yr achwynydd yn fodlon wedi iddynt gael y cyfle i drafod eu pryder gyda'r Swyddog Gofal Cwsmer yn gyntaf ac yna gyda'r Rheolwr Tîm perthnasol, a byddent yn hapus gyda chanlyniad y trafodaethau hyn.

**Achwynwyr Blinderus / Unigolion Anodd**

11.7 Rydym yn gweithio mewn maes arbennig, gyda'r angen i ymateb i achosion bregus er mwyn sicrhau llesiant plant a phobl ifanc Gwynedd. Mae hyn yn gallu arwain at wrthdaro gyda teuluoedd; rhwng yr angen i ddiogelu plentyn a hynny yn groes i ddymuniadau eu rhieni. Mae hyn yn golygu felly ein bod yn dod ar draws rhai unigolion anodd a pheryglus ar adegau.

Y tuedd mwyaf yn 2024/25 ac sydd i weld yn parhau i mewn i 2025/26 ydi unigolion y gellir eu disgrifio fel rhai anodd neu fel achwynwyr blinderus. Mae achwynwyr anodd yn unigolion lle mae ymdrech i ymateb i'w cwyn ond eu bod yn parhau yn anfodlon ac yn aml yn ymddwyn mewn ffordd gynyddol ymosodol neu fygythiol. Er cyflwyno esboniadau trwy broses Cam 1 neu weithiau ganlyniadau ymchwiliadau annibynnol Cam 2 maent yn parhau'n anfodlon ac nid oes modd eu darbwyllo na'u bodloni. Maent yn mynd yn gynyddol rhwystredig ac mae yn heriol ceisio cadw eu sylwadau'n gyfrinachol.

Er enghraifft, achwynwyr sydd yn dewis rhannu gwybodaeth sensitif yn gyhoeddus am eu hamgylchiadau gan wneud ensyniadau am lygredd sefydliadol ac yn bygwth aelodau staff unigol. Mae polisïau corfforaethol ar gyfer ymdrin ac achwynyddion blinderus. Mae hyn yn ein galluogi i reoli sut rydym yn ymateb iddynt. Mae y trothwy ar gyfer hyn yn uchel ac mae staff yn gallu profi cyfnodau hir o gyswllt anodd ac yn wynebu bygythiadau cyn gallu rhoi hyn ar waith. Golygai hyn nid yn unig delio gyda chyfathrebiad parhaus gan unigolion am faterion ond bod yr unigolion rhain ar adegau yn fygythiol i'r staff sydd yn ceisio cynnal eu dyletswyddau statudol.

Ar sawl achlysur mae'r angen i uchafu materion i sylw Iechyd a Diogelwch wedi codi, ac mae'r angen i ysgrifennu llythyrau rhybudd at yr unigolion hynny i esbonio nad yw ymddygiad o'r fath yn cael ei dderbyn gan y Cyngor. Mae'r balans o sicrhau hawl yr unigolyn i gwyno a derbyn sylw llawn yn unol â'r trefniadau cwynion a sicrhau diogelwch staff yn anodd iawn ar brydau.

Hefyd, wrth ddelio gydag unigolion anodd fel hyn, mae angen sicrhau nad yw'r broses gwynion yn amharu ar allu'r Gwasanaeth i ddiogelu'r plentyn/person ifanc.

Mae'n bwysig nodi hefyd, fel Adran rydym yn croesawu cwynion mae yn ffordd o ddeall beth sydd yn digwydd o fewn ein hadran a dysgu a datblygu yn unol â'r angen. Mae'r unigolion sydd yn cael eu hadnabod fel achwynwyr blinderus yn defnyddio'r broses gwynion er mwyn ceisio rhoi pwysau ar staff i newid penderfyniadau, mewn rhai adegau maent yn defnyddio'r broses i gael eu ffordd eu hunain er nad dyma'r weithred gorau er lles y plant a phobl ifanc mewn cwestiwn. Yn amlwg nid dyma bwrpas y drefn gwynion, mae'r broses yma i roi llais i unigolion sydd yn teimlo eu bod wedi eu methu gan yr Adran, ac nid i roi pwysau a bygwth staff y Cyngor.

**Tueddiadau Cwynion ac Ymholiadau - Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant**

11.10 Mae'r Swyddog Gofal Cwsmer yn rhan o Uned Diogelu a Sicrwydd Ansawdd (Oedolion) hefo perthynas agos a Swyddogion Monitro Gofal a'r Swyddogion Diogelu. Mae hyn yn hanfodol er mwyn rhannu gwybodaeth er mwyn adnabod achosion o Ddiogelu. Mae rhannu gwybodaeth am unrhyw gwynion a dderbyniwyd am ofal unigolion mewn cartrefi preswyl yn ddefnyddiol er mwyn adnabod problemau gofal ehangach yn y sefydliadau hynny fydd angen ymchwil pellach gan y Swyddogion Monitro.

11.11 Derbyniwyd amrywiaeth o gwynion ac ymholiadau ar themâu gwahanol yn ystod y flwyddyn ac ni ddaeth unrhyw thema penodol i'r amlwg.

Fe fu parhad yn y nifer is o gwynion/ymholiadau a dderbyniwyd ar y thema fwyaf amlwg a ddaeth i'n sylw yn ystod y dair blynedd diwethaf, sef cwynion ac ymholiadau am effaith y trafferthion rydym wedi ei gael fel Adran i ddarparu oriau gofal cartref digonol pan fo'r angen yn codi. Derbyniwyd dau gwyn ar y thema yma eleni.

Ni adnabuwyd unrhyw dueddiadau eraill penodol ymysg yr amrywiaeth eang o faterion a dderbyniwyd yn ystod blwyddyn 2024/25.

## 12. Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth Staff o’r Drefn Cwynion

12.1 Rhan bwysig o ddyletswydd Gofal Cwsmer yw darparu hyfforddiant i staff o ran y Drefn Gwyno fel bod staff yn llwyr ymwybodol o'r drefn ac yn hyderus ynglŷn â'u rôl nhw ynddo. Mae’r Swyddogion Gofal Cwsmer bob amser ar gael i drafod unrhyw achosion penodol gydag aelodau o staff yr Adrannau ac i gynnig cyngor ar y ffordd orau i ymdrin ac ymholiadau neu gwynion yn erbyn yr Adran. Mae sesiwn e-ddysgu ar gyfer holl staff yn ddwy Adran wedi cael ei ddatblygu er mwyn sicrhau bod staff yn llawn ymwybodol o’r drefn gwynion a’r disgwyliadau ar staff yn ystod y broses. Mi fyddwn yn monitro’r niferoedd sydd yn ymgymryd â’r hyfforddiant a thargedu'r aelodau staff sydd heb ei gwblhau.

## 13. Dyletswyddau Eraill

13.1 Mae Swyddog Gofal Cwsmer Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn aelod o Banel Mannau Parcio i’r Anabl, sydd yn gyfrifol am gydlynu’r broses o dderbyn ac asesu ceisiadau gan y cyhoedd am fannau parcio penodol i’r anabl tu allan i’w eiddo. Cynhelir cyfarfod Panel yn cynnwys staff o’r Adran Amgylchedd er mwyn asesu pob cais. Yn bresennol, mae’r Adran Oedolion yn ariannu 11 o fannau parcio bob blwyddyn sydd yn costio tua £4000 ym mhob achos. Mae’r galw am y cyfleuster yma wedi codi’n aruthrol yn ystod y misoedd diwethaf ac wedi golygu bod rhestr aros yn bodoli oherwydd y nifer fechan o fannau parcio anabl sydd ar gael bob blwyddyn. Mae adolygiad Ffordd Gwynedd o’r broses wedi cychwyn, ac rydym yn gobeithio derbyn y canlyniad yn fuan.

Mae’r Swyddog Gofal Cwsmer Oedolion yn gyfrifol am sicrhau fod y ffurflenni cais yn gyfredol a chywir, ac yn gyfrifol am dderbyn ymholiadau dros y ffon, trwy lythyr ac e-bost. Mae’r Swyddog Gofal Cwsmer yn gyfrifol am yr holl broses o gofnodi derbyn ceisiadau a’u canlyniadau, cydlynu’r cyfarfodydd Panel, a chyfathrebu canlyniadau ceisiadau trwy lythyr ar ôl bob cyfarfod.

13.2 Mae'r Swyddog Gofal Cwsmer Plant a Chefnogi Teuluoedd hefyd yn ymdrin â gyda cheisiadau mynediad at wybodaeth yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 / Deddf Diogelu Data 2018. Cyflwynwyd y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018 ar 25 Mai 2018, ac o ganlyniad bu rhai newidiadau yn y drefn a ymdrinnir â cheisiadau mynediad at wybodaeth. Mae gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant Swyddog Gweinyddol a Gwybodaeth sydd yn gyfrifol am dderbyn ac ymateb i’r ceisiadau yma.


13.3 Caiff y ceisiadau mynediad at wybodaeth o dan y Ddeddf Diogelu Data 1998 / Deddf Diogelu Data 2018 eu gwneud gan unigolion, yr Heddlu, Cyfreithwyr, y Bwrdd Iechyd a hefyd Awdurdodau Lleol eraill. Yn unol â'r Ddeddf, mae amserlenni penodol i lynu atynt, ac mae’r amserlen ymateb wedi mynd yn llawer mwy heriol ers cyflwyniad y Ddeddf newydd.

13.4 Mae penderfynu pa wybodaeth sy'n briodol i gael ei ryddhau yn waith sy'n gofyn am fedrusrwydd a gall fod yn her emosiynol ar brydiau. Mae'r Swyddogion sydd yn ymdrin â'r ceisiadau am wybodaeth yn treulio oriau maith ar rai o'r ceisiadau mwy cymhleth y mae'r Adrannau yn eu derbyn. Mae hyn yn golygu bod swmp sylweddol o oriau yn cael eu defnyddio i sicrhau bod y ceisiadau am wybodaeth yn cael eu hateb ymhen yr amser penodedig.


13.5 Mae hefyd yn ddyletswydd ar Swyddog Gofal Cwsmer Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd i gydlynu ymatebion i geisiadau rhyddid gwybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (Freedom of Information Act 2000). Mae'r niferoedd o geisiadau o dan y Ddeddf Diogelu Data 1998 wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf. Rydym yn gweld cynnydd yn y ceisiadau gan yr Heddlu, Asiantaethau eraill a 'subject access requests' nid yw'r rheswm yn glir dros y cynnydd hwn.

Mae'r niferoedd o geisiadau gwybodaeth a dderbyniwyd gan y ddwy Adran i'w gweld yn **Tabl 5(a) a 5(b)** isod

| **TABL 5(a) - Ceisiadau am wybodaeth - Plant a Chefnogi Teuluoedd** | | | |
|---|---|---|---|
| | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 |
| Ceisiadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 | **75** | **88** | **68** |
| Ceisiadau Deddf Diogelu Data 1998 / Deddf Diogelu Data 2018 | **202** | **228** | **244** |
| | | | |
| Cyfanswm | **236** | **316** | **312** |



| TABL 5(b) – Ceisiadau am wybodaeth - Oedolion, Iechyd a Llesiant | | |
|---|---|---|
| | 2023/24 | 2024/25 |
| Ceisiadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 | **36** | **53** |
| Ceisiadau Deddf Diogelu Data 1998 / Deddf Diogelu Data 2018 | **4** | **7** |
| Cyfanswm | **40** | **60** |



## 14. Mynegi Diolch

14.1 Yn ogystal ag ymateb i bryderon, cwynion a sylwadau eraill gan ddefnyddwyr gwasanaeth, eu teuluoedd ac aelodau o'r cyhoedd, mae'n hynod bwysig hefyd i gydnabod a chofnodi'r diolchiadau a gawn gan ein defnyddwyr gwasanaeth, teuluoedd, aelodau o'r cyhoedd a gan staff o asiantaethau eraill.

Yn ychwanegol i'r diolchiadau a'r canmoliaethau a gofnodwyd gan y Swyddog Gofal Cwsmer ar sustem cofnodi RESPOND, rydym yn ymwybodol fod nifer fawr o ddiolchiadau, anrhegion, ac yn y blaen, wedi cael eu cyflwyno i staff cartrefi preswyl y Cyngor. Daw'r rhain yn bennaf gan deuluoedd defnyddwyr gwasanaeth roedd eisiau dangos eu gwerthfawrogiad i staff am ofalu mor ofalus am eu perthnasau.

Mae enghreifftiau o'r canmoliaethau a diolchiadau yma i'w gweld yn **Atodiad 3**.

| **NIFER Y DIOLCHIADAU YN YSTOD 2024-2025 – OEDOLION, IECHYD A LLESIANT** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaeth Oedolion (yn cynnwys Timau Ardal, Tîm Anabledd Dysgu, Tîm Iechyd Meddwl a Therapi Galwedigaethol) | Darparwr Mewnol (Gofal cartref a phreswyl) | Busnes a Chyllid | Teleofal | Gofal Cwsmer a Diogelu | **CYFANSWM** |
| **51** | **54** | | | **1** | **106** |

| **NIFER Y DIOLCHIADAU YN YSTOD 2024-2025 – PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD** |
|---|
| **CYFANSWM** |
| **95** |

## 15. Cynlluniau Gwaith ar gyfer 2025/26

15.1 Bydd y Swyddogion Gofal Cwsmer yn parhau i ymateb i bryderon, ymholiadau a chwynion trwy ddilyn Trefn Gwynion Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, gan sicrhau fod gwersi i'w dysgu o bob achos yn cael sylw'r Tîm Rheoli Adrannol yn rheolaidd ac yn amserol. Parhau i fonitro'r gweithrediadau sydd yn cymryd lle er mwyn datblygu'r gwasanaeth.

15.2 Bydd y Swyddog Gofal Cwsmer Oedolion yn parhau i gadeirio Grŵp Swyddogion Gofal Cwsmer Gogledd Cymru (NWCOG) am y flwyddyn i ddod. Mae bwriad i gynnal cyfarfodydd bob tri mis.

15.3 Bydd gwaith pellach hefyd yn cael ei gwblhau i geisio annog gweithwyr ar draws y ddwy Adran i gysylltu gyda'r Swyddogion Gofal Cwsmer i rannu unrhyw ddiolchiadau neu sylwadau canmoliaethus maent yn eu derbyn. Mae ymdeimlad ar hyn o bryd fod aelodau o staff yn teimlo nad yw'n briodol i rannu rhai sylwadau, ond mae'r Swyddogion Gofal Cwsmer yn awyddus i newid hyn.

15.4 Hybu'r staff i gwblhau'r sesiwn hyfforddiant e-ddysgu er mwyn sicrhau eu bod yn llawn ymwybodol o'r broses ac yn gyfarwydd gyda'r camau sydd angen eu cymryd yn ystod y broses.

15.3 Yn unol â Chynllun Gwaith 2023/24, dechreuwyd y broses o godi ymwybyddiaeth bellach o'r broses cwynion a chanmoliaethau yn ystod y flwyddyn aeth heibio. Fel cam cyntaf, dyluniwyd poster newydd ar gyfer cartrefi preswyl y Cyngor er mwyn hyrwyddo sut y gall defnyddwyr gwasanaeth, neu eu teuluoedd, un ai codi cwyn ffurfiol neu fynegi canmoliaeth am y gwasanaeth. Mae bwriad yn ystod y flwyddyn yma i edrych ar y posibilrwydd o ehangu darpariaeth y posteri i'w arddangos mewn llyfrgelloedd, meddygon teulu, ac adeiladau cyhoeddus eraill.

## 16. Ystadegau defnydd y Gymraeg a'r Saesneg wrth ymateb i gwynion ac ymholiadau

16.1 Mae'r Swyddogion Gofal Cwsmer yn ymateb i ymholiadau a chwynion yn yr iaith a ddymunir ei ddefnyddio gan yr ymholwr neu'r achwynydd. Gweler y ffigyrau perthnasol ar y defnydd o'r ddwy iaith yn y tablau isod.

| **Iaith ddethol yr Achwynydd i wneud ymholiad/cwyn yn ystod 2024/2025 – Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** | | | |
|---|---|---|---|
| | **Cymraeg** | **Saesneg** | **Cyfanswm** |
| *Ymholiadau a Chwynion Anffurfiol* | 20 | 22 | **42** |
| *Cam 1* | 7 | 9 | **16** |
| *Cam 2* | 0 | 0 | **0** |
| *Corfforaethol* | 3 | 4 | **7** |
| *Ombwdsmon* | 0 | 0 | **0** |

| **Iaith ddethol yr Achwynydd i wneud ymholiad/cwyn yn ystod 2024/2025 – Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd** | | | |
|---|---|---|---|
| | **Cymraeg** | **Saesneg** | **Cyfanswm** |
| *Cam 1* | 4 | 18 | **22** |
| *Cam 2* | 1 | 2 | **3** |
| *Corfforaethol* | 0 | 0 | **0** |
| *Ombwdsmon* | 0 | 0 | **0** |

**ATODIAD 1(a) – ENGHREIFFTIAU O GWYNION A SYLWADAU ADRAN PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD YN YSTOD 2024/25**

| Cyfeirnod | Disgrifiad byr | Cam | Tîm | Ymateb | Gwersi i'w dysgu | Sail i'r gŵyn? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| GC15745-24 | Cwyn wedi ei dderbyn ynglŷn ag aelod staff o fewn y Tîm Tu Allan i Oriau. Bu iddynt deimlo nad oedd yr aelod staff yn eu cymryd o ddifri ac wedi bod yn anghwrtais ar y ffon. | Cam 1 | Tîm Tu Allan i Oriau | Bu i'r Rheolwr Tîm gysylltu gyda'r unigolyn i drafod y gwyn. Esboniwyd iddynt fod y pryderon a godwyd wedi ei dderbyn yn llawn ac wedi ei basio ymlaen i'r Tîm Cyfeiriadau Plant yn unol â'r proses. Nid oedd y rhain yn bryderon a oedd angen sylw brys gan y Tîm Tu Allan i Oriau ar y pryd. Bu i'r Rheolwr Tîm ymddiheuro ar ran y Gwasanaeth eu bod yn teimlo nad oedd yr aelod staff yn eu cymryd o ddifri ac y bydd y mater yn cael ei drafod yn llawn. Bu i'r Rheolwr sicrhau fod y pryderon wedi ei nodi yn llawn ac wedi ei rannu gyda'r Tîm perthnasol.<br><br>Bu i'r Rheolwr Tîm gadarnhau'r hyn a drafodwyd gyda'r achwynydd drwy lythyr. | Bu i'r Rheolwr drafod y mater gyda'r Swyddog er mwyn sicrhau cyfathrebu clir i'r dyfodol. | Roedd sail rannol gan i'r achwynydd fod o dan deimlad am y ffordd bu i'r swyddog ddelio a hwy. Serch hynny bu i'r Swyddog sicrhau fod y broses gywir wedi ei ddilyn yn unol â chanllawiau amddiffyn plant. |
| GC15766-24 | Bu i ni dderbyn cwyn gan riant a oedd yn ymwneud a Thîm Plant Arfon a'r Swyddogion Adolygu Annibynnol. Bu i'r achwynydd nodi ei bod wedi teimlo yn anghyfforddus mewn cyfarfod adolygiad ac yn teimlo nad oedd y cyfarfod yn broffesiynol. Roedd yr achwynydd hefyd yn codi materion yn ymwneud a Chynllun Gofal ei phlentyn a materion cyswllt yn benodol. | Cam 1 | Tîm Plant Arfon a'r Swyddog Adolygu Annibynnol | Fel ymateb bu i ni dderbyn sylwadau gan y ddau Wasanaeth, sef Tîm Plant a'r Swyddogion Adolygu Annibynnol er mwyn llunio ymateb llawn i'r achwynydd.<br><br>Bu i'r Gwasanaeth ymddiheuro os nad yn gyfforddus yn ystod y cyfarfod ac nid dyma'r bwriad o gwbl. Roedd cynnig wedi ei wneud am adfocad a bu i ni ategu fod y cynnig hwn yn dal ar gael | Dim gwers i'w dysgu | Nid oedd sail i'r gwyn. Roedd y Gwasanaeth wedi cymryd camau i geisio cefnogi'r unigolyn drwy gynnig adfocad. Bu iddynt wrthod. Roedd penderfyniadau yr achos hwn yn rhai aml-asiantaethol. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | iddynt ar unrhyw bwynt i'w cefnogi.<br><br>Bu i'r Gwasanaeth ddarparu esboniad llawn i bob pwynt o'r gwyn gan nodi fod cyfarfod aml-asiantaethol wedi ei drefnu er mwyn sicrhau eu bod yn deall yr adborth a oedd yn ymwneud a'r Cynllun Gofal. | | |
| GC16005-24 | Bu i riant gysylltu eisiau cyflwyno cwyn, roedd yn nodi nad oedd yn ymwybodol pwy oedd yn gweithio gyda'r achos ac nad oedd gweithiwr cymdeithasol mewn lle. Roedd hefyd yn ansicr beth oedd sefyllfa bresennol yr achos ac yn pryderu am ofal y plant gyda'i pherthynas. | Cam 1 | Tîm Trothwy Gofal | Bu i ni ymateb wrth nodi fod Gweithiwr Cymdeithasol ac Myfyriwr Gwaith Cymdeithasol wedi ei adnabod i'r achos, ei fod wedi cwrdd a siarad gyda'r ddwy swyddog ar sawl achlysur ac felly ni ydym yn derbyn ei safbwynt nad oedd yn ymwybodol o pwy oedd yn gweithio gyda'r achos.<br>Esboniwyd yn llawn beth oedd sefyllfa bresennol y plant, roedd yr achwynydd yn llawn ymwybodol gan iddo fod yn rhan lawn o'r broses Llys gyda chynrychiolaeth gyfreithiol llawn yn ystod y broses hon.<br>O ran gofal y plant, maent yn cael eu gweld yn rheolaidd yn unol â'r gofynion statudol, does dim tystiolaeth o gamdriniaeth na phryder am eu gofal. | Dim gwers i'w dysgu. | O edrych drwy'r ffeil yn ystod ymchwiliad i'r gwyn roedd yn glir fod y Gwasanaeth wedi bod mewn cyswllt ar sawl achlysur gyda'r rhiant. Roedd y rhiant yn llawn ymwybodol o'r sefyllfa ac wedi ei gynrychioli yn llawn drwy'r broses. |
| GC16766-24 | Bu i riant gysylltu eisiau cyflwyno cwyn ynglŷn a diffyg cyfathrebu, anghytuno gyda penderfyniad i gynnal ymchwiliad amddiffyn plant ac yn anghytuno gyda cynnwys adroddiad y Gweithiwr Cymdeithasol i'r Gynhadledd Achos. | Cam 1 | Tîm Plant Arfon | Bu i ni ymateb yn llawn i'r achwynydd gan esbonio fod cyswllt rheolaidd wedi cymryd lle gyda hyn wedi ei gofnodi yn llawn ar y system electroneg. O ran ymateb i'r penderfyniad am ymchwiliad amddiffyn plant, bu i ni atgoffa'r achwynydd o'r rhesymau dros wneud hyn a'r pwysigrwydd o adnabod beth | Dim gwers i'w dysgu. | Roedd penderfyniad clir wedi ei wneud ynglŷn â'r angen i gymryd camau amddiffyn plant. Felly nid oedd sail i'r gwyn. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | oedd wedi digwydd. Bu i'r llythyr nodi ein bod yn deall fod ymyrraeth fel hyn yn amser anodd iawn iddynt fel teulu ac yn peri pryder ond roedd yn ofynnol yn yr achos hwn i sicrhau fod camau cywir yn eu cymryd yn unol â phrosesu amddiffyn plant. | | |
| GC17157-25 | Cwyn wedi ei dderbyn am ddarpariaeth Therapydd Galwedigaethol o fewn y Gwasanaeth Derwen. Roedd y gwyn yn ymwneud ac amserlenni ar gyfer gwneud addasiadau o fewn y tŷ. | Cam 1 | Gwasanaeth Derwen | Bu i ni baratoi ymateb llawn i'r achwynydd gan nodi amserlen o'r hyn sydd wedi cymryd lle hyd yma a'r cynllun wrth symud ymlaen. Esboniwyd fod y mater nawr yn nwylo'r Bwrdd Dwr a'r Adran Gynllunio. Bu i'r Gwasanaeth addo cadw mewn cyswllt rheolaidd a diweddaru'r teulu gydag unrhyw ddatblygiad ar yr addasiadau. Bu i'r Gwasanaeth ymddiheuro i'r achwynydd am orfod cyflwyno cwyn a sicrhau fod pethau yn symud yn ei flaen. | Sicrhau cyfathrebu clir yn ystod proses addasiadau. | Roedd sail rannol i'r gwyn. Er bod camau clir wedi ei gymryd wrth symud y mater o addasiadau yn ei flaen, efallai nad oedd hyn yn hollol glir yn yr achos hwn i'r achwynydd. |
| **ENGHREIFFTIAU O GWYNION CAM 2 YN YSTOD 2024/25** | | | | | | |
| GC14171-23 | Bu i ni dderbyn cwyn gan riant, roedd y pwyntiau penodol isod gan yr Ymchwilwyr Annibynnol yn ystod yr ymchwiliad Cam 2.<br>• Dwy enghraifft benodol ble roedd y rhiant yn teimlo fod ymddygiad ymarferwyr penodol yn amhroffesiynol yn ystod ymweliad cartref ac yn ystod Cynhadledd Achos.<br>• Nid oedd y rhiant yn cytuno gyda'r penderfyniad i'r achos fynd | Cam 2 | Tîm Plant Dwyfor a Meirionnydd | Bu i'r achwynydd dderbyn ymchwiliad annibynnol i mewn i'r gwyn gydag Ymchwilydd Annibynnol a Pherson Annibynnol wedi eu hapwyntio. Bu iddynt gwrdd gyda'r achwynydd i roi cyfle iddynt adrodd eu cwyn wyneb yn wyneb. Fel rhan o'r ymchwiliad bu i'r Ymchwilwyr dderbyn mynediad llawn i holl wybodaeth oddi ar y ffeil gwyn a ffeil gofal cymdeithasol i'w cynorthwyo gyda'r ymchwiliad. Bu iddynt gyfweld aelodau staff perthnasol fel rhan o'r ymchwiliad hefyd cyn ysgrifennu adroddiad a dod i ganlyniad. | Er nad oedd argymhellion wedi ei nodi, maen pwysig nodi yn yr achos hwn fod newid wedi digwydd o ran prosesau rhannu adroddiadau cyn Cynhadledd Achos. Yn hanesyddol nid oedd yn arferol i adael copi o'r | Mae canlyniad yr adroddiad yn nodi nad oedd sail i'r gwyn. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | i Gynhadledd achos a’r diffyg paratoad ar ei gyfer.<br>• Diffyg amser i ystyried adroddiad y Gweithiwr Cymdeithasol cyn y Gynhadledd Achos.<br>• Diffyg cyfle i fynegi barn yn y Gynhadledd Achos ac anghytundeb gyda’r cofrestriad a’r categori cofrestru.<br>• Y rhiant yn teimlo bod diffyg empathi atynt fel rhieni.<br>Nid oedd y rhiant yn credu fod adroddiad y Gweithiwr Cymdeithasol yn gyflawn am nad oedd wedi gwylio recordiad/fideo. | | | Yn yr achos hwn, allan o’r 6 pwynt a nodwyd ni wnaeth yr Ymchwilwyr Annibynnol gadarnhau unrhyw bwynt o blaid yr achwynydd.<br><br>Bu i’r Pennaeth ysgrifennu at yr achwynydd yn cadarnhau fod yr Adran yn derbyn yr adroddiad ac yn eu hannog i geisio cymorth i’w cynorthwyo i brosesu profiadau anodd fel teulu. Nodyn bod modd cysylltu ar unrhyw bwynt er mwyn eu cynorthwyo gyda hyn. | adroddiad gyda’r teulu cyn y Gynhadledd Achos. Bu i’r Gweithiwr Cymdeithasol ofyn i weld newid ac yn dilyn ei chyswllt gyda’r Rheolwyr perthnasol bu i’r weithdrefn newid. | |
| GC15325-24 | Bu i ni dderbyn cwyn gan riant, roedd 43 o bwyntiau wedi ei godi gan y rhiant yn ystod yr ymchwiliad Cam 2. Roedd y rhain yn amrywio, er enghraifft nad oedd wedi derbyn cyswllt fod adolygiad yn cymryd lle, teimlo bod pryderon amddiffyn plant, adroddiadau iechyd heb eu gorffen, credu fod tor mewn cyfrinachedd wedi digwydd, anhapus gyda threfniadau cyswllt. | Cam 2 | Tîm Plant Arfon | Bu i’r Adran adnabod Ymchwilydd Annibynnol a Pherson Annibynnol i gynnal ymchwiliad i mewn i gwynion yr achwynydd.<br><br>Bu i’r Ymchwilwyr gyfarfod gyda’r achwynydd i roi cyfle iddynt drafod y materion wyneb yn wyneb. Bu i’r Ymchwilwyr dderbyn mynediad llawn i holl wybodaeth a oedd yn ymwneud a’r achos a chyfweld y staff perthnasol.<br><br>Allan o’r 43 pwynt bu i’r Ymchwilwyr dderbyn un pwynt yn rhannol. Ni wnaethant dderbyn y 42 o’r pwyntiau eraill. O ran y pwynt a dderbyniwyd yn rhannol nid oedd argymhelliad, gyda’r | Nid oedd unrhyw argymhelliad yn yr achos hwn.<br><br>Bu i’r ymchwiliad gadarnhau fod yr Adran yn cynnal ymchwiliadau amddiffyn plant priodol gyda dim tystiolaeth fod y plant mewn risg. Nodwyd fod tystiolaeth yn cefnogi bod staff yn gweithio gyda budd-ddeiliaid ac | Nid oedd sail i’r gwyn. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Ymchwilydd yn nodi y byddai ei adroddiad yn ateb cwestiwn yr achwynydd ar y mater hwn. | yn rhoi cyfleoedd i'r achwynydd rhoi ei barn. Nid oedd unrhyw dystiolaeth fod yr Adran ddim yn hollol dryloyw gyda'r achwynydd. | |
| GC17525-25 | Mae cwyn pellach wedi ei dderbyn gan yr un achwynydd a'r achos uchod (GC15325-24). Bu i ni dderbyn cais i'w uchafu i Gam 2 diwedd Mawrth 2025, mae'r brosesu yn parhau i fynd rhagddo. Mi fydd gwybodaeth lawn yn yr adroddiad blynyddol nesaf 2025-26. | Cam 2 | Tîm Plant Arfon. | | | |

| ATODIAD 1(b) – ENGHREIFFTIAU O GWYNION A SYLWADAU ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT YN YSTOD 2024/25 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod** | **Disgrifiad byr** | **Cam** | **Tîm** | **Ymateb** | **Gwersi i'w dysgu** | **Sail i'r gŵyn?** |
| GC/15885-24 | Perthynas person oedrannus yn pryderu am gyflwr addurniadol a glanweithdra ystafell eu perthynas mewn cartref preswyl o eiddo'r Cyngor. Yn gofyn i'r Gwasanaeth weithredu i'w wella. | Cam 1 | Gofal Preswyl a Dydd (Darparu Mewnol) | Gwasanaeth yn cytuno fod sail i'r pryderon. Ymddiheuriad llawn wedi ei ddarparu gydag addewid i wella cyflwr yr ystafell cyn gynted â phosib | Sicrhau bod diffygion mewn cyflwr ystafelloedd preswylwyr yn derbyn sylw buan ac yn cael eu hadnewyddu'n barhaol | Cadarnhau bod sail i'r cwyn<br><br>Ymddiheuriad llawn wedi ei ddarparu gydag addewid i wella cyflwr yr ystafell cyn gynted a phosib |
| GC/16236-24 | Defnyddiwr Gwasanaeth yn adrodd fod aelod o staff wedi siarad efo hi mewn ffordd amharchus ac eisiau ymddiheuriad | Cam 1 | Gofal Cartref (Darparu Mewnol) | Ymchwiliad wedi ei gynnal ac ymddiheuriad llawn wedi ei ddarparu. | Dim gwers newydd wedi ei adnabod | Cadarnhau bod sail i'r cwyn |
| GC/16355-24 | Perthynas defnyddiwr gwasanaeth yn codi pryderon am ansawdd y gofal i'w aelod teulu mewn cartref preswyl y Cyngor. | Cam 1 | Gofal Preswyl a Dydd (Darparu Mewnol) | Ymchwiliad trylwyr ac ymateb llawn wedi ei ddarparu | Dim gwers penodol wedi ei adnabod. | Cadarnhau bod sail i'r cwyn |
| GC/16697-24 | Gofalwr defnyddiwr gwasanaeth yn mynegi pryderon am y cyfnod o hir o aros cyn i becyn o ofal cartref gallu cychwyn. Eisiau cychwyn y pecyn gofal ar fyrder | Cam 1 | Gwasanaeth Oedolion (Tim Adnoddau Cymunedol) | Ymddiheuriad llawn wedi ei ddarparu gydag addewid i geisio darparu'r gwasanaeth ar frys | Dim gwers newydd wedi ei adnabod | Cadarnhau bod sail i'r cwyn |
| GC/16905-24 | Perthynas i ddefnyddiwr gwasanaeth yn datgan ei barn fod y teulu ddim wedi derbyn digon o gefnogaeth gan sawl asiantaeth | Cam 1 | Gwasanaeth Oedolion (Tim Adnoddau Cymunedol) | Ymchwiliad llawn wedi ei gynnal ac ymateb llawn wedi ei roi i'r agweddau o'r cwyn sydd yn cwmpasu rôl Cyngor Gwynedd. | Dim gwers newydd wedi ei adnabod | Cadarnhau bod sail i'r cwyn |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | wahanol i alluogi ei pherthynas i dderbyn gofal yn ei chartref yn hytrach na symud i ofal nyrsio | | | Cwynion ar wahân wedi eu cyflwyno i'r asiantaethau eraill perthnasol | | |
| GC/17216-24 | Perthynas yn codi pryderon am yr oedi a fu cyn gallu dyrannu Gweithiwr Cymdeithasol i'w aelod teuluol. Hefyd yn anfodlon gyda'r lefel o gyfathrebu ar ôl gwneud cais am ofal ysbaid ac am yr amserlen i gynnal asesiad ariannol o gyfraniad y defnyddiwr gwasanaeth at costau'r gofal.. | Cam 1 | Gwasanaeth Oedolion (Tim Adnoddau Cymunedol) | Ymchwiliad llawn wedi ei gynnal. Ymateb ac ymddiheuriad cynhwysfawr wedi ei ddarparu o ganlyniad. | Dim gwers newydd wedi ei adnabod | Cadarnhau bod sail i'r cwyn |
| GC/17318-24 | Defnyddiwr gwasanaeth yn codi pryderon am yr amser hir y mae wedi bod yn disgwyl am ofal cartref er mwyn iddo allu symud yn ôl adref o gartref nyrsio lleol. | Cam 1 | Gwasanaeth Oedolion (Tim Adnoddau Cymunedol)<br><br>Gofal Cartref (Darparu Mewnol) | Ymateb ac ymddiheuriad llawn wedi ei ddarparu am yr oedi. Wedi ymrwymo i ddarparu'r gofal cartref cyn gynted â phosib | Dim gwers newydd wedi ei adnabod | Cadarnhau bod sail i'r cwyn |
| GC/17435-24 | Perthynas defnyddiwr gwasanaeth yn gofyn am ddileu anfonebau am gostau gofal cartref gan honni nad oedd y teulu wedi cael ei hysbysu'n glir fod cyfnod o ofal Galluogi (am ddim) wedi dod i ben ar ddyddiad penodol. Uwch Reolwr i ymchwilio a gwneud penderfyniad. | Cam 1 | Gwasanaeth Oedolion (Tim Adnoddau Cymunedol)<br><br>Gwasanaeth Busnes (Uned Incwm a Lles) | Ymddiheuriad wedi ei ddarparu yn dilyn ymchwiliad llawn i'r honiadau a gyflwynwyd. Gwersi i ddysgu wedi cael eu hychwanegu i'r Log Gwersi | Nodi pwysigrwydd cofnodi cynnwys pob trafodaeth am ddiwedd cyfnodau gofal Galluogi er mwyn gallu tystiolaethu fod dealltwriaeth fod angen cyfrannu'n ariannol at y gofal o'r dyddiad hwnnw. | Cadarnhau fod sail i'r cwyn |

| ENGHREIFFTIAU O GWYNION CAM 2 YN YSTOD 2024/25 – ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| DIM CWYNION CAM 2 WEDI EU DERBYN | | | | | | |

| ATODIAD 2 - Enghreifftiau o Gwynion Corfforaethol - 2024/2025 – ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyf.** | **Disgrifiad byr** | **Categori** | **Cam** | **Uned / Tîm** | **Deilliannau** |
| GC/16397-24 | Perthynas defnyddiwr gwasanaeth yn anfodlon ei fod wedi derbyn dogfen ynglŷn ag asesiad ariannol ar gyfer eu cyfraniad at gostau gofal preswyl yn uniaith Saesneg. Ymddiheuriad llawn wedi ei ddarparu | Corfforaethol | Cwyn ffurfiol | Uned Incwm a Lles (Busnes) | Derbyn bod sail i'r cwyn. Ymateb llawn wedi ei ddarparu a'r mater wedi cael ei ddatrys. Cwyn yn ymwneud a pholisi iaith gorfforaethol y Cyngor |
| GC/16196-24 | Aelod o'r cyhoedd yn mynegi pryderon am ddiffyg gweithredu er lles ei gymydog gan staff Tîm Adnoddau Cymunedol gan ei fod yn cadw sŵn annioddefol ac yn amharu ac ef ac eraill. Ymateb llawn wedi ei ddarparu. | Corfforaethol | Cwyn ffurfiol | Gwasanaeth Oedolion (Tim Adnoddau Cymunedol) | Ymchwiliad llawn o'r honiadau wedi ei gynnal.  Ymateb wedi ei ddarparu ond yn ni chaniateir datgelu'r camau roedd mewn lle i wella'r sefyllfa oherwydd rheolau diogelu data |

| ATODIAD 3 - DIOLCHIADAU A CHANMOLIAETH - ENGHREIFFTIAU O 2024/2025 | | |
|---|---|---|
| “Chrissy: Ble ydw i'n dechrau… Ar fy rhan i, diolch o waelod fy nghalon am bob dim: A gaf i fynegi fy ngwerthfawrogiad diffuant o'ch cefnogaeth ragorol, ymroddiad, gofal ac ymrwymiad yr ydych wedi'i roi i XXXX dros y blynyddoedd diwethaf. Mae wedi bod yn daith hir ers i chi ddod yn weithiwr cymdeithasol ymroddedig iddo, mae'n rhaid ei bod wedi bod yn dorcalonnus iawn i chi a XXXX ar adegau ac hefyd rai sefyllfaoedd hynod o anodd. Rydych chi hefyd wedi rhoi ymdeimlad gwych o ymddiriedaeth a sicrwydd iddo trwy gydol dechrau ei daith gyda chi. O'm safbwynt i, roedd yr holl rinweddau hyn yn hollbwysig er mwyn i XXXX ddatblygu perthynas ymddiriedus a datblygu bond arbennig yna gyda chi. Fel y gwyddoch yn ôl pob tebyg erbyn hyn, gallaf hefyd eich sicrhau bod XXXX hefyd yn hynod ddiolchgar am eich cefnogaeth anhygoel barhaus yr ydych wedi'i rhoi iddo. (Mae eisiau diolch i ti ei hun yr wythnos nesaf). Gallaf ddychmygu eich bod hefyd wedi goresgyn cymaint o rwystrau a rhwystrau yn eich taith i roi yn y diwedd y dymuniadau yr oeddech wedi rhoi ar eu cyfer i XXXX. Mae'n rhaid ei bod yn broses emosiynol hir iawn, gyda chymaint o hwyliau a anfanteision ar hyd y ffordd o’r gofal yma. Gallaf hefyd ddychmygu ei bod wedi bod yn daith emosiynol iawn i chi gadw'n gryf a chredu am y bywyd gorau yn y dyfodol i XXXX. Yn bennaf oll, Chrissy, diolch yn fawr iawn am eich holl ddealltwriaeth, empathi ac yn bennaf yn credu gyda XXXX yn eich gofal, y byddai yn y pen draw yn goresgyn y torcalonnus a'r cyfnod hynod anodd y mae wedi bod yn dyst neu brofiad yn y gorffennol. Rwyf hefyd wir yn credu’n gryf y gallwn barhau gyda’n gilydd ar ein taith yn gadarnhaol gyda’ch cefnogaeth ymroddedig a pharhaus ymhellach gyda XXXX. Gallaf eich sicrhau i gyd yn awr, o’r diwrnod hwn ymlaen y byddaf yn gwneud fy ngorau glas i roi fy holl gefnogaeth, cariad a gofal ymroddedig i XXXX. Bellach gallwn ddechrau pennod newydd gyda’n gilydd, dechrau newydd a thaith gadarnhaol ar gyfer magwraeth feithrin gariadus a thu hwnt. Cofion cynnes XXXX” | Diolch | Tim Plant Arfon 1 |
| “Family Support Worker (FSW) has given us our lives back - our family was at crisis point - my husband not wanting outside help due to his mental health, but the support has been groundbreaking and so has the advice and guidance we have been given - following different strategies week by week we were able to work together to improve our situation - some weeks were | Diolch | Tîm o Amgylch y Teulu |

| | | |
|---|---|---|
| very difficult but we were able to keep in touch with FSW if we were really struggling ….which did happen - FSW listened to both of us including the children too - so she gave us all a voice with no judgements and we felt that it was a safe space at home to talk about our differences and struggles as a family - we were able to open up in a way we had never done before which was much needed and this service has really saved us as a family and for that we will be forever grateful. A brilliant service which we will be forever grateful for - I don't know what would have happened if FSW did not come into our life- we as a family will be recommending this service to any family in crisis or are really struggling - there is a lot of stigma attached to these sort of outside agencies and my husband was one who didn't want any help - but now he is an advocate for this service as is the whole family - it's a wonderful service which is accessible to everyone and as we have said before are forever grateful. You will never know to the extent that you made a difference and we honestly say this ..... we can never repay you for everything you have done for us, as a family ... thanks for all the laughter, tears and everything in between you are truly one in a million. Take care you fabulous woman!!!!” | | |
| “Dwi wedi mwynhau Nurturing Links parenting a dwi yn teimlo bod fi wedi elwa wrth ddysgu llawer o technegau newydd i medru delio efo sefyllfaoedd ac wedi gweld gwahaniaeth mawr adra, mae`r cefnogaeth dwi wedi derbyn gan Maria wedi bod yn ardderchog, doedd dimbud oni yn ofyn yn ormod iddi. Os oeddo yn phonecall neu visit heb ei ddrefnu. Diolch.” | Diolch | Tim Trobwynt |
| “Derwen do a fantastic job, and the trips give us a much appreciated break whilst helping towards developing some really useful life skills” | Diolch | Gwasanaeth Derwen |
| “To all the staff at Hafan y Sêr, thank you for all you have done when looking after XXXX. He has loved his breaks with you and we have felt he got a lot from them including independence and lots of fun! He always talks about 'Sêr' when he gets home. I'm sure I can speak for XXXX in saying he will really miss his visits there. Best of wishes for the future, and a huge thank from both of us." | Diolch | Uned Egwyl Fer, Hafan y Ser |
| “Thank you so much for sending us gorgeous photographs and for arranging telephone contact. It’s really hard to not see them, but we know that they are being well looked after and are happy and safe within the foster homes. Stay safe.” | Diolch | Tim Plant Dwyfor |

| | | |
|---|---|---|
| "Dymunwn ddiolch yn ddiffuant i chi am yr hyn a gafwyd Mam yn ystod y cyfnod ers dechrau'r flwyddyn. Bu'n gyfnod anodd gyda Mam wedi colli ei hyder yn dilyn torn ei braich and ers yr alwad ffon cyntaf atoch rydym wedi derbyn cefnogaeth ac ymateb sydyn a chadarn. Mae'r trefniadau a roddwyd mewn lie gennych wedi bod yn hynod o gyflym a defnyddiol. Rydym yn gwerthfawrogi yr adnoddau i'r cartref, gofal Sea Shells a'r cyfnod ysbaid yn y Bae, Tywyn. Hoffem ddiolch yn arbennig i chi Kevin ac i Branwen Non am y dull meddylgar, sensitif a chalonogol y buoch yn trafod camau a threfniadau gyda Mam. Mae henoed yr ardal yn ffodus o gael tim o weithwyr ymroddgar fel chi yn gweithio er eu lles." | Diolch | Gwasanaeth Oedolion (Tim Adnoddau Cymunedol De Meirionydd) |
| "I just wanted to let you know I've received a letter form the council saying I've been successful in the first stage of the disability parking application so I'm now being hopeful it will go through the next stage & that also no one here will oppose it. No matter what the outcome I'd like to thank you sincerely for your help & understanding & your honesty which as well as appreciating in this situation. It's helped me knowing there are still good kind honest folk out there after having these awful neighbours move in who have been anything but & I'm still struggling as to why folk can behave so badly towards others especially folk that are vulnerable who have left me with trust issues. Your help has been greatly received & appreciated & I can't tell you how much it's meant at this time" | Diolch | Gofal Cwsmer a Diogelu (Oedolion) |
| "My mother died of complications arising from Motor Neuron Disease, peacefully, at home surrounded by her close friends and family. The fact that she did so is in part to her own tenacity and determination but also due in large part to the help and support she received from your Health and Well-being team. During their working day, I guess your team must strike a balance. On one side demonstrate their professionalism without becoming too personally involved and at the time deal with an apparent contradiction, display their natural humanity.<br><br>I assume the ability to juggle these two qualities is what makes members of your team suitable for the job and how well they achieve this, what makes them very good at it. Mr Ed Owen, my mother's Occupational therapist and Mrs Alwena Rayner, her Social Worker are two such members of your team.<br><br>I make no apology for naming individuals although I appreciate and have already mentioned it is a team effort, however in this case I believe it is justified. My mother absolutely adored these two members of your team. From | Diolch | Gwasanaeth Oedolion (Tim Adnoddau Cymunedol Llyn) |

| | | |
|---|---|---|
| the beginning of her diagnosis, they treated my mother as an individual. They demonstrated professionalism as well as compassion and treated my mother with respect and dignity right to the end of her life. They are a credit to your department and Gwynedd County Council as a whole". | | |
| "Dear Staff of Plas Maesincla – on behalf of our family we wish to extend our heartfelt thanks for the exceptional care, compassion and professionalism you showed to our mum during her three years as a resident. Your unwavering dedication to her Wellbeing and the genuine warmth with which you cared for her made an immeasurable difference in her life and brought us comfort as a family. Knowing she was in such capable and loving hands gave us peace of mind, even during the most difficult times and up to her passing. While words alone cannot express our gratitude, please know you will always have a special place in our hearts for everything you have done. With our deepest thanks, love and best wishes for the future". | Diolch | Darparu Mewnol (Gofal Preswyl a Dydd) |
| "I'm afraid I must give you the sad news that mam passed away yesterday morning, following a cardiac arrest. Despite everything, it was rather unexpected, but she'd been in a lot of pain the last couple of days so in that sense it's a relief that she didn't have to suffer for an extended period.<br><br>Please could you pass on my immense gratitude to the whole team for all the care they gave to mam, always cheerful, respectful, and unflappable regardless of what they had to deal with. She wouldn't have been able to continue to live in her own home without such excellent support, and I certainly couldn't have coped either." | Diolch | Darparu Mewnol (Gofal Cartref) |
| "Fel teulu, hoffem ddiolch o waelod calon i'r tîm gwych yng Nghartref Gofal Plas y Don am y gofal eithriadol a ddarparwyd ganddynt i'n mam, nain, a hen nain annwyl. O'r cychwyn cyntaf, roedd yn amlwg nad preswylydd arall yn unig oedd nain - roedd yn rhan o deulu estynedig. Gwnaeth caredigrwydd a hoffter y staff wahaniaeth mawr, gan roi tawelwch meddwl i ni o wybod ei bod yn ddiogel. Roedd y cartref bob amser yn groesawus, a'r bwyd yn ardderchog. Trefnwyd gweithgareddau, o gael gwneud ei gwallt a phaentio ewinedd, i'r dathliadau niferus trwy'r flwyddyn.<br>Roedd digwyddiadau fel y Nadolig a gemau rygbi cenedlaethol bob amser yn cael eu nodi â brwdfrydedd, gan greu naws gymunedol a cynnes. Roedd yr awyrgylch hamddenol yn golygu nad oedd trefn gaeth yno, gan roi rhyddid iddi ddewis pryd i fynd i'r gwely - yn union fel bod adref. Roeddem yn caru'r dyddiau y gallem fynd â hi allan | Diolch | Darparu Mewnol (Gofal Preswyl a Dydd) |

| | | |
|---|---|---|
| yn ei chadair olwyn am dro, neu i Gaffi Largo, gan wneud atgofion gwerthfawr gyda'n gilydd.<br><br>Diolch o galon i'r staff presennol, a'r gofalwyr cartref blaenorol a'i cefnogodd cyn iddi symud i mewn. Mae eich ymroddiad a'ch tosturi wedi golygu'r byd i ni. Ni allem fod wedi dymuno gwell gofal.<br>Bu farw Mrs R yn dawel ym Mhlas y Don, ble yn ei dyddiau olaf, dangosodd y staff dosturi aruthrol, gan gynnig nid yn unig gofal iddi ond cefnogaeth i'n teulu hefyd.<br><br>Rydym yn hynod ddiolchgar am y caredigrwydd a ddangoswyd ac am y rhyddid i fynd a dod ar unrhyw awr, gan ganiatáu inni fod wrth ei hochr yn ystod y cyfnodau gwerthfawr hynny." | | |
| "Ar ran y teulu oll dymunwn ddiolch yn fawr i chi Deulu Plas Pengwaith am eich gofal arbennig o Mam dros y pedair blynedd diwethaf. Cafodd Mam y gofal Cynnes, caredig, Cymreig gorau posib. Roedd weithiau'n meddwl fod hi mewn 'hotel' a dwi'n synnu dim! Hefyd roedd wastad yn canmol y 'genod' a'r bwyd a doedd dim llawer ar ôl ar ei phlât fel arfer dwi'n siŵr. Dwi'n cofio rhywun yn ffonio rhyw fid Tachwedd i ofyn am fwy o sgertiau iddi. Roedd rhaid prynu rhai newydd a gofynnais pa seis oedd ei angen? "Un deg dau" meddai rhywun cyn newid ei meddwl yn syth a dweud "Na, sa'n well ei gwneud nhw'n 14 o gofio bod 'Dolig yn nesáu!" Brilliant - roedd Mam yn hoffi hwyl ac roedd yr hiwmor a'r herian a fu'n rhan ohono yn ei siwtio i'r dim. Felly wrth gau'r dudalen ar bennod arall yn hanes Plas Pengwaith, gallwch i gyd ddal eich pennau'n uchel a bod yn falch o'r Gwasanaeth arbennig rydych yn ei ddarparu i'r henoed fel Mam". | Diolch | Darparu Mewnol (Gofal Preswyl a Dydd) |

## Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant

# GWRANDO, YMATEB, GWELLA!



Mae eich sylwadau'n bwysig i ni, gan ei fod yn ein helpu i wella ein Gwasanaethau.

Mae croeso i chi anfon:

- canmoliaeth
- sylwadau positif
- sylwadau negyddol
- cwyn ffurfiol

Os oes gennych gwyn, fe wnawn:

- gasglu gwybodaeth yn llawn
- gwneud trefniadau i drafod y gwyn ac ymateb yn effeithiol
- adnabod ffyrdd o wella i'r dyfodol

## CYSYLLTU Â'R SWYDDOG GOFAL CWSMER

01286 679549

gcgc@gwynedd.llyw.cymru

www.gwynedd.llyw.cymu

**Gofynnwch am ein llyfryn 'Gwrando, Ymateb, Gwella'**

Adults, Health and Wellbeing Department

# LISTENING, RESPONDING, IMPROVING



Your comments are important to us, as they help us improve our Services.

You are welcome to send us:

- praise
- positive comments
- negative comments
- a formal complaint

If you have a complaint, we will:

- collect information fully
- make arrangements to discuss and respond effectively to your complaint
- identify ways to improve for the future

## CONTACT THE CUSTOMER CARE OFFICER

01286 679549

gcgc@gwynedd.llyw.cymru

www.gwynedd.llyw.cymu

**Ask for the 'Listening, Responding, Improving' booklet**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Gofal |
| **DYDDIAD** | 25 Medi 2025 |
| **TEITL** | Prosiect Rhyddhau o’r Ysbyty |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Ofalgar |
| **AWDUR** | Sian Edith Williams Jones<br>Lynne Lloyd Jones<br>Manon Elwyn Owens<br>Rhian Green |
| **AELOD CABINET** | Y Cynghorydd Dilwyn Morgan |

## CYNNWYS YR ADRODDIAD:

1. Pam bod angen craffu ar waith Rhyddhau o’r Ysbyty?
2. Beth yn union sydd angen ei graffu?
3. Crynodeb o’r materion allweddol
4. Cefndir / cyd-destun
5. Ymgynghori
6. Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015
7. Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a’r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol
8. Camau Nesaf

**1. Pam bod angen craffu ar waith Rhyddhau o’r Ysbyty?**

1.1 Mae cydweithio gyda’r gwasanaeth iechyd yn un o flaenoriaethau Gwynedd Ofalgar; ac, un ffrwd gwaith yw cydweithio gyda hwy i sicrhau gofal i gleifion sy’n cael eu rhyddhau o’r ysbyty.

1.2 Yn ddiweddar, cyhoeddwyd adroddiad gan Lywodraeth Cymru ar hyn yn ogystal ag adroddiad gan Benaethiaid Gwasanaethau Cymdeithasol sy’n ymateb i'r heriau ynghylch gofal yn dilyn rhyddhau o’r ysbyty.

1.3 Mae gofyn hefyd i’r Cyngor greu cynllun sy’n manylu beth fydd llwybr gofal y rheiny sy’n cael eu rhyddhau o’r ysbyty ac mae’n ofynnol i ni adrodd yn flynyddol ar gynnydd i Lywodraeth Cymru.

1.4 Ac felly, mae’n briodol i ni graffu ar y maes gwaith hwn a’r hyn sy’n digwydd i ymateb i’r heriau sy’n codi.

## 2. Beth yn union sydd angen ei graffu?

2.1 Craffu'r adroddiad gan Benaethiaid Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru er mwyn deall y cyd-destun a'r heriau
2.2 Ystyried datrysiadau posib yng Ngwynedd gan gynnwys y buddsoddiad angenrheidiol
2.3 Beth yw'r cyswllt gyda chynllun Llechen Lân Cyngor Gwynedd
2.4 Data am y niferoedd o'r cleifion hynny sy'n disgwyl cael eu rhyddhau o'r ysbyty ac sy'n disgwyl am becyn gofal cartref
2.5 Data am y niferoedd sy'n disgwyl pecyn gofal yn y gymuned ac a ydy darparu pecyn gofal i'r rhai sy'n barod i'w rhyddhau o'r ysbyty yn effeithio ar y rhai sy'n aros am becyn gofal yn y gymuned
2.6 Data am y nifer sydd wedi cael eu gwrthod am becyn gofal a pham
2.7 Blaengraffu strategaeth llwybr gofal a'r cynnydd

## 3. Crynodeb a'r Materion Allweddol

3.1 Yn yr adroddiad gosodwn y cyd-destun cyfredol ar drefniadau rhyddhau o'r ysbyty yng Ngwynedd gan y Timau Adnoddau Cymunedol sy'n cefnogi oedolion gydag anghenion corfforol, gwaeledd, cyflyrau cysylltiedig â henaint a dementia. Bydd pwyslais ar egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a'r disgwyliad i ni fod yn ystyried adnoddau personol a chryfderau unigolion wrth asesu a chynllunio anghenion gofal a chefnogaeth pan mae unigolyn yn gadael yr ysbyty.

3.2 Byddwn yn gofyn i'r Pwyllgor Craffu ystyried effeithlonrwydd ein trefniadau presennol o ran darparu cefnogaeth leol, cymesur, amserol a diogel i drigolion Gwynedd a hynny o fewn ein hadnoddau presennol. Bydd atebion i'r cwestiynau craffu yn cael eu hymgorffori ym mannau perthnasol yr adroddiad.

## 4. Cefndir / Cyd-destun

<u>Y cyd-destun deddfwriaethol ac ymarferol</u>

4.1 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yw'r fframwaith gyfreithiol i adnabod deilliannau personol person ac i asesu ei anghenion gofal a chefnogaeth. Mae dyletswydd ar Wasanaethau Cymdeithasol i ddiwallu'r angen os nad yw'r adnoddau (yn bersonol, yn y gymuned neu gan eraill) ar gael i'r person ddiwallu ei anghenion ei hun.

4.2 Mae'r GIG yng Nghymru yn defnyddio codau penodol i bennu llwybr unigolion sydd angen gadael yr ysbyty. Maent yn seiliedig ar egwyddorion Rhyddhau i Adfer ac yna Asesu (D2RA).

4.3 Mae pedair ffrwd, sef, 0, 1, 2 a 3. Gweler y diagram isod sy'n egluro diben ac egwyddorion y llwybrau hyn.

| RHYDDHAU | I | ADFER | ASESU |
|---|---|---|---|
| **Llwybr 0** | **Llwybr 1** | **Llwybr 2** | **Llwybr 3** |
| NID OES ANGEN CYMORTH YCHWANEGOL AR GYFER RHYDDHAU | CARTREF Â CHYMORTH YN GYNTAF | CYFLEUSTER Â CHYMORTH TYMOR BYR | CYMORT CYMHLETH |
| • Cwbl annibynnol – dim angen rhagor o gymorth<br>• Asesiad Tîm Amlddisgyblaethol o fewn unedau 'drws ffrynt' ysbytai i osgoi derbyniadau llawn.<br>• Y claf yn dychwelyd i'w breswylfa arferol (gan gynnwys Cartref Gofal)<br>• Pecyn Ailgychwyn Gofal (POC) heb unrhyw newidiadau<br>• Mae ganddo wasanaethau cymunedol sy'n bodoli eisoes ar waith | • Y claf yn dychwelyd i'r man preswylio arferol gyda chymorth tymor byr.<br>• Gwasanaethau ataliol yn cael eu darparu ar y cyd â sefydliadau trydydd sector a gwirfoddol. ee. Darparu prydau bwyd, siopa, tai<br>• POC newydd neu gynnydd yn y pecyn presennol.<br>• Ailalluogi tymor byr i fanteisio ar yr annibyniaeth.<br>• Asesiad a rhywfaint o ofal a chymorth ychwanegol (gan gynnwys therapi, nyrsio, fferylliaeth, gofal cartref ac offer newydd). E.e. Timau Adnoddau Cymunedol<br>• Yn ddiogel rhwng galwadau/dros nos. | • Y claf yn cael ei drosglwyddo i wely nad yw'n wely acíwt ac yn cael ei adsefydlu/ailalluogi a'i asesu hyd nes y bydd yn gallu dychwelyd adref yn ddiogel.<br>• Anniogel i fod gartref dros nos/rhwng galwadau gofal.<br>• Angen rhywfaint o ofal ar hyn o bryd (e.e: Gweithgareddau Bywyd Beunyddiol) cymorth/ymyrraeth 24/7<br>• Yn cynnwys adsefydlu arbenigol. (e.e. Strôc, Niwrolegol, Trawma ac Orthopedeg) | • Y claf yn cael ei drosglwyddo i wely hirdymor newydd, gwely asesu neu breswylfa arferol ac yn cael cymorth cymhleth, gan gynnwys adsefydlu/ailalluogi a/neu asesiad ar gyfer ei anghenion.<br>• Anghenion iechyd a/neu gymdeithasol cymhleth/sylweddol yn y cyfnod preswyl arferol.<br>• Newid sylweddol sy'n gofyn am leoliad newydd.<br>• Lleoliad tymor hwy<br>• Anghenion gofal iechyd sy'n newid bywyd<br>• Anghenion diwedd oes neu iechyd meddwl cymhleth. |

Cliciwch ar y ddolen i **Nod 5** lle byddwch yn dod o hyd i'r prif ddogfennau

4.4 Mae'r nodweddion amrywiol sy'n perthyn i bob ffrwd yn gofyn am ymdriniaeth benodol. Felly, penderfynwyd dechrau'r gwaith o ddiwygio ein trefniadau ni yn y Cyngor gyda llwybrau 0 ac 1.

4.5 Mae gwaith ar y gweill i wella ein cydweithio a'n trefniadau gyda llwybrau 2 a 3, ond, gan mai megis cychwyn mae hynny, ni fyddai'n briodol eu cynnwys yn yr adroddiad hwn.

4.6 Noder hefyd bod gan fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol ieithoedd a therminoleg gweithredu sy'n unigryw iddyn nhw. Mae'r cysyniad o D2RA yn enghraifft o hynny. Felly, fel rhan o'r cydweithio, rydym hefyd yn gweithio ar wella dealltwriaeth o eirfa a gweithdrefnau'r naill a'r llall.

4.7 Mae data StatsCymru, sy'n cael ei gyhoeddi'n fisol dan arweiniad Llywodraeth Cymru, yn adnabod ac yn codio rhesymau dros oedi cyn rhyddhau cleifion o'r ysbyty. Fe'u pennir yn y lle cyntaf gan y tîm sy'n gyfrifol am ryddhau o'r ysbyty yn y Byrddau Iechyd, ac yn cael eu gwirio a'u cymeradwyo gan arweinwyr yn y Gwasanaethau Cymdeithasol perthnasol.

4.8 Isod, ceir tabl yn crynhoi ac, mewn melyn, yn amlygu'r cyfartaleddau sy'n berthnasol i'r gwaith a'r adroddiad hwn.

Tabl 1: Crynodeb o ystadegau o StatsCymru yn dangos nifer yr unigolion sy'n aros i gael eu rhyddhau o'r ysbyty ac sy'n feddygol optimeiddedig i adael. (Gwybodaeth berthnasol i'r adroddiad hwn mewn melyn)

| | | | Cyfartaledd pob cyfrifiad ers 2023 | Ion-Gorff 2025 | Ion-Gorff 2024 | Gwah-aniaeth | Ion-Gorff 2025 % | Ion-Gorff 2024 % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm | Pob categori oedi | | 62 | 57 | 58 | 1 | | |
| Cyfanswm | Asesu a GC | | 29 | 27 | 28 | 1 | 48 | 48 |
| Cyfanswm | Asesu | | 20 | 20 | 18 | -1 | 35 | 32 |
| | | Aros am weithiwr cymd. | 4 | 4 | 5 | 0 | 7 | 8 |
| | | Aros asesiad gwas cym | 4 | 4 | 4 | 0 | 7 | 7 |
| | | Aros asesiad ar y cyd | 8 | 6 | 7 | 1 | 10 | 13 |
| Cyfanswm | Materion GC | | 9 | 7 | 9 | 2 | 13 | 16 |
| | | Aros pecyn gofal newydd | 9 | 7 | 9 | 2 | 13 | 16 |
| | | Aros i ail gychwyn pecyn gofal | 2 | - | 1 | 1 | 0 | 2 |

4.9 Gweler bod clustnodi gweithiwr cymdeithasol ac asesiad gan weithiwr cymdeithasol yn ddau reswm sy'n cyfrannu at yr oedi. Dyma ddau faes sydd o fewn ein gallu ni i ddylanwadu arnynt a'u gwella, ac felly yn feysydd yr ydym yn rhoi sylw iddynt yn y rhaglen waith hon ac, felly, yn yr adroddiad hwn.

4.10 Gweler Atodiad 1 am eglurhad a chyd-destun manylach i'r adroddiad misol hwn a'i gynnwys.

Y Sefyllfa Gyfredol

4.11 Ers 2011 tyfodd y boblogaeth dros 65 oed o 7.8% yng Ngwynedd. Edrydd Gofal Cymdeithasol Cymru fod gan Gymru yn gyffredinol fwy o bobl dros 85 na gweddill y Deyrnas Unedig a bod y nifer yn debyg o ddyblu ar draws Cymru erbyn 2045.

4.12 Ymhellach, eglura Cydffederasiwn GIG Cymru fod gan Gymru y nifer uchaf o bobl sydd â chyflyrau hirdymor cyfyngol neu gronig yn y Deyrnas Unedig, gyda'r niferoedd yn cynyddu yn gyflym (o 105,000 o bobl gyda chyflyrau hirdymor cyfyngol neu gronig yng Nghymru yn 2001/2 at 142,000 yn 2010/11) ac yn debygol o barhau i gynyddu wrth i'r boblogaeth heneiddio ymhellach.

4.13 Erbyn Cyfrifiad 2021 roedd dros 25,000 o bobl hŷn na 65 oed yng Ngwynedd, gydag oddeutu traean ohonynt dros 80 oed. O gymharu â Chymru mae 23.5% o bobl dros 65 oed yng Ngwynedd a 21.3% yng Nghymru.

4.14 Mae'r cynnydd hwn yn amlwg yn dod â'i heriau, gyda thebygolrwydd uchel y bydd mwy o alw am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae datblygiadau meddygol wedi gwella goroesiad pobl ond hefyd wedi arwain at anghenion mwy cymhleth. Yn gysylltiedig â'r boblogaeth sy'n heneiddio, mae cynnydd yn nifer y bobl sy'n byw gyda dementia a'r cyflwr yn gallu arwain at lawer o gymhlethdodau o ran gofal a chymorth sydd i rai yn effeithio ar drefniadau rhyddhau o'r ysbyty, yn arbennig unigolion nad sy'n gallu diwallu anghenion eu hunain a gwneud penderfyniadau am eu gofal ble mae angen penderfyniadau lles gorau a chyfranogiad Y Llys Gwarchod i drefnu eu gofal

parhaus. Mae’r rhain yn brosesau dwys gyda fframwaith gyfreithiol ac felly’n cymryd mwy o amser i drefnu.

Gwaith Rhyddhau o’r Ysbyty

4.15 Mae’n thema cyffredin iawn erbyn hyn bod y gwasanaethau cymdeithasol yn gyfrifol am yr oedi mewn trefniadau rhyddhau unigolyn o’r ysbyty. Mewn gwirionedd mae ystod o ffactorau eraill sy'n ymestyn y tu hwnt i ofal cymdeithasol. Gall oedi fod oherwydd unigolyn yn aros am asesiad nyrsio, asesiad Gofal Iechyd Parhaus, oedi wrth gwblhau asesiadau meddygol, iechyd meddwl a'r amser a gymerir i gwblhau trefniadau meddyginiaeth.

4.16 Mae’n destun pryder bod “10 diwrnod yn yr ysbyty yn arwain at gyfwerth â 10 mlynedd o heneiddio yng nghyhyrau pobl dros 80 oed.” Mae'r niwed hwn a cholli annibyniaeth yn golygu bod pobl hŷn a bregus yn fwy tebygol o fod angen gofal a chefnogaeth i ddychwelyd adref, gan gynyddu'r pwysau ar ofal cymdeithasol a gwasanaethau cymunedol sydd eisoes dan bwysau.

4.17 Mae gan yr ysbyty ddull o benderfynu pan mae unigolyn yn cyrraedd statws "ffit yn glinigol" (*Clinically Optimised*) ac nid yw hyn o reidrwydd yn golygu bod yr unigolyn yn iach neu wedi gwella. Mae'r statws yma’n gosod amserlen dynn ac yn ystyried bod unrhyw un sy’n dal yn yr ysbyty 48 awr yn ddiweddarach yn derbyn statws "oedi".

4.18 Mae cwrdd â gweithiwr cymdeithasol, ceisio cytuno ar gynllun ar gyfer anghenion gofal, trafod gyda'r teulu yn ystod amser ymweld a chael barn y tîm amlddisgyblaethol yn gyfnod cymhleth ac anodd i bobl. Mae gwneud hyn tra mae’r unigolyn dal yn sâl yn llawer anoddach. Mae disgwyl i bobl weithio trwy asesiad, cytuno ar gynllun gofal neu leoliad preswyl (all gostio hyd at £2,000 yr wythnos) ac i hyn i gyd fod mewn lle o fewn 48 awr yn gwbl afresymol ac yn ein gosod mewn safle o fethiant yn syth.

4.19 Mae mynediad i'r ysbyty yn ddigwyddiad arwyddocaol ym mywyd pob unigolyn, ac mae’n haeddu sylw a buddsoddiad digonol i sicrhau bod y profiad o adael yr ysbyty ac ymwneud â’r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn brofiad cadarnhaol ac esmwyth ac yn rhoi’r cychwyn gorau i'r daith o dderbyn unrhyw fath o ofal a chefnogaeth.

4.20 Hyd yma, grantiau tymor byr mae Gwynedd wedi’u derbyn i ddiwallu’r galw cynyddol o’r ysbyty, sy’n rhwystro ein gallu i fuddsoddi mewn cynlluniau tymor hir i ddiwallu sefyllfa barhaus a chynyddol bryderus.

4.21 Mae’r negeseuon a’r disgwyliadau gan amrywiol bapurau Llywodraeth Cymru yn datgan yn glir bod rhaid i awdurdodau lleol sicrhau pob ymdrech i gefnogi pobl i symud allan o'r ysbyty cyn gynted â phosibl, a hynny heb fawr o adnodd ychwanegol. Daw’r disgwyliad yma gyda chost sylweddol, gan effeithio ar ein gallu i ddarparu cefnogaeth ehangach yn y gymuned.

4.22 Gydag adnoddau a staffio yn cael eu hailgyfeirio i flaenoriaethu rhyddhau o'r ysbyty, mae gwasanaethau megis gofal ataliol, ymyrraeth gynnar, a chefnogaeth hirdymor i unigolion sy’n agored i niwed wedi wynebu straen gynyddol.

4.23 Er i ni i gyd gydnabod bod rhyddhau o'r ysbyty yn flaenoriaeth, rhaid i ofal cymdeithasol hefyd allu darparu cefnogaeth ataliol a pharhaus. Heb y cydbwysedd hwn, gall y pwysau ar ysbytai leihau yn y tymor byr, ond gallai'r galw am ymyriadau argyfwng gynyddu, gan wneud y system yn llai cynaliadwy dros amser. Rydym felly wedi gorfod bod yn greadigol a chytbwys wrth drawsnewid y gwasanaeth a chyflwyno gwelliannau a newidiadau o fewn ein hadnoddau presennol.

Newid diwylliant a'r naratif ar draws Iechyd a Gofal

4.24 Bu i ni gychwyn drwy gyfathrebu sefyllfa'r Cyngor a'r cyd-destun gofal gyda staff wardiau Ysbyty Gwynedd. Trefnwyd sesiynau trafod diweddar yn pwysleisio'r angen i nyrsys fod yn rhannu negeseuon cywir gyda chleifion a'u teuluoedd, atal gor-ddarparu a gorddibyniaeth ar ofal cartref, gofyn iddynt osgoi codi gobeithion teuluoedd a gosod disgwyliadau uchel am y ddarpariaeth gofal, i fod yn gyfforddus gyda risg, dewis a phenderfyniad y cleifion ac annog annibyniaeth os yn briodol a diogel. Mae hyn yn her ac yn sgwrs sydd angen digwydd yn rheolaidd.

4.25 Wrth i rywun gysylltu â'r Gwasanaethau Oedolion, rydym yn sicrhau bod sgwrs gydweithredol yn digwydd rhwng y nyrs a'r claf, y teulu a'r ffrindiau (neu unrhyw weithiwr proffesiynol arall perthnasol) er mwyn casglu'r wybodaeth angenrheidiol. Bydd hyn yn galluogi i'r tîm ganolbwyntio ar gryfderau ac adnoddau'r claf i'w cefnogi gyda be sy'n bwysig iddynt.

4.26 Rhaid hefyd edrych ar ein harferion a'n diwylliant yn ein Timau Gwasanaethau Cymdeithasol wrth ystyried darparu gofal a chefnogaeth. Mae ymdrech i ni fod yn symud i ffwrdd o arferion 'traddodiadol'. Gellir dadlau bod pecyn gofal cartref yn gallu bod yn 'unffurf' ac anhyblyg a beth yw pwrpas cynnal asesiad cynhwysfawr a rhoi'r un math o wasanaeth i bawb?

4.27 Rydym angen annog a chefnogi gweithwyr i feddwl yn greadigol a bod yn fentrus a hyderus gyda syniadau newydd, sy'n newid mawr i'r timau. Yn hanesyddol bu cyflenwad digonol o ofal cartref sydd efallai wedi arwain at or-ddibyniaeth arno, gan amharu ar fentergarwch a chreadigrwydd y gweithlu.

4.28 Rydym bellach yn annog ein gweithwyr i asesu unigolion ar sail eu cryfderau yn hytrach na rhoi ffocws ar anawsterau a risgiau. Mae'n allweddol bod gan y gweithwyr y sgiliau a'r hyder i gynnal sgyrsiau da ac adeiladol efo'r unigolyn a'r teulu – rhaid diwallu anghenion mewn ffordd gymesur i atal gor-ddibyniaeth a gor-ddarparu gofal o'r cam cyntaf, gan gyfarch yr hyn sy'n bwysig i unigolion yn hytrach na chanolbwyntio ar ddarparu cyfanswm o oriau a thasgau penodol.

4.29 Rydym yn hyrwyddo'r defnydd o Daliadau Uniongyrchol a datblygu ymwybyddiaeth y gweithlu o fentrau meicro lleol, asiantaethau trydydd sector, a'r defnydd o dechnoleg gynorthwyol. Trwy Daliadau Uniongyrchol gallwn ddiwallu'r anghenion yn well a darparu pecynnau sylweddol am bris llai.

4.30 Mae ymdrech hefyd i annog cydweithio agos gyda'n darparwyr gofal cartref, gan ddod â nhw'n aelodau allweddol o'r Timau Adnoddau Cymunedol. Gwneir hyn drwy sicrhau bod fforymau trafod mewn lle yn rheolaidd ac yn gyson a chydleoli swyddfeydd lle bo hynny'n bosib, gan annog a chroesawu barn ac arbenigedd y gofalwyr ar sefyllfa'r person sy'n derbyn gofal gan mai nhw sy'n adnabod yr unigolion orau. Gyda hyn cawn ddarpariaeth sy'n hyblyg a chymesur i wir anghenion yr unigolion.

4.31 Mae gennym bellach bedwar Ymarferydd Gwaith Cymdeithasol o bedwar TAC (Bangor, Llŷn, Eifionydd a Caernarfon) wedi'u lleoli yn Ysbyty Gwynedd am 1-2 diwrnod yr wythnos, maen nhw'n rhannu swyddfa gyda Thîm Rhyddhau Ysbyty BIPBC. Mae'r ymarferwyr yn gweithio o dan strwythur newydd y TAC sydd wedi ei rannu i is-ardaloedd llai.

4.32 Golyga hyn bod gwell strwythur ac ymwybyddiaeth llawer mwy lleol gan yr ymarferwyr ac felly gwell siawns o adnabod yr adnoddau amgen, cymunedol, trydydd sector, ac edrych tu hwnt i adnoddau statudol. Byddai cael Tîm ar wahân a phenodol i'r ysbyty yn colli'r ymwybyddiaeth a'r wybodaeth leol sydd mor angenrheidiol erbyn hyn.

4.33 Yn sgil sgyrsiau diweddar gyda'r Bwrdd Iechyd rydym wedi cael cytundeb y byddent yn addasu eu systemau data cleifion i gyd fynd ag is-ardaloedd Gwynedd. Mae hyn wedi digwydd ac mae goblygiadau eang a chadarnhaol iawn o ran arbed amser ac adnabod y cleifion sydd angen eu blaenoriaethu.

4.34 Gan bod yr ysbyty'n tueddu i gyfeirio claf o fewn 48 awr o fynediad a hynny heb wybodaeth ddigonol am yr unigolyn a'i amgylchiadau, mae'r ymarferwyr ar y safle yn gallu gwirio pob cyfeiriad, cael mynediad i systemau gwybodaeth yr ysbyty, trafod gydag aelodau'r Tîm Rhyddhau yn dilyn '*board rounds'* ac adnabod yr unigolion sydd wirioneddol yn barod am sgwrs 'Beth sy'n Bwysig' (asesiad gofal a chefnogaeth).

4.35 Mantais arall o gael aelodau'r TAC yn yr ysbyty yn hytrach na chael Tîm ar wahân ydi'r pontio rhwng y TAC a'r ysbyty. Mae hyn yn allweddol ac yn gweithio'n llawer mwy effeithiol. Am eu bod yn perthyn i'r TAC, maen nhw'n dod â'u gwybodaeth am adnoddau a rhwydweithiau lleol yn syth i'r asesiad ysbyty, lle'n flaenorol yr ysbyty oedd yn penderfynu ar lefel y gofal (a rhoi '*safe bet*' o bedair galwad y dydd fel arfer) heb yr ymwybyddiaeth o wasanaethau lleol a chefnogaeth yn y gymuned y mae'r claf yn byw ynddi.

4.36 Gyda chyswllt y pedwar â'r TAC mae modd iddynt ddilyn achosion drwodd o'r ysbyty i'r gymuned. Y gobaith yw bydd unigolion yn gadael yr ysbyty yn brydlon, llai o siawns iddynt ddirywio ac felly yr anghenion gofal yn llai neu'n fwy cymesur i'r anghenion, sy'n osgoi gor-ddarpariaeth a chreu dibyniaeth rhy gynnar.

<u>Craffu ar ddata a gwybodeg</u>

4.37 Yn rhan o'r gwaith, mae'n bwysig i ni ystyried gwybodaeth (data) feintiol ac ansoddol gan bod iddynt eu rhinweddau eu hunain.

4.38 Daw'r data meintiol o StatsCymru, o'n cronfeydd data ein hunain (WCCIS yn bennaf), ac o'r wybodaeth a gasglwyd gan yr ymarferwyr yn ystod y prosiect. I gydbwyso hyn, cesglir straeon cleifion er mwyn deall y sefyllfa o safbwynt y claf a'r gweithlu a rhoi sylwedd i'r ffigyrau mwy haniaethol.

4.39 Edrychwn yn gyntaf ar y data meintiol a gasglwyd yn ystod y cynllun ac fe'i cymharir â data StatsCymru sy'n ymwneud â Rhyddhau o'r Ysbyty.

4.40 Bu'r ymarferwyr yn cofnodi eu hymweliadau ar ffurf cronfa ddata syml, gyda'r nod o adnabod sut effaith oedd yr ymyrraeth yn ei gael.

4.41 Mae oddeutu 100 o unigolion wedi'u gweld gan yr ymarferwyr dros gyfnod y peilot. Cofnodwyd rhai mewn mwy o fanylder na'i gilydd.

4.42 Dengys y tabl isod wybodaeth am saith claf o ardal Bangor; sef, Dinas Bangor, Bethesda, Penrhosgarnedd, Y Felinheli.

Tabl 2: Ffigyrau hyd arhosiad a chyfeiriadau cleifion a gafodd eu gweld gan Ymarferydd Gwaith Cymdeithasol ardal Bangor (sef, Dinas Bangor, Bethesda, Penrhosgarnedd, Y Felinheli) yn ystod y cynllun peilot

| Wedi'i optimeiddio'n glinigol wrth gyfeirio | Hyd arhosiad | Dyddiau cyn cyfeirio | Dyddiau rhwng cyfeirio ac asesiad Gwas Cym | Dyddiau rhwng cyfeirio a rhyddhau | Dyddiau rhwng asesu a rhyddhau | Llwybr | Deilliant |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Na | 41 | 21 | 4 | 20 | 16 | 0 | Gwrthod cefnogaeth |
| Ydy | 24 | 11 | 0 | 13 | 13 | 1 | Galluogi |
| Ydy | 25 | 1 | 6 | 24 | 18 | 0 | Teulu ac offer |
| Ydy | 9 | 5 | 2 | 4 | 2 | 0 | Offer ac addasiadau |
| Ydy | 5 | 3 | 2 | 2 | 0 | 1 | TA |
| Na | 22 | 16 | 0 | 6 | 6 | 0 | Teulu a ffisiotherapi ac offer |
| Ydy | 27 | 6 | 0 | 21 | 21 | 1 | TA |
| | 22 | 9 | 2 | 13 | 11 | | |
| | | 41% | 9% | 59% | 50% | | |

4.43 Yn ardal Bangor, roedd un ymarferydd gwaith cymdeithasol yn ymweld ag Ysbyty Gwynedd unwaith neu ddwy yr wythnos. Byddai'r unigolyn yn derbyn cyfeiriadau drwy'r gwasanaeth IAA, gan y 'Progress Chasers', drwy'r Board Round ar y ward, ac wrth sgwrsio gyda chleifion unigol.

4.44 Rydym wedi adnabod y gwahanol ddulliau cyfeirio, ond, er mwyn bod yn gryno, ni wnawn ymhelaethu yma. Yn hytrach, dymunwn ganolbwyntio ar y wybodaeth yn y tabl.

4.45 Mae'r tabl yn cynnwys saith unigolyn oedd ar lwybrau 0 ac 1 sef y llwybrau cefnogaeth mwyaf sylfaenol.

4.46 Dengys bod hyd cyfartalog arhosiad yn 22 diwrnod. O'r rhain, mae naw niwrnod yn ymwneud â gwella iechyd claf i fod yn glinigol optimeiddedig. O'r saith sampl, dim ond dau gafodd gyfeiriad cyn bod yn glinigol optimeiddedig. Mae hyn yn arwyddocaol gan bod cynllunio cynnar ac amserol i ryddhau unigolion o'r ysbyty yn fater o bwys.

4.47 Os edrychwn unwaith eto ar y ffigyrau cyfartalog, gwelwn mai deuddydd o oedi sydd rhwng cyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol ym Mangor a chael asesiad, sy'n gyfystyr â 9% o holl gyfnod arhosiad ysbyty'r unigolion. Mae'r oedi mwyaf wedyn yn digwydd ar ôl cael yr asesiad gwaith cymdeithasol.

4.48 Cymharwn y data uchod gydag ystadegau StatsCymru lle mae 14% o arhosiad unigolyn yn yr ysbyty yn ymwneud ag aros am weithiwr cymdeithasol ac asesiad.[1]

[1] Er gwybodaeth am StatsCymru: cyflwynir ffigyrau i'r Llywodraeth gan Fyrddau Iechyd ledled Cymru ar drydydd dydd Mercher y mis. Rhoddir ciplun o nifer yr unigolion sydd mewn sefyllfa o oedi cyn rhyddhau o'r ysbyty ar y diwrnod penodol (diwrnod cyfrifiad) hwnnw. Mae cod penodol ar gyfer y gwahanol resymau a gwirir y wybodaeth gydag arweinwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol cyn ei hanfon i'w dadansoddi. Dylid hefyd nodi bod gwybodaeth StatsCymru yn edrych ar Wynedd gyfan, ac rydym ni yn edrych ar Wynedd yn ei chyfanrwydd, ar lefel ardal ac ar lefel is-ardal.

4.49 Yn arwynebol iawn, felly, mae'r data meintiol yn awgrymu bod yr ymyrraeth ym Mangor yn cynorthwyo'r timau gwasanaethau cymdeithasol i sicrhau bod eu dyletswyddau yn cael eu cyflawni yn gynt er lles y claf. Ac rydym yn chwilio am welliannau pellach.

4.50 Dim ond saith mis ers cychwyn y gwaith yma, yn barod gwelwn dystiolaeth o wella profiadau unigolion o adael yr ysbyty, perthnasau wedi eu creu, cyfathrebu wedi gwella a'r gweithwyr Iechyd a Gofal wedi hwyluso mynediad i systemau gwybodaeth y naill a'r llall.

4.51 Isod, rhennir straeon cadarnhaol o'r tair ardal am unigolion a'r modd y mae'r gwaith hwn wedi bod o fudd iddynt gyda'u taith drwy'r system – gan ategu neges y data meintiol uchod ym mhob un o'r ardaloedd peilot.

**Achos 1**

Cyfeiriad gan y ward yn holi am becyn gofal er mwyn dychwelyd adref. Ar ôl fy sgwrs efo'r dyn daeth yn amlwg nad hyn oedd ei angen arno. Yn lle trefnu pecyn gofal, trefnais sustem Teleofal a 'Falls Detector' iddo yn ogystal a 'Swivel Bather' sy'n ei alluogi i gael cawod a golchi ei draed yn annibynnol. Cafodd ddychwelyd adref y diwrnod canlynol. Y teulu hefyd yn cael tawelwch meddwl o wybod bod yr achos yn cael dilyniant yn y gymuned gennyf.

Dw i'n rhagweld, heb y sgwrs Beth Sy'n Bwysig a pethau fel Teleofal mi fuasai o wedi bod yn yr ysbyty am wythnosau yn disgwyl pecyn gofal nad oedd ei angen. Dw i hefyd yn rhagweld, os na fuasai o wedi codymu a mynd i'r ysbyty adeg hynny, mi fuasai o wedi gallu bod yn sefyllfa mwy difrifol yn y dyfodol.

**Achos 2**

Cyfeiriad gan y ward yn tybio bod gŵr angen pecyn gofal cyn cael ei ryddhau adref, ar ôl imi fynd I'w weld a chael sgwrs efo fo, yn bendant nid oedd angen pecyn gofal, cafodd fynd adref yr un diwrnod.

**Achos 3**

Y ward wedi datgan bod gwraig angen pecyn gofal cyn cael ei rhyddhau o'r ysbyty, wedi cael sgwrs cychwynnol gyda hi, rhannodd ei bod yn byw gyda'i mab a'i bod yn hollol annibynnol adref, gofynnais i'r mab gael cyfarfod hefo fi a'r fam yr wythnos wedyn, 'roedd o hefyd yn cadarnhau bod ei fam yn annibynnol. Deellais ei bod yn mwynhau coginio a phobi, a bod hyn yn rhan bwysig o gynnal bywyd annibynnol. Dywedais, felly, y buaswn yn helpu iddi fynd adref ar unwaith ar yr amod ei bod yn gwneud teisen i mi pan fyddwn dod i'w gweld ar ôl iddi gyrraedd adref. Aeth y wraig adref gyda sustem Teleofal. Pan es draw i'w gweld yn ei chartref wythnos wedyn roedd wedi setlo yn dda ac wedi gwneud cacen i fi!

**Adborth gan yr Ymarferwyr**

*Dwi'n cael adborth ofnadwy o dda gan gleifion o ardal Pen Llŷn pan dwi'n mynd i weld nhw ar y ward. Ma nhw'n falch o'r cyfle i siarad efo rhywun ynglŷn a be sy'n bwysig iddyn nhw.*


*Sawl peth positif yn dod allan o fy ngwaith i tra dwi'n YG, mae'r cyswllt sydd wedi ei greu efo'r discharge team yn werthfawr dros ben. Teimlo bod na 'barch' a 'trust' wedi ei sefydlu, ma nhw'n gwbod i ddod ata i os di nhw angen ateb am glaf, a vice versa fi i nhw.*

*Mae'r cyswllt efo YG yn werthfawr iawn, o ran gwybod yn union lle mae cleifion arni yn feddygol, hynny yw medically fit for discharge, mi oedd allocations Llŷn ar ddydd Mawrth, ond mae o nawr ar ddydd Iau, oherwydd fy mod yn gallu rhoi diweddariad ar gleifion yn dilyn fy niwrnod yma bob dydd Mercher*

4.52 Rydym yn hyderus iawn bydd straeon cadarnhaol fel hyn yn parhau a'r cyd-weithio rhwng Gwasanaethau Cymdeithasol a Iechyd yn parhau i gryfhau er lles pobl Gwynedd ac i sicrhau ein bod yn gwireddu'r addewid i:

**"HELPU FI I FYW FY MYWYD FEL DWI YN DYMUNO EI FYW"**

4.55 Ledled Gwynedd, mae 109 o unigolion eisiau cefnogaeth o’r newydd neu gefnogaeth gynyddol. Yn Narlun 2 isod, gweler y niferoedd sydd yn yr ysbyty, sef, 37 allan o 109. Mae cais am oddeutu hanner yr oriau yn dod o’r ysbyty ar gyfer oddeutu traean y bobl.




**Darlun 2** Ciplun o nifer yr unigolion sydd yn yr ysbyty yn aros am ofal cartref, a nifer yr oriau.

**Ydy darparu pecyn gofal i’r rhai sy’n barod i’w rhyddhau o’r ysbyty yn effeithio ar y rhai sy’n aros am becyn gofal yn y gymuned?**

4.56 Yn sicr, mae darparu pecyn gofal i’r sawl sy’n barod i’w rhyddhau o’r ysbyty yn effeithio ar y sawl sy’n aros am becyn gofal yn y gymuned, ond nid o reidrwydd mewn modd llinol. Mae nifer o ffactorau ar waith yn fan hyn, ac felly, nid oes modd datgan yn ddiamwys bod darparu gofal i rhywun sy’n dod adref o’r ysbyty yn eithrio person yn y gymuned rhag cael pecyn gofal ar yr un pryd – er bod y ffigyrau yn awgrymu bod galw am oriau uwch yn dod o gwr yr ysbyty.

4.57 Mae’n ddefnyddiol edrych ar y darlun ehangach a’r sefyllfa yn ei chyfanrwydd yn hytrach nac fel ‘un i mewn, un allan’. Mae hefyd yn ddefnyddiol edrych ar y mater fel un system gyfan, yn hytrach nag ystyried y galw sy’n dod o’r ysbyty a’r galw sy’n dod o’r gymuned fel endidau ar wahân, gan fod newid yn un rhan o’r system yn cael effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol ar y llall. Wrth symud i ffwrdd o’r cysyniad bod y naill yn cystadlu efo’r llall – y gymuned v yr ysbyty, rydym mewn lle mwy cadarnhaol i wella’r system yn ei chyfanrwydd.

4.58 Er enghraifft, mae’n wybyddus bod arhosiad hirhoedlog yn yr ysbyty (y tu hwnt i’r dyddiad pan fo unigolyn yn feddygol optimeiddedig i adael) yn effeithio ar adferiad. Cynyddir y posibilrwydd o ddal haint e.e. niwmonia, ac fe effeithir ar symudedd a gallu cyhyrysgerbydol.

4.59 Gweler Tabl 2 isod o astudiaeth y Geriatric Society yn 2019[2] sy’n dangos effaith arhosiad hirach na’r angen yn yr ysbyty ar gleifion:

| | |
|---|---|
| Dirywiad gweithredol / *Functional decline* | X 3 mwy tebygol / *more likely* |
| Deliriwm / *Delirium* | X 2.6 mwy tebygol / *more likely* |
| Anymataledd o’r newydd / *New incontinence* | X 1.7 mwy tebygol / *more likely* |
| Anaf gwasgu / *Pressure injury* | X 1.2 mwy tebygol / *more likely* |

[2] Mudge AM, McRae P, Hubbard RE, Peel NM, Lim WK, Barnett AG, Inouye SK. Hospital-Associated Complications of Older People: A Proposed Multicomponent Outcome for Acute Care. J Am Geriatr Soc. 2019 Feb;67(2):352-356

| | |
|---|---|
| Unrhyw gymhlethdod a gaffaelwyd yn yr ysbyty (HAC) / *Any hospital-acquired complication (HAC)* | X 2.4 mwy tebygol / *more likely* |
| Perthynas gref a graddedig rhwng HAC a: / *Strong and graded association between HAC and*: | Hyd arhosiad: Hyd arhosiad o 9.1 diwrnod ar gyfer unrhyw HAC v 6.8 heb ddim (p<0.001) / *Length of stay: 9.1 days LOS for any HAC vs 6.8 days with none (p<0.001)* |
| | Marwolaeth ymhen 6 mis (26/192 [14%] vs 17/242 [7%], p=0.02) / *6-month mortality (26/192 [14%] vs 17/242 [7%], p=0.02)* |

4.60 Mae'n anochel felly bod y cynnydd yn nwyster cyflyrau yn sgil arhosiad hwy na'r angen yn mynd i gael effaith ar adnoddau gofal a chefnogaeth yn y gymuned e.e. angen am ofal cartref hirdymor yn hytrach na galluogi, mynd o fod angen cefnogaeth yn y cartref i fod angen gofal preswyl.

4.61 Gweler isod grynodeb o stori claf o gyflwyniad gan Dr Conor Martin, Meddyg Ymgynghorol Gofal yr Henoed yn Ysbyty Gwynedd:

**Sefyllfa cyn mynd i'r ysbyty:**

| **Sefyllfa'r unigolyn cyn mynd i'r ysbyty:** | ***Situation before hospital admission:*** |
|---|---|
| Ffermwr 79 oed wedi ymddeol yn byw ar ei ben ei hun mewn tŷ deulawr. Dim pecyn gofal, symud gyda ffrâm pan mae i fyny'r grisiau, defnyddio cadair Olwyn i lawr y grisiau, lifft grisiau i fynd o un i'r llall, ffrind yn helpu gyda neges. | *Retired 79 year old farmer living alone in a two-storey house, no package of care (POC), mobile with zimmer frame upstairs, using wheelchair downstairs, stair lift in between, friend helping with errands.* |
| **Mynediad i'r Ysbyty 09/11/2023 ar ôl codymu -> toriad periprosthetig i'r glun dde** | ***Admitted 09/11/2023 with fall -> Right Periprosthetic Hip Fracture*** |
| 10/11/23 (diwrnod 2): "*Total Hip Replacement Revision*", arhosiad byr yn yr adran gofal critigol | *10/11/23 (day 2): Total Hip Replacement Revision, short stay in critical care* |
| 12/11/23 (diwrnod 4): ar y ward orthopaedig ar gyfer adferiad dwys ôl-llawdriniaeth | *12/11/23 (day 4): On Ortho ward for post-op acute rehabilitation* |
| 16/11/23 (diwrnod 8): barod ar gyfer Ysbyty cymuned i gael adferiad pellach | *16/11/23 (day 8): Ready for community hospital for further rehabilitation* |
| 27/11/23 (diwrnod 19): Trosglwyddo i'r Ysbyty cymuned – defnyddio 'steady' i helpu symud, anelu at ddod nôl i'r gwaelodlin symudedd arferol | *27/11/23 (day 19): Transferred to community hospital - Using steady transfer aid, aiming to get back to baseline mobility* |
| **Fodd bynnag:** | ***However:*** |
| 13/12/2023 (diwrnod 35): Dal niwmonia yn yr Ysbyty (HAP) 1 – triniaeth gyda gwrthfiotigau geneuol mewn Ysbyty cymuned. Dirywiad mewn galluedd gweithredol ac amcanion adferiad | *13/12/2023 (day 35): Hospital-acquired Pneumonia (HAP) 1 – treated with oral antibiotics in community hospital. Decompensation in functional abilities and rehabilitation goals* |
| 27/12/2023 (diwrnod 47): 'Cynnydd araf' oherwydd y diriwyiad yn sgil yr HAP | *27/12/2023 (day 47): 'Slow progress' due to setback from HAP* |
| 30/12/2023 (diwrnod 50): Trosglwyddo i'r adran frys yn Ysbyty Gwynedd – derbyn i'r adran feddygol gyda HAP am yr eildro (HAP 2) | *30/12/2023 (day 50): Transferred to ED YG – admitted to medicine with HAP 2* |
| 12/01/2024 (diwrnod 63): Trosglwyddo yn ôl i'r Ysbyty cymuned am adferiad pellach | *12/01/2024 (day 63): Transferred back to community hospital for more rehabilitation* |
| 14/01/2024 (diwrnod 65): Trosglwyddo i adran frys Ysbyty Gwynedd – derbyn i'r adran feddygol gyda HAP 3 a Covid | *14/01/2024 (day 65): Transferred to ED YG – admitted to medicine with HAP 3 and Covid* |
| 27/01/2024 (diwrnod 77): HAP 4 dal yn Ysbyty Gwynedd | *27/01/2024 (day 77): HAP 4 whilst still in YG* |

| | |
|---|---|
| 05/02/2024 (diwrnod 86): Trosglwyddo i'r Ysbyty cymuned. Bellach y nod yw byw i lawr grisiau adref a throsglwyddo o un lle i'r llall gyda theclyn "steady" a phecyn gofal ar gyfer pob elfen o fywyd dyddiol | *05/02/2024 (day 86): Transferred to community hospital. Now aiming for downstairs living with steady transfers and a package of care for ADLs* |
| 27/02/2024 (diwrnod 108): Trosglwyddo i adran frys Ysbyty Gwynedd gyda haint ar y llwybr wrinol | *27/02/2024 (day 108): Transferred to ED YG – admitted to medicine with Urinary Tract Infection* |
| 18/03/2025 (diwrnod 128): Trosglwyddo i Ysbyty cymuned. Bellach yn dibynnu ar eraill am bob elfen o fywyd dyddiol. Anymataledd, felly, angen cartref preswyl | *18/03/2024 (day 128): Transferred to community hospital. Now dependent for all ADLs (all daily living), incontinent, therefore needs care home* |
| 15/04/2024 (diwrnod 156): rhyddhau i gartref preswyl/nyrsio | *15/04/2024 (day 156): discharged to dual registered residential/nursing home* |
| **Crynodeb**: | ***Summary**:* |
| Meddygol ffit ar yr 8fed diwrnod | *Medically Fit day 8* |
| Treulio'r 148 diwrnod canlynol yn ceisio adferiad mewn Ysbyty, yn dod i niwed dro ar ôl tro | *Subsequently spent 148 days unsuccessfully rehabilitating in a hospital setting, coming to repeated harm* |
| Mynd i gartref gofal yn y pen draw gyda dirywiadau arwyddocaol yn ei iechyd corfforol, statws gweithredol, a llesiant cyffredinol | *Ended up in a care home with significant decompensations in physical health, functional status and overall well-being* |

4.62 Un o brif amcanion ein gwaith ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd felly yw sicrhau bod pobl yn dod adref o'r ysbyty ar yr amser sy'n briodol, efo'r gefnogaeth briodol, er mwyn osgoi cymhlethdodau fel yr uchod sy'n cyfrannu at ddirywiad yng nghyflwr bywyd ein trigolion ac yn cynyddu'r galw am gefnogaeth yn y gymuned.

**Data am y nifer sydd wedi cael eu gwrthod am becyn gofal a pham**

4.63 Nid ydym yn casglu gwybodaeth feintiol yn uniongyrchol ar y pynciau hyn ar hyn o bryd. Ond, fe'n hatgoffwn ein hunain o'r enghreifftiau "ansoddol" uchod o'r unigolion a gafodd eu hadnabod drwy'r Cynllun Rhyddhau o'r Ysbyty ac a gafodd eu "gwrthod" rhag cael pecyn gofal.

4.64 Maent yn enghreifftiau cadarnhaol o ddod i benderfyniad ar y cyd ag unigolyn a'u teuluoedd nad pecyn gofal yw'r datrysiad priodol bob amser. Ategir hefyd bwysigrwydd trafod gydag unigolion a'u rhwydwaith cefnogi cyn gwneud penderfyniadau am eu lles.

4.65 Egwyddor D2RA (Rhyddhau i Adfer ac yna Asesu) yw mai cartref unigolyn (boed yn dŷ neu'n lleoliad preswyl) yw'r lle priodol a'r lle gorau i asesu unigolyn. Mae'r ysbyty yn amgylchedd annaturiol i ddeall gallu unigolyn i lwyddo yn amgylchedd gyfarwydd y cartref. Felly, mewn enghraifft arall ers cychwyn y gwaith hwn, trafodwyd gydag unigolyn a'r teulu y byddai'n fwy addas iddi fynd yn ôl adref gyda chefnogaeth Tuag Adref ac y byddai gweithiwr cymdeithasol o'r tîm lleol yn ymweld rhyw ddeuddydd yn ddiweddarach.

4.66 Roedd hyn yn llwyddiannus, ac yn dilyn pythefnos o gefnogaeth mwy dwys gan Tuag Adref, rhoddwyd pecyn yn ei le am gyfnod i gefnogi adferiad gan fynd ati i ail-asesu ymhen chwe wythnos.

4.67 Rhinwedd y datrysiad buan hwn oedd bod modd i'r teulu fod o gwmpas yr unigolyn yn well. Roedd yn byw gyda theulu, ac felly roedd cefnogaeth barhaus ar gael yn barod, a doedd dim rhaid i'r teulu dreulio awr bob ffordd yn teithio i ymweld â hi yn yr ysbyty. Roedd

ystyried yr holl unigolion perthnasol yn y darlun yn fuddiol iawn i bawb ac wedi tynnu straen eithriadol oddi ar y teulu.

4.68 Yn dilyn asesiad gan weithiwr neu ymarferydd gwaith cymdeithasol, fe all bod pecyn gofal cartref traddodiadol yn ffordd anaddas o ddiwallu'r angen. Mae'n hanfodol i ni roi'r gorau i ystyried mai pecyn gofal cartref yw'r prif a'r unig ddatrysiad i gefnogaeth, a'n bod yn cydweithio efo partneriaid i chwalu'r dybiaeth hon. Mae Taliadau Uniongyrchol yn un ffordd amgen o gefnogi unigolion, er enghraifft. Dyma'r cyfnod hefyd lle dylid ystyried cefnogaeth gan asiantaethau fel Gofal a Thrwsio a Theleofal (a theclynnau byw'n annibynnol electronig) i gefnogi – fel gwelir yn y straeon; ac i sicrhau bod unrhyw fudd-daliadau y mae'r unigolyn yn gymwys i'w derbyn, yn cael eu cynnig.

## 5. Ymgynghori

5.1 Rydym wedi ymgynghori a chydweithio'n barhaus gydag aelodau allweddol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, gan gynnwys staff Swyddfa Adref yn Gyntaf, Hwyluswyr Rhyddhau o'r Ysbyty, a swyddogion ac uwch reolwyr strategol a gweithredol. Yn wir, mae'r gwaith o'r dechrau un wedi bod yn gywaith rhyngom fel Cyngor a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, gan weithredu'n integredig er mwyn rhoi'r dinesydd yn ganolog i'r gwaith a sicrhau ein bod yn llwyddo.

5.2 Yn ogystal, mae'r Timau Adnoddau Cymunedol wedi bod yn rhoi eu barn am y gwaith yn ôl yr angen, gan sicrhau mewnwelediad amserol a chymesur i'r angen a'r galw.

5.3 Yn ddiweddar rydym wedi bod yn cynnal cyfres o gyfarfodydd a gweithdai ar gyfer y swyddogion sy'n gweithio ar y prosiect newydd, gan ofyn eu barn am fanteision ac anfanteision y ffordd newydd o weithio, yn ogystal â gofyn am syniadau newydd neu unrhyw welliannau maen nhw'n gallu meddwl amdanynt. Rydym wedi cael adborth cadarnhaol gan bawb hyd yma, yn ogystal â syniadau am ffyrdd fwy effeithlon o weithredu'r model.

5.4 Mae'n bwysig nodi bod gwneud hyn nid yn unig wedi gwella'r ffordd o weithio, ond mae hefyd wedi hybu morâl y staff, sydd wedi bod o dan lawer o bwysau cyson i gyfarch y galw ers rhai misoedd, os nad blynyddoedd. Yn ei dro, mae diwylliant y Timau Adnoddau Cymunedol, a'r tîm sy'n rhan o'r prosiect, wedi trawsnewid i fod yn ddiwylliant llawer mwy cadarnhaol, gyda throsolwg mwy ffres ar y gwaith.

## 6. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

### 6.1 A ydych wedi *cynnwys trigolion / defnyddwyr gwasanaeth*? Os ddim, pryd a sut ydych yn bwriadu ymgynghori â nhw?

6.1.1 Gan mai treialu ffordd newydd o weithio yr ydym wedi bod yn ei wneud, nid ydym wedi ymgynghori'n ffurfiol gyda defnyddwyr gwasanaeth hyd yma, ond mae'r rheini sydd wedi bod yn gleifion yn Ysbyty Gwynedd wedi cael profi'r ffordd newydd o weithio drwy gael eu hasesu gan ymarferydd/gweithiwr cymdeithasol a chael profiad gwell yn yr ysbyty er mwyn eu rhyddhau'n fwy amserol.

**6.2 A ydych wedi ystyried *cydweithio*?**

6.2.1 Mewn ymdrech i sicrhau gwell cydweithio ac integreiddio rhwng y Bwrdd Iechyd a'r Cyngor, mae Rheolwr Prosiect wedi'i phenodi ers Mai 2024, sy'n swydd ar y cyd rhwng y ddau sefydliad. Mae'r Rheolwr Prosiect yn gweithio gyda thimau o'r ddau sefydliad i hyrwyddo cydweithio, lleihau dyblygu ymdrechion, rhannu gwybodaeth a data, a thorri'r rhwystrau o weithio mewn seilos.

6.2.2 Rydym yn cydweithio'n agos iawn gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar y gwaith, ac fel y soniwyd eisoes mae eu mewnbwn yn hanfodol er mwyn sicrhau llwyddiant y prosiect. Rydym yn cyfathrebu gyda'r Bwrdd Iechyd yn barhaus i sicrhau gweithrediad llyfn osgoi dyblygu gwaith, a rhannu ymarfer da a gwybodaeth.

6.2.3 O safbwynt rhannu gwybodaeth yn y cyd-destun hwn, mae gwaith eisoes wedi digwydd a mwy ar y gweill. Mae dashfwrdd wedi'i ddatblygu sy'n rhoi gwybodaeth am y cleifion o Wynedd sydd yn ein hysbytai ar draws gogledd Cymru ac sy'n wybyddus i'r gwasanaethau cymdeithasol.

6.2.4 Mae'n cyfuno gwybodaeth o 'Warws Data' y Bwrdd Iechyd efo gwybodaeth o'n system ni, sef WCCIS. Felly, gellir gweld lleoliad ysbyty cleifion o Wynedd, ers pryd maent yn yr ysbyty, pryd mae disgwyl iddynt adael yr ysbyty, yr ardal y maent yn byw ynddi, pwy yw'r darparwr, faint o oriau o gefnogaeth maent yn ei dderbyn, a manylion y gweithiwr cymdeithasol. Mae'r wybodaeth ar gael ar sail is-ardal i'n gweithwyr cymdeithasol ac yn ehangach i staff y bwrdd iechyd. Rhennir y wybodaeth drwy egwyddorion a gweithdrefnau WASPI (Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru).

6.2.5 Dyma'r unig enghraifft o'i bath yng Nghymru, ac roedd yn un o brosiectau enghreifftwyr Comisiwn Bevan y llynedd.

6.2.6 Mae trafodaethau cynnar iawn ar y gweill i wella'r system hon ac i ehangu ar ein dulliau o rannu gwybodaeth, ond, gan ei bod yn ddyddiau cynnar, mae y tu hwnt i sgôp yr adroddiad hwn.

**6.3 Beth sydd wedi ei wneud neu bydd yn cael ei wneud i *atal* problemau rhag codi neu waethygu yn y dyfodol?**

6.3.1 Mae'r prosiect hwn yn cyfarch rhwystrau sy'n bodoli yn y system iechyd a gofal ar hyn o bryd, ac a fydd yn gwaethygu yn y dyfodol yn ôl ffigyrau adroddiad Llechen Lân oni bai ein bod yn gweithredu. Mae'r problemau a wynebwn eisoes wedi'u nodi yn yr adroddiad yma, a bydd y gwaith hwn yn mynd i'r afael â gwella'r system rhyddhau o'r ysbyty er mwyn sicrhau bod y claf yn cyrraedd adref/y gymuned yn amserol.

**6.4 Sut ydych wedi ystyried yr *hirdymor* a beth fydd anghenion pobl mewn blynyddoedd i ddod?**

6.4.1 Mae adroddiad Llechen Lân wedi rhoi sail gadarn i'r gwaith, gan dystiolaethu (fel sy'n cael ei grybwyll ar ddechrau'r adroddiad) bod y boblogaeth hŷn yn cynyddu, a bod y galw hefyd yn cynyddu o ganlyniad. Bydd gwneud y math yma o waith yn Ysbyty Gwynedd yn sicrhau bod gennym adnodd addas yn y lleoliad i fynd i'r afael â'r heriau yma ac yn gwneud y mwyaf o'r adnodd sydd gennym.

**6.5 Er mwyn sicrhau *integreiddio*, a ydych wedi ystyried yr effaith bosib ar gyrff cyhoeddus eraill?**

6.5.1 Fel sydd wedi'i grybwyll eisoes, rydym wedi bod yn cydweithio'n agos gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ond hefyd rydym yn cydweithio gyda nifer o sefydliadau trydydd sector sy'n gweithio yn Ysbyty Gwynedd megis Gofal a Thrwsio, Cynnal Gofalwyr ac ati. Mae'n hollbwysig ein bod yn cynnwys unrhyw sefydliad perthnasol sy'n ymwneud â siwrne'r claf yn ôl adref/i'r gymuned.

**7. Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol**

7.1 Mae Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi'i gwblhau ar ffurf drafft, ac rydym yn gobeithio ei gwblhau'n derfynol yn ystod y mis nesaf.

**8. Camau Nesaf**

8.1 Yn diweddar, yn gadarnhaol a pherthnasol iawn i gynnwys yr adroddiad yma, mae Cyngor Gwynedd wedi derbyn Grant Trawsnewid Llwybrau Gofal 2025 o £1,149,449. Diben y grant yw cefnogi gweithgarwch tuag at gynnal asesiadau amserol a darparu pecynnau gofal i sicrhau y gall pobl adael yr ysbyty pan fyddant wedi'u hoptimeiddio yn feddygol i wneud hynny, gan helpu i leihau lefel yr oedi sy'n digwydd wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty.

8.2 Hefyd, bydd y gronfa'n cael ei defnyddio i gryfhau gwasanaethau gofal cymunedol er mwyn helpu pobl i aros yn iach gartref. Dyma gyllid ar gyfer canolbwyntio ar gefnogi gwelliannau, a lle bo hynny'n briodol, ddatblygu neu gomisiynu gwasanaethau a systemau newydd neu estynedig sy'n helpu i fynd i'r afael â'r prif fannau lle mae'r oedi hwn yn digwydd.

8.3 Y bwriad gyda'r grant yma fydd:

- Cryfhau ein capasiti asesu ac adolygu, gan gynnwys yn yr ysbyty. Datblygu ein gwasanaeth gwybodaeth a chymorth i leihau'r gofyn am asesiad.
- Cynnal ac ehangu ein darpariaeth gofal cartref, yn enwedig mewn rhai ardaloedd heriol o Wynedd.
- Comisiynu gwelyau mewn cartrefi fel eu bod ar gael ar gyfer cyfnodau ysbaid a/neu 'step down' o'r ysbyty.
- Cydlynu newid diwylliant o fewn y timau gwaith cymdeithasol, yn cynnwys, hyfforddiant i'r gweithlu, trwyddedau AI er mwyn lleihau baich gweinyddol, peilota system gydlynu gwirfoddolwyr yn ein cymunedau.

8.4 Bydd y Grant hefyd yn ein galluogi ni i gydweithio gyda Iechyd a datblygu'r gweithlu i fabwysiadu'r dull Symud gydag Urddas. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu mewn modd sy'n blaenoriaethu urddas, annibyniaeth a diogelwch unigolyn wrth wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.

8.5 Rydym hefyd yn bwriadu cydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd i ddatblygu a gwella ein dulliau rhannu gwybodaeth.

**Gwybodaeth Gefndirol**

[Y gofal iawn, yn y lle iawn, y tro cyntaf: Chwe nod ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng]

[Cymru Iachach]

## Atodiadau

### Atodiad 1 Gwybodaeth gefndirol am StatsCymru

Yng Ngwynedd, rydym yn ystyried oedi cyn rhyddhau o'r ysbyty mewn cyd-destun nifer y dyddiau a nifer yr unigolion. Felly, wrth edrych ar ddadansoddiad StatsCymru o'r ffigyrau o gwmpas oedi cyn rhyddhau o'r ysbyty, mae ychydig o bethau i'w cadw mewn cof.

1. Cyfrifiad misol ydy o – mae'r wybodaeth am nifer y cleifion sy'n aros i gael eu rhyddhau o'r ysbyty yn digwydd ar drydydd dydd Mercher y mis. Felly, beth bynnag fo'r niferoedd ar y diwrnod hwnnw, a'r rhesymau dros yr oedi, dyna sy'n cael ei gyhoeddi. E.e. Ar drydydd dydd Mercher mis Gorffennaf 2025, roedd chwech o bobl yng Ngwynedd yn yr ysbyty, wedi'u hoptimeiddio'n feddygol ac felly'n barod i ddod adref, ond yn methu gan bod angen i weithiwr cymdeithasol gael ei glustnodi iddyn nhw
2. Mae'r wybodaeth yn cael ei chreu gan y Bwrdd Iechyd a'i gwirio gan y Cyngor
3. Nid yw'r wybodaeth yn ddiamwys
4. Mae ar gyfer Gwynedd gyfan, felly, nid oes modd adnabod tueddiadau lleol
5. Mae'r wybodaeth yn lefel uchel ac yn ddangosol, felly, mae'n amhosib gweithredu yn uniongyrchol ar y ffigyrau
6. Rhaid dwyn i gof y ffactorau eang ac amrywiol sy'n effeithio ac yn dylanwadu ar y niferoedd
7. Mae adroddiadau StatsCymru yn edrych ar ystod eang o ffactorau – maent wedi'u codio – e.e. aros am weithiwr cymdeithasol, materion tai a digartrefedd, asesiadau seiciatrig neu nyrsio, offer
8. Mae adroddiadau StatsCymru yn ystyried ardaloedd Cymru gyfan, rhai adroddiadau yn ôl ardal y Bwrdd Iechyd, ac eraill yn ôl Sir. Fodd bynnag, nid yw'n cymharu'r niferoedd gydag e.e. y boblogaeth yn yr ardal, felly, er mwyn gallu cymharu Gwynedd gyda siroedd eraill yn y modd hwn, buasai angen gwneud gwaith pellach.

**Gwybodaeth StatsCymru (dyfyniad o wefan StatsCymru)**

**Oedi yn achos llwybrau gofal – Disgrifiad cyffredinol**

Mae oedi wrth ryddhau cleifion yn digwydd pan na all claf sy'n barod yn glinigol i gael ei ryddhau adael yr ysbyty oherwydd nad yw'r gofal a'r cymorth parhaus angenrheidiol neu lety addas ar ei gyfer ar gael eto.
Mae'r data yn dangos nifer yr oedolion a oedd yn defnyddio gwely ysbyty'r GIG, a oedd yn ffit yn glinigol ac yn barod i ddychwelyd adref neu symud ymlaen i'r cam nesaf o ofal, a brofodd oedi wrth drosglwyddo o fwy na 48 awr y tu hwnt i'r pwynt yr oeddent yn ffit yn glinigol i gael eu rhyddhau. Mae 'cam nesaf o ofal' yn cyfeirio at bob cyrchfan y tu allan i ysbytai'r GIG.
Mae'r ffigurau yn rhoi cipolwg o'r achosion presennol o oedi sy'n cael eu gweld ar ddiwrnod penodol bob mis ledled Cymru. Nid ydynt yn adlewyrchu cyfanswm yr achosion o oedi a ddigwyddodd dros y mis.
Defnyddir y data i fonitro nifer yr achosion o oedi, a'r rhesymau dros yr achosion hynny, gan gynorthwyo partneriaid yn y GIG ac Awdurdodau Lleol i ddatblygu cynlluniau rhanbarthol gyda ffocws ar gamau gweithredu sy'n seiliedig ar ganlyniadau i leihau oedi wrth ryddhau ar

draws y system iechyd.

**Casgliad data a dull cyfrifo**

Mae data yn cael eu darparu gan Fyrddau Iechyd Lleol a'u dilysu ar y cyd â phartneriaid yn yr Awdurdodau Lleol.
Mae Oedi mewn Llwybrau Gofal yn gyfrifiad cipolwg o'r bobl sy'n profi oedi wrth eu rhyddhau a'r rheswm dros hynny ar bwynt penodol bob mis. Mae'n ofynnol i Fyrddau Iechyd echdynnu'r data o systemau lleol ar ddiwrnod y cyfrifiad bob mis, a dilysu'r oedi gyda phartneriaid yn yr Awdurdodau Lleol. Yn dilyn hynny, cofnodir cofnodion data drwy gyfrwng teclyn ar y we a'u cyflwyno i GIG Cymru.

# Asesu'r Effaith ar Bobl Gwynedd

Mae'r ddogfen yma yn asesu'r effaith fydd y polisi, gweithdrefn, cynllun ayb yn ei gael ar boblogaeth y sir ac yn gweithredu ar sail nifer o ddeddfau.

- **Deddf Cydraddoldeb 2010**. Mae'n rhoi dyletswydd ar fudiadau cyhoeddus i roi sylw dyledus i effaith unrhyw bolisi, weithdrefn, cynllun ayb newydd (neu wrth eu addasu) ar bobl â nodweddion gwarchodedig. Mae gofyn i ni
    - ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf.
    - hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.
    - meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

  Yng Nghymru mae'r ddyletswydd benodol yn nodi yr angen i wneud asesiad effaith yn dilyn canllawiau penodol i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Rhaid gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

- **Dyletswydd Economaidd-Cymdeithasol.** Mae Cymru wedi gweithredu'r ddyletswydd bellach yma sy'n ran o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi dyletswydd i fynd i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

- **Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.** Mae'n ofynnol i'r Cyngor ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.** Mae dyletswydd ar y Cyngor i roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac i ymateb i'r 7 nod llesiant cenedlaethol.

- **Deddf Lluoedd Arfog 2021.** Rhaid i Gynghorau roi sylw dyledus i effaith y cynnig hwn ar y rhai sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, ynghyd â'u teuluoedd.

**Awdur:** Manon Elwyn Owens (TA)

**Dyddiad:** 9/10/2025 12:00:00 AM

**Fersiwn:** Drafft 1

**CAM 1 - Prif Nodau ac Amcanion y Polisi neu'r Ymarfer**

**1. Sut fath o ddogfen neu weithdrefn sy'n cael ei asesu?**

Penderfyniadau sy'n effeithio ar ddefnyddwyr gwasanaeth, gweithwyr neu y gymuned ehangach yn cynnwys comisiynu/dad-gomisiynu neu adolygu gwasanaethau

**2. Beth yw nodau, amcanion a chanlyniadau arfaethedig y polisi neu'r ymarfer?**

Mae cydweithio gyda'r gwasanaeth iechyd yn un o flaenoriaethau Gwynedd Ofalgar ac un ffrwd gwaith yw cydweithio gyda hwy er mwyn sicrhau bod gofal i gleifion sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty

Cyhoeddwyd adroddiad gan Lywodraeth Cymru ar hyn yn ogystal ag adroddiad gan Benaethiaid Gwasanaethau Cymdeithasol yn ddiweddar sy'n ymateb i'r heriau ynghylch gofal yn dilyn rhyddhau o'r ysbyty.

Mae gofyn hefyd i'r Cyngor greu cynllun sy'n manylu beth fydd llwybr gofal rhai sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty ac mae'n rhaid adrodd yn flynyddol ar gynnydd i'r llywodraeth.

Mae mynediad i'r ysbyty yn ddigwyddiad arwyddocaol ym mywyd pob unigolyn, mae'n haeddu sylw a buddsoddiad digonol i sicrhau bod y profiad o adael yr ysbyty ac ymwneud â'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn brofiad cadarnhaol ac esmwyth ac y rhoi'r cychwyn gorau i'r daith o dderbyn unrhyw fath o ofal a chefnogaeth. I'r mwyafrif, dyma pryd mae unigolyn yn derbyn cyswllt gan y gwasanaethau cymdeithasol am y tro cyntaf a dyma pryd mae disgwyliadau yn cael ei gosod.

Hyd yma, grantiau tymor byr mae Gwynedd wedi'i dderbyn i ddiwallu'r galw cynyddol o'r ysbyty, sy'n rhwystro ein gallu i fuddsoddi mewn cynlluniau tymor hir i ddiwallu sefyllfa parhaus a chynyddol bryderus. Mae'r negeseuon a'r disgwyliadau gan amrywiol bapurau Llywodraeth Cymru yn datgan yn glir bod rhaid i awdurdodau lleol sicrhau pob ymdrech i gefnogi pobl i symud allan o'r ysbyty cyn gynted â phosibl a hynny heb fawr o adnodd ychwanegol. Daw'r disgwyliad yma gyda chost sylweddol, gan effeithio ar ein gallu i ddarparu cefnogaeth ehangach yn y gymuned. Gydag adnoddau a staffio yn cael eu hailgyfeirio i flaenoriaethu rhyddhau o'r ysbyty, mae gwasanaethau fel gofal ataliol, ymyrraeth gynnar, a chefnogaeth hirdymor i unigolion sy'n agored i niwed wedi wynebu straen cynyddol. Er i ni i gyd gydnabod bod rhyddhau o'r ysbyty yn flaenoriaeth, rhaid i ofal cymdeithasol hefyd allu darparu cefnogaeth ataliol a pharhaus. Heb y cydbwysedd hwn, gall y pwysau ar ysbytai leihau yn y tymor byr, ond gallai'r galw am ymyriadau argyfwng gynyddu, gan wneud y system yn llai cynaliadwy dros amser. Rydym felly wedi gorfod bod yn greadigol a chytbwys wrth drawsnewid y gwasanaeth a chyflwyno gwelliannau a newidiadau o fewn ein hadnoddau presennol.

**3. Pwy yw'r prif grwpiau ymgynghorol (budd-ddeiliaid)?**

Y prif grŵp ymgynghorol yw'r defnyddwyr gwasanaeth/cleifion sy'n derbyn ein gwasanaeth a gofal yn yr ysbyty.

Rydym hefyd yn ymgynghori'n barhaus gyda staff yr ysbyty a'r staff Gwasanaethau Cymdeithasol yn y Cyngor.

**CAM 2 - Data Ymgysylltu ac Asesu'r Effaith**

**4. Oes ymgais wedi ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd i ymgysylltu yn unol â'r hyn a ddisgrifir uchod ac oes digon o wybodaeth wedi ei gasglu i symud ymlaen?**

Oes

**Manylion yr ymgysylltu. Nodwch unrhyw ymgynghori neu ymgysylltu rydych chi wedi ei wneud neu yn bwriadu ei wneud**

| Gweithrediad | Dyddiadau | Gwybodaeth |
|---|---|---|
| **Gweithdy wedi'i gynnal gyda'r staff sy'n gweithio yn YG ar y prosiect** | **5/20/2025 12:00:00 AM** | **Cafodd aelodau'r timau gyfle i roi barn ar y prosiect, yn ogystal â be sy'n gweithio'n dda a be sydd ddim yn gweithio cystal.** |
| **Pwyllgor Craffu** | **9/25/2025 12:00:00 AM** | **Bydd y prosiect yn cael ei graffu ym Mhwyllgor Craffu Cyngor Gwynedd ym mis Medi.** |

**5. Pa wybodaeth sydd ar gael am yr effaith ar bob un o'r nodweddion a'r pynciau isod?**

| | **Tystiolaeth, Gwybodaeth a Data Perthnasol** | **Effaith Posib Gadarnhaol a/neu negyddol** |
|---|---|---|
| **Hil** | Dim. | Dim wedi'i adnabod hyd yma. |
| **Anabledd** | Mae'n destun pryder bod "10 diwrnod yn yr ysbyty yn arwain at gyfwerth â 10 mlynedd o heneiddio yng nghyhyrau pobl dros 80 oed." Mae'r niwed hwn a cholli annibyniaeth yn golygu bod pobl hŷn a bregus yn fwy tebygol o fod angen gofal a chefnogaeth i ddychwelyd adref, gan gynyddu'r pwysau ar ofal cymdeithasol a gwasanaethau cymunedol sydd eisoes dan bwysau.<br><br>Mae Adroddiad Llechen Lân yn pwysleisio'r angen i wneud camau rhagweithiol ac ataliol er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau cymdeithasol yn medru ymdopi gyda'r galw cynyddol am wasanaethau pobl hŷn a phobl anabl.<br><br>Ledled Gwynedd, mae 109 o unigolion eisiau cefnogaeth o'r newydd neu gynyddol. Mae cais am oddeutu hanner yr oriau yn dod o'r ysbyty ar gyfer oddeutu traean y bobl. | Rydym wedi gosod pedwar ymarferydd yn Ysbyty Gwynedd, yn cynrychioli pedwar o'r pump Tîm Adnoddau Cymunedol. Golyga hyn bod gwell strwythur ac ymwybyddiaeth llawer mwy lleol gan yr ymarferwyr ac felly gwell siawns o adnabod yr adnoddau amgen, cymunedol, trydydd sector, ac edrych tu hwnt i adnoddau statudol. Byddai cael Tîm ar wahân a phenodol i'r ysbyty yn colli'r ymwybyddiaeth a'r wybodaeth leol sydd mor angenrheidiol erbyn hyn.<br><br>Drwy sicrhau bod sgwrs gydweithredol yn digwydd rhwng y nyrs a'r claf, y teulu a'r ffrindiau (neu unrhyw weithiwr proffesiynol arall perthnasol), bydd hyn yn galluogi i'r tîm ganolbwyntio ar gryfderau ac adnoddau'r claf i'w cefnogi gyda be sy'n bwysig iddynt.<br><br>Bydd y prosiect yn cael effaith gadarnhaol ar bobl anabl gan eu bod yn cael gwell darpariaeth gofal a gwell gwasanaeth gan y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gyda'r bwriad o gael eu rhyddhau'n fwy amserol o'r ysbyty ac yn cael y budd o wasanaeth amlasianaethol ac wedi'i integreiddio. |
| **Rhyw** | Dim. | Dim wedi'i adnabod hyd yma. |
| **Oedran** | Mae Adroddiad Llechen Lân yn pwysleisio'r angen i wneud camau rhagweithiol ac ataliol er mwyn | Rydym wedi gosod pedwar ymarferydd yn Ysbyty Gwynedd, yn cynrychioli pedwar o'r pump Tîm Adnoddau |

| | | |
|---|---|---|
| | sicrhau bod y gwasanaethau cymdeithasol yn medru ymdopi gyda'r galw cynyddol am wasanaethau pobl hŷn a phobl anabl.<br><br>Ers 2011 tyfodd y boblogaeth dros 65 oed o 7.8% yng Ngwynedd. Edrydd Gofal Cymdeithasol Cymru fod gan Gymru yn gyffredinol fwy o bobl dros 85 na gweddill y Deyrnas Unedig a bod y nifer yn debyg o ddyblu ar draws Cymru erbyn 2045.<br><br>Ymhellach, eglura Cydffederasiwn GIG Cymru fod gan Gymru y nifer uchaf o bobl sydd â chyflyrau hirdymor cyfyngol neu gronig yn y Deyrnas Unedig, gyda'r niferoedd yn cynyddu yn gyflym (o 105,000 o bobl gyda chyflyrau hirdymor cyfyngol neu gronig yng Nghymru yn 2001/2 at 142,000 yn 2010/11) ac yn debygol o barhau i gynyddu wrth i'r boblogaeth heneiddio ymhellach.<br><br>Erbyn Cyfrifiad 2021 roedd dros 25,000 o bobl hŷn na 65 oed yng Ngwynedd, gydag oddeutu traean ohonynt dros 80 oed. O gymharu â Chymru mae 23.5% o bobl dros 65 oed yng Ngwynedd a 21.3% yng Nghymru.<br><br>Mae'r cynnydd hwn yn amlwg yn dod â'i heriau, gyda thebygolrwydd uchel y bydd mwy o alw am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae datblygiadau meddygol wedi gwella goroesiad pobl ond hefyd wedi arwain at anghenion mwy cymhleth. Yn gysylltiedig â'r boblogaeth sy'n heneiddio, mae cynnydd yn nifer y bobl sy'n byw gyda dementia a'r cyflwr yn gallu arwain at lawer o gymhlethdodau o ran gofal a chymorth sydd i rai yn effeithio ar drefniadau rhyddhau o'r ysbyty, yn arbennig | Cymunedol. Golyga hyn bod gwell strwythur ac ymwybyddiaeth llawer mwy lleol gan yr ymarferwyr ac felly gwell siawns o adnabod yr adnoddau amgen, cymunedol, trydydd sector, ac edrych tu hwnt i adnoddau statudol. Byddai cael Tîm ar wahân a phenodol i'r ysbyty yn colli'r ymwybyddiaeth a'r wybodaeth leol sydd mor angenrheidiol erbyn hyn.<br><br>Drwy sicrhau bod sgwrs gydweithredol yn digwydd rhwng y nyrs a'r claf, y teulu a'r ffrindiau (neu unrhyw weithiwr proffesiynol arall perthnasol), bydd hyn yn galluogi i'r tîm ganolbwyntio ar gryfderau ac adnoddau'r claf i'w cefnogi gyda be sy'n bwysig iddynt.<br><br>Bydd y prosiect yn cael effaith gadarnhaol ar bobl oedrannus gan eu bod yn cael gwell darpariaeth gofal a gwell gwasanaeth gan y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gyda'r bwriad o gael eu rhyddhau'n fwy amserol o'r ysbyty ac yn cael y budd o wasanaeth amlasianaethol ac wedi'i integreiddio. |

| | | |
|---|---|---|
| | unigolion nad sy'n gallu diwallu anghenion eu hunain a gwneud penderfyniadau am eu gofal ble mae angen penderfyniadau lles gorau a chyfranogiad Y Llys Gwarchod i drefnu eu gofal parhaus. Mae'r rhain yn brosesau dwys gyda fframwaith gyfreithiol ac felly'n cymryd mwy o amser i drefnu. | |
| **Crefydd a Chred** | Dim. | Dim wedi'i adnabod hyd yma. |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | Dim. | Dim wedi'i adnabod hyd yma. |
| **Ail-bennu rhywedd** | Dim. | Dim wedi'i adnabod hyd yma. |
| **Priodas a Phartneriaeth Sifil** | Dim. | Dim wedi'i adnabod hyd yma. |
| **Beichiogrwydd a Mamolaeth** | Dim. | Dim wedi'i adnabod hyd yma. |
| **Iaith Gymraeg** | Dim. | Dim wedi'i adnabod hyd yma. |
| **Ystyriaethau Economaidd Gymdeithasol** | Mae'r prosiect hwn yn sicrhau bod cleifion yn medru mynd adref yn gynt i'w cymuned, yn atal unigrwydd posib, yn sicrhau eu bod yn gallu bod yn rhan o'u cymuned cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib, ac yn cael derbyn cefnogaeth ar lefel mwy leol drwy ymyraethau a mentrau lleol e.e. Dementia Actif, hybiau cymunedol.<br><br>Mae elfen arall hefyd i'w nodi sef bod y ymarferwyr/gweithwyr cymdeithasol yn mynd i ymweld â'r cleifion sydd o fewn eu hardal waith, ac felly'n medru cynnig tamaid o adref iddyn nhw drwy drafod be sydd ar gael yn eu hardal, unrhyw ddiweddariadau lleol ac ati. | Rydym wedi gosod pedwar ymarferydd yn Ysbyty Gwynedd, yn cynrychioli pedwar o'r pump Tîm Adnoddau Cymunedol. Golyga hyn bod gwell strwythur ac ymwybyddiaeth llawer mwy lleol gan yr ymarferwyr ac felly gwell siawns o adnabod yr adnoddau amgen, cymunedol, trydydd sector, ac edrych tu hwnt i adnoddau statudol. Byddai cael Tîm ar wahân a phenodol i'r ysbyty yn colli'r ymwybyddiaeth a'r wybodaeth leol sydd mor angenrheidiol erbyn hyn.<br><br>Drwy sicrhau bod sgwrs gydweithredol yn digwydd rhwng y nyrs a'r claf, y teulu a'r ffrindiau (neu unrhyw weithiwr proffesiynol arall perthnasol), bydd hyn yn galluogi i'r tîm |

| | | |
|---|---|---|
| | | ganolbwyntio ar gryfderau ac adnoddau'r claf i'w cefnogi gyda be sy'n bwysig iddynt.<br><br>Bydd y prosiect yn cael effaith gadarnhaol ar ystyriaethau economaidd-gymdeithasol oherwydd bod cleifion yn cael gwell darpariaeth gofal a gwell gwasanaeth gan y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gyda'r bwriad o gael eu rhyddhau'n fwy amserol o'r ysbyty ac yn cael y budd o wasanaeth amlasianaethol ac wedi'i integreiddio. |
| **Y Rhai Sy'n Gwasanaethu Neu Sydd Wedi Gwasanaethu Yn Y Lluoedd Arfog, Ynghys a'u Teuluoedd** | Dim. | Dim wedi'i adnabod hyd yma. |
| **Hawliau Dynol** | Dim. | Dim wedi'i adnabod hyd yma. |
| **Arall** | Dim | Dim |

**6. Oes yna unrhyw fylchau data neu wybodaeth ac os felly beth yw'r rhain a sut y bwriedir ymdrin ag hwy?**

Mae ystyriaeth wrthi'n cael ei roi i'r data sydd angen cael ei gasglu a'i gofnodi fel rhan o'r prosiect hwn, ac mae dashfwrdd wrthi'n cael ei greu i'r diben o gasglu data am y cleifion sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty.

**7. Wrth ystyried penderfyniadau allweddol eraill sy'n effeithio ar y grwpiau hyn, oes yna effaith gynyddol (effaith gronnus)?**

Nid oes effaith gynyddol yma.

**8. Beth mae'r cynnig yn ei gynnwys i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach) fel y mae'r 3 nod y Ddyletswydd Gyffredinol yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn eu cwmpasu?**

Mae'r prosiect hwn yn hyrwyddo cyfle cyfartal drwy sicrhau bod cleifion yn dychwelyd i'r lle maen nhw isio bod yn hirdymor – boed hynny'n golygu dychwelyd i'w cartref neu fynd i ofal preswyl neu nyrsio. Mae cwblhau asesiad Be sy'n Bwysig gyda'r claf yn yr ysbyty, i ddeall eu cryfderau a'r hyn sy'n bwysig yn eu bywyd, yn sicrhau eu bod yn cael cyflawni'r deilliannau sy'n bwysig iddyn nhw yn eu bywyd, gan hefyd dderbyn gofal cymesur a phriodol ar amser addas.

**9. Sut mae'r cynnig yn dangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i fynd i afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwer fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig)**

Mae mecanweithiau ar waith i sicrhau nad oes unrhyw anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae bob claf yn derbyn asesiad Be sy'n Bwysig a gwneir pob ymdrech i gyflawni deilliannau'r claf, waeth beth fo'u dymuniad. Mae'r Cyngor hefyd yn rhoi cefnogaeth ariannol i gleifion sydd angen gofal preswyl yn ddibynnol ar eu sefyllfa unigol.

**10. Sut mae'r cynnig yn dangos gweithredu yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i beidio a thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac i sicrhau cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg? Hefyd sut y gweithredir yn unol â pholisi a strategaeth iaith y Cyngor i fanteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?**

Nid yw'r prosiect yn mynd yn groes i Safonau'r Gymraeg, ac mae pob claf yn cael eu trin yn deg waeth beth fo'u hiaith. Mae pob claf hefyd yn cael cynnig derbyn asesiad Be sy'n Bwysig yn yr iaith a ffefrir ganddynt, gyda staff y Cyngor yn Ysbyty Gwynedd yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg.

**11. Sut mae'r cynnig hwn yn diwallu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac yn ymateb i'r 7 nod llesiant cenedlaethol gan gynnwys creu Cymru sy'n Fwy Cyfartal?**

Gan mai treialu ffordd newydd o weithio yr ydym wedi bod yn ei wneud, nid ydym wedi ymgynghori'n ffurfiol gyda defnyddwyr gwasanaeth hyd yma, ond mae'r rheini sydd wedi bod yn gleifion yn Ysbyty Gwynedd wedi cael profi'r ffordd newydd o weithio drwy gael eu hasesu gan ymarferydd/gweithiwr cymdeithasol a chael profiad gwell yn yr ysbyty er mwyn eu rhyddhau'n fwy amserol.

Mae'r prosiect hwn yn cyfarch rhwystrau sy'n bodoli yn y system iechyd a gofal ar hyn o bryd, ac a fydd yn gwaethygu yn y dyfodol yn ôl ffigyrau adroddiad Llechen Lân oni bai ein bod yn gweithredu. Mae'r problemau a wynebwn eisoes wedi'u nodi yn yr adroddiad yma, a bydd y gwaith hwn yn mynd i'r afael â gwella'r system rhyddhau o'r ysbyty er mwyn sicrhau bod y claf yn cyrraedd adref/y gymuned yn amserol.

Mae adroddiad Llechen Lân wedi rhoi sail gadarn i'r gwaith, gan dystiolaethu (fel sy'n cael ei grybwyll ar ddechrau'r adroddiad) bod y boblogaeth hŷn yn cynyddu, a bod y galw hefyd yn cynyddu o ganlyniad. Bydd gwneud y math yma o waith yn Ysbyty Gwynedd yn sicrhau bod gennym adnodd addas yn y lleoliad i fynd i'r afael â'r heriau yma ac yn gwneud y mwyaf o'r adnodd sydd gennym.

Fel sydd wedi'i grybwyll eisoes, rydym wedi bod yn cydweithio'n agos gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ond hefyd rydym yn cydweithio gyda nifer o sefydliadau trydydd sector sy'n gweithio yn Ysbyty Gwynedd megis Gofal a Thrwsio, Cynnal Gofalwyr ac ati. Mae'n hollbwysig ein bod yn cynnwys unrhyw sefydliad perthnasol sy'n ymwneud â siwrne'r claf yn ôl adref/i'r gymuned.

**CAM 3 - Caffael a Phartneriaethau**

**12. A fydd y polisi neu'r ymarfer hwn yn cael ei gyflawni'n llwyr neu'n rhannol gan gontractwyr neu mewn partneriaeth â sefydliad(au) eraill?**

Bydd.

**Pa gamau fydd yn cael eu cymryd i gydymffurfio â'r Ddyletswydd Gydraddoldeb Gyffredinol, Hawliau Dynol a deddfwriaeth yr iaith Gymraeg a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol o ran caffael a / neu partneriaethau?**

**Caffael:**

Amherthnasol.

**Partneriaeth:**

Rydym yn cydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd ar y prosiect hwn. Mae gan y Bwrdd Iechyd ymrwymiad i gydymffurfio â'r deddfwriaethau perthnasol.

Rydym wedi ymgynghori a chydweithio'n barhaus gydag aelodau allweddol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, gan gynnwys staff Swyddfa Adref yn Gyntaf, Hwyluswyr Rhyddhau o'r Ysbyty, a swyddogion ac uwch reolwyr strategol a gweithredol. Yn wir, mae'r gwaith o'r dechrau un wedi bod yn gywaith rhyngom fel Cyngor a Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, gan weithredu'n integredig er mwyn rhoi'r dinesydd yn ganolog i'r gwaith a sicrhau ein bod yn llwyddo.

Yn ogystal, mae'r Timau Adnoddau Cymunedol wedi bod yn rhoi eu barn am y gwaith yn ôl yr angen, gan sicrhau mewnwelediad amserol a chymesur i'r angen a'r galw.

Yn ddiweddar rydym wedi bod yn cynnal cyfres o gyfarfodydd a gweithdai ar gyfer y swyddogion sy'n gweithio ar y prosiect newydd, gan ofyn eu barn am fanteision ac anfanteision y ffordd newydd o weithio, yn ogystal â gofyn am syniadau newydd neu unrhyw welliannau maen nhw'n gallu meddwl amdanynt. Rydym wedi cael adborth cadarnhaol gan bawb hyd yma, yn ogystal â syniadau am ffyrdd fwy effeithlon o weithredu'r model.

Mae'n bwysig nodi bod gwneud hyn nid yn unig wedi gwella'r ffordd o weithio, ond mae hefyd wedi hybu morâl y staff, sydd wedi bod o dan lawer o bwysau cyson i gyfarch y galw ers rhai misoedd, os nad blynyddoedd. Yn ei dro, mae diwylliant y timau a'r tîm sy'n rhan o'r prosiect wedi trawsnewid i fod yn ddiwylliant llawer mwy cadarnhaol, gyda throsolwg mwy ffres ar y gwaith.

**CAM 4 - Ymdrin ag Effaith Negyddol neu Anghyfreithlon a Chryfhau'r Polisi neu'r Ymarfer**

**13. Wrth ystyried cymesuredd, a yw'r polisi neu'r ymarfer yn achosi effaith gadarnhaol neu negyddol sylweddol neu'n creu canlyniadau anghyfartal?**

**Effaith Gadarnhaol Sylweddol:**

Un o brif amcanion ein gwaith ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd yw sicrhau bod pobl yn dod adref o'r ysbyty ar yr amser sy'n briodol, efo'r gefnogaeth briodol, er mwyn osgoi cymhlethdodau sy'n cyfrannu at ddirywiad yng nghyflwr bywyd ein trigolion ac yn cynyddu'r galw am gefnogaeth yn y gymuned.

Ystyrir bod cyswllt y pedwar ymarferydd â'r TAC yn golygu bod modd iddynt ddilyn achosion drwodd o'r ysbyty i'r gymuned. Y gobaith yw bydd unigolion yn gadael yr ysbyty yn brydlon, llai o siawns iddynt ddirywio ac felly yr anghenion gofal yn llai neu'n fwy cymesur i'r anghenion, sy'n osgoi gor-ddarpariaeth a chreu dibyniaeth rhy gynnar. Mae'r prosiect hwn yn creu effaith gadarnhaol sylweddol ar drigolion Gwynedd drwy sicrhau eu bod yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty yn amserol, yn cael y gofal iawn ar yr amser iawn gan y person iawn, ac yn cael darpariaeth gofal gwell.

**Effaith Negyddol Sylweddol:**

Wedi pwyso a mesur, ni ystyrir y bydd effaith negyddol sylweddol nag unrhyw ganlyniadau anghyfartal yn sgil y prosiect hwn.

**14. Dylid egluro unrhyw effaith negyddol bwriadol a pham y credir fod cyfiawnhad dros weithredu fel hyn (er enghraifft, ar sail gwella cyfle cyfartal neu fagu perthnasau da rhwng y sawl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r sawl sydd ddim neu oherwydd cyfiawnhad gwrthrychol neu weithred gadarnhaol**

Dim wedi'u rhagweld. Mae'r gwaith yn bwriadu gwella profiadau cleifion yn yr ysbyty drwy wella eu siwrne o'r ysbyty ac i leoliad addas a diogel.

**15. A fydd unrhyw un o'r effeithiau negyddol a nodwyd yn cyfrif fel gwahaniaethu anghyfreithlon ond eu bod yn anorfod (e.e. lleihau cyllid)?**

Na fydd.

**Noder y rheswm dros ddweud hynny a'r cyfiawnhad dros barhau**

Amherthnasol.

**16. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach; fel yr ymdrinnir â nod wella yn Nyletswydd Gyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010?**

Mae hyrwyddo cyfle cyfartal, a meithrin chydlyniant cymunedol wrth wraidd y prosiect hwn. Yn wir rydym yn edrych ar ein harferion a'n diwylliant mewnol wrth ystyried darparu gofal a chefnogaeth, gydag ymdrech symud i ffwrdd o arferion 'traddodiadol'. Gellir dadlau bod pecyn gofal cartref yn gallu bod yn 'unffurf' ac anhyblyg.

Mae'r adroddiad ei hun yn manylu ar y cwestiwn yma.

**17. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?**

Fel sydd wedi'i grybwyll eisoes, rydym wedi bod yn cydweithio'n agos gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ond hefyd rydym yn cydweithio gyda nifer o sefydliadau trydydd sector sy'n gweithio yn Ysbyty Gwynedd megis Gofal a Thrwsio, Cynnal Gofalwyr ac ati. Mae'n hollbwysig ein bod yn cynnwys unrhyw sefydliad perthnasol sy'n ymwneud â siwrne'r claf yn ôl adref/i'r gymuned.

**18. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a lleihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gall y polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?**

Mae holl staff y TAC yn siaradwyr Cymraeg rhugl ac yn gallu rhoi gwasanaeth dwyieithog i unrhyw glaf.

**19. A oes digon o wybodaeth i lunio barn gytbwys a symud ymlaen?**

Oes.

**CAM 5 - Penderfynu Mynd Ymlaen**

**20. O ystyried yr wybodaeth sydd wedi'i chasglu yng Nghamau 1-4, ydi hi'n bosib symud ymlaen â'r polisi neu'r ymarfer ai peidio, ac os felly, ar ba sail? Dewis o:**

Parhau â'r polisi neu'r ymarfer yn ei ffurf bresennol

**CAM 6 - Camau Gweithredu a Threfniadau i Fonitro Canlyniadau ac Adolygu Data**

Mae'r broses AEC yn un barhaus ac nid yw yn dod i ben pan fo'r polisi/ymarfer a'r AEC wedi'u cytuno a'u gweithredu. Mae dyletswydd gyfreithiol benodol i fonitro effaith y polisïau/ymarferion ar gydraddoldeb ar sail barhaus i adnabod a yw'r canlyniadau wedi newid ers i chi gyflwyno neu addasu'r polisi neu ymarfer newydd hwn. Os nad yw'r data perthnasol gennych chi, dylech fod yn gweithredu i gywiro hyn yn eich cynllun gweithredu. I weld canllawiau EHRC ar gasglu data gallwch adolygu eu Fframwaith Fesur

**21. Pa gamau gweithredu a nodwyd yng Nghamau 1-5 neu unrhyw waith casglu data ychwanegol fydd o gymorth i fonitro'r polisi / ymarfer pan gaiff ei weithredu:**

| Gweithrediad | Dyddiadau | Amserlen | Cyfrifoldeb Arewiniol | Ychwanegu i'r Cynllun Gwasanaeth |
|---|---|---|---|---|
| Parhau i gyfathrebu â staff YG a staff y TAC i sicrhau bod data ansoddol ac | Parhaus. | Parhaus. | Rheolwyr Prosiect a Phennaeth Cynorthwyol Oedolion | Na |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| anecdotaidd yn cael ystyriaeth lawn a theg. | | | | |
| Dashfyrddau Data yn cael eu monitro a'u cynnal yn rheolaidd i gadw llygad ar gynnydd, rhwystrau ac unrhyw fylchau | Parhaus. | Parhaus. | Rheolwyr Prosiect a Phennaeth Cynorthwyol Oedolion | Na |

**22. Pa drefniadau i fonitro ac adolygu effaith barhaus y polisi neu'r ymarfer hwn fydd yn cael eu gweithredu, gan gynnwys amserlenni ar gyfer pryd y dylid ei adolygu'n ffurfiol:**

| **Trefniadau Monitro ac Adolygu** (gan gynnwys lle fydd y canlyniadau'n cael eu cofnodi) | **Amserlen ac Amlder** | **Cyfrifoldeb Arweiniol** | **Ychwanegu i'r cynllun Gwasanaeth** |
|---|---|---|---|
| Dashfwrdd data | Parhaus. | Rheolwyr Prosiect a Phennaeth Cynorthwyol | Na |

| | |
|---|---|
| CYFARFOD | Pwyllgor Craffu Gofal |
| DYDDIAD | 25/09/2025 |
| TEITL | Cydweithio efo'r Gymuned |
| RHESWM DROS GRAFFU | Blaengraffu / Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Ofalgar |
| AWDUR | Bethan Williams, Rheolwr Cefnogi Iechyd a Llesiant, Oed Gyfeillgar |
| AELOD CABINET | Cyng Dilwyn Morgan |

## 1. Pam fod angen ei graffu?

*Blaen graffu peilot o ddarparu cefnogaeth ataliol sy'n ceisio cael datrysiadau amgen i gefnogi pobl yn eu hardal a chryfhau gwydnwch cymunedol.*

*Er mwyn rhoi barn ar y cynllun peilot ac a ddylid ystyried ei ymestyn i ardaloedd eraill.*

## 2. Beth yn union sydd angen ei graffu?

- A yw'r model peilot wedi cryfhau cydweithio a gwydnwch cymunedol?
- Beth yw'r elfennau ataliol ac ôl-ofal sydd wedi bod yn llwyddiant a pha rai sydd heb weithio cystal?
- A ddylid ei ymestyn i ardaloedd eraill ac a oes adnoddau priodol ar gael ar gyfer hynny?
- Beth yw rôl aelodau etholedig yn y cynllun?

## 3. Cefndir / Cyd-destun

Mae'r gwaith yma wedi ei leoli yn Nyffryn Nantlle, ac yn syniad sydd wedi ei feithrin a'i ddatblygu gan unigolion a sefydliadau sy'n gweithio yn yr ardal yn barod. Drwy ddod at eu gilydd i gyd drafod a rhannu gwybodaeth cafodd datganiad o bwrpas ei gytuno gyda'r nod o gydweithio yn yr ardal leol i ddatblygu ffordd newydd o ddarparu gwasanaethau iechyd a llesiant ar lefel gymunedol—ffordd sy'n ymwneud â meithrin perthnasoedd cryfach rhwng pobl, gwasanaethau ac unigolion.

Mae'r ffordd yma o weithio'n dod ag asiantaethau, grwpiau cymunedol, ac unigolion sy'n cefnogi lles cymunedol at eu gilydd mewn partneriaeth gydweithredol. Drwy weithio gyda'u gilydd, mae nhw'n sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar y cymorth cywir pan maen nhw ei angen. Mae'r model hwn yn seiliedig ar egwyddorion syml ond pwerus:

- cynnal sgyrsiau agored a phwrpasol
- meithrin perthnasoedd
- rhannu adnoddau'n greadigol
- defnyddio cysylltiadau ac arbenigedd ein gilydd

Mae'n symud oddi wrth weithredu ar sail gwasanaethau unigol, i greu rhwydwaith sy'n gweithio gyda'i gilydd i wella ansawdd bywyd a lles pawb.

Y nod yw creu cymuned lle mae pobl wir yn deall anghenion lleol, yn gweithio ar y cyd i fynd i'r afael â nhw, ac yn canolbwyntio ar gryfderau yn hytrach na gwendidau. Mae'r dull hwn yn esblygu drwy ddysgu ac yn addasu'n barhaus, gan sicrhau ei fod yn aros yn berthnasol ac yn effeithiol. Mae hyn yn fwy na darparu gwasanaethau'n unig—mae'n ymwneud â chreu amgylchedd ffyniannus a chefnogol lle mae cydweithio'n arwain at arloesi a chanlyniadau gwell. Mae'n fodel ysbrydoledig ac effeithiol i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ac i'r gymunedau fel ei gilydd, gan gynnig cynllun ar gyfer cymunedau iachach a mwy cysylltiedig.

Mae cysylltiad amlwg gyda'r flaenoriaeth i greu Gwynedd Ofalgar o fewn Cynllun y Cyngor a'r prosiect Cefnogi Llesiant pobl o fewn y rhaglen honno.

*'Mae rhai trigolion yn ei chael hi'n anodd i ymdopi gyda heriau bywyd ac mae sefyllfa nifer o drigolion wedi gwaethygu yn sgil yr argyfwng costau byw. Mae'r trigolion hyn angen cefnogaeth i ymdopi, i ffynnu, i fod yn ddiogel, ac i gadw'n iach.*
*Mae gennym rwydwaith eang drwy ein cymunedau sy'n helpu ac yn cefnogi trigolion i ymdopi ac yn ymateb i'w hanghenion amrywiol. Mae'r rhwydwaith honno angen cefnogaeth i gynnal yr ymdrech gwirfoddol hwnnw, a byddwn yn gweithio i gryfhau'r gwaith hanfodol yma dros y blynyddoedd nesaf.'*

## 4. Ymgynghori

Mae ymgynghori yng nghyd destun y gwaith hwn wedi digwydd ar sawl haen ond hoffwn amlinellu y tri digwyddiad canlynol fel camau allweddol sydd wedi gosod sylfaen i'r gwaith yn Nyffryn Nantlle:

### Ymgynghoriad 'Getting Ready' – The National Development Team for Inclusion:

Rhwng Mawrth ac Ebrill 2023 comisiynwyd The National Development Team for Inclusion gan Menter Môn, ar ran Cyngor Gwynedd, i ymgymryd â darn o waith o'r enw 'Getting Ready' yn ardal adfywio Bro Lleu sy'n canolbwyntio ar Ddyffryn Nantlle a Phenygroes. Y nod cyffredinol oedd i ystyried os oedd sail ac awydd lleol i fod yn datblygu ffyrdd i 'helpu pob i fyw bywyd da yn eu cymuned', a hynny dan arweiniad gwirioneddol gymunedol.

Byddai'r ymarferiad 'Getting Ready' yn galluogi'r tîm or National Development Team for Inclusion i ddeall i ba raddau roedd ymdrechion wedi'u cysoni ac i ystyried sut y gellid cryfhau a gwella cysylltiadau rhwng rhanddeiliaid. Cynhaliwyd cyfres o sgyrsiau efo rhanddeiliaid lleol.

Nodir prif ganfyddiadau'r gwaith isod:

- *Roedd ymdeimlad o ysbryd a balchder cymunedol yn disgleirio trwy bob sgwrs.*
- *Roedd parodrwydd i ddeall sut i wneud pethau'n wahanol er mwyn gwella bywydau dinasyddion, profiad a pherthnasoedd staff yn lleol.*
- *Gweithio mewn partneriaeth ac arweinyddiaeth gref yn amlwg ar sawl lefel.*
- *Dulliau gwych ac enghreifftiau o gyd gynhyrchu gyda chymunedau lleol y gellir eu hefelychu a'u modelu fel rhan o unrhyw waith I'r dyfodol.*

- *Roedd neges gyson am ffrydiau cyllido tymor byr ac angen ymrwymiad hirach i adeiladu sefydlogrwydd a gwytnwch tymor hwy.*
- *Mae cyfle i adeiladu ar y gwaith sydd wedi digwydd hyd yma, i ehangu diwylliant o ymarfer ar sail cryfderau ar draws pob tîm, gwasanaeth a phartner gyda phrosesau a systemau cyson gan bawb.*

Gellir gweld copi llawn or adroddiad 'Getting Ready' yn Atodiad 1

<u>Gweithdai Adrannau:</u>

Yn nhymor yr Hydref 2023, cyflwynwyd her ir Pennaeth Cynorthwyol Cefnogi Pobl gan y Tim Arweinyddiaeth.

Nodwyd fod yna drigolion sy'n ceisio gwasanaethau'r Cyngor am eu bod mewn angen, ac ar hyn o bryd yn gorfod ceisio ymateb o sawl drws ffrynt a gwasanaeth sy'n ei gwneud yn gymhleth ag anodd iddynt. Cafwyd cais i ddod ag adrannau allweddol at eu gilydd i adnabod opsiynau ar gyfer sut/be all y cyngor ei wneud i gefnogi neu helpu trigolion Gwynedd pan mae nhw mewn angen a'i gwneud yn haws iddynt gael y gefnogaeth maent eu hangen o fewn a thu allan I'r cyngor.

Cynhaliwyd cyfres o 4 gweithdy gyda chynrychiolaeth o wasanaethau Plant a Chefnogi Teuluoedd, Oedolion Iechyd a Llesiant, Tai ac Eiddo, Cyllid (Budd-daliadau), Economi a Chymuned, Cefnogaeth Gorfforaethol (Galw Gwynedd).

Yn dilyn y gweithdai, cafwyd cytundeb i weithio ar y canlynol:

1. Gwella'r cyswllt rhwng gwasanaethau'r cyngor ar hyn sy'n digwydd yn lleol. Angen hwyluso hyn, rhywun sy'n adnabod y gymuned ac yn adnabod staff yn dda.
2. Sgiliau 'sgyrsiau craidd'/'sgyrsiau cydweithredol' ar gyfer holl staff y cyngor.
3. Egwyddorion craidd ar gyfer helpu pobl sy'n cael eu arddel ar draws gwasanaethau.
4. Gwella perthynas gwasanaethau'r cyngor efo'i gilydd, dod i nabod ein gilydd a deall gwaith y naill a'r llall yn well.

A chafwyd ymrwymiad i wneud y canlynol:

1. 'Getting Ready' Dyffryn Nantlle – parhau gyda'r gwaith hwn er mwyn adeiladu ar y canfyddiadau. Cytunwyd i enwebu aelodau staff o bob gwasanaeth i fod yn rhan or gwaith.
2. Rhaglen hyfforddiant i'w gynnig i staff a phartneriaid gan gynnwys 'Edrych ar ôl fy Hun' i gefnogi gwytnwch staff a phartneriaid wrth gefnogi pobl a 'Sgyrsiau Da' i ddatblygu sgiliau er mwyn cyfoethogi staff a phartneriaid i gynnal sgyrsiau ar sail cryfderau efo pobl.
3. Gweithdai Chwarterol Adrannol – cytundeb i barhau efo trefniadau i ddod at ein gilydd i gadw cysylltiadau'n fyw a dysgu am yr hyn mae ein gwasanaethau yn ei wneud i helpu pobl.

Mae copi o gynnwys y gweithdai rhain ar gael petaech yn dymuno cael mynediad atynt.

Cyfarfodydd Tîm Lles Nantlle:

Fel dilyniant i'r ddau ddarn gwaith uchod mae grŵp o bartneriaid yn ardal Dyffryn Nantlle wedi bod yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd i gydweithio er mwyn adeiladu ar argymhellion yr adroddiad 'Getting Ready' ac i gytuno ar weledigaeth leol wedi'i chyd-gynhyrchu i ddod a ffocws a phwrpas i'r gwaith i'r dyfodol. Amlinellir y weledigaeth/pwrpas hon yn pwynt 3 uchod. Mae'r grŵp (Tim Lles Nantlle) wedi bod yn cwrdd bob 4-6 wythnos ers mis Mai 2024 i lunio'r weledigaeth a pwrpas, dod i adnabod eu gilydd a maes gwaith y naill ar llall yn well ac i adnabod cyfleon i gefnogi'r gwaith yn ariannol neu drwy garedigrwydd fel partneriaeth.

5. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

a.) A ydych wedi **cynnwys** trigolion / defnyddwyr gwasanaeth? Os ddim, pryd a sut ydych yn bwriadu ymgynghori â nhw?

Nid oes yna ymgynghori ffurfiol efo pobl leol wedi ei gynnal drwy waith y grŵp ond, mae'n hanfodol i nodi fod ymgynghori a phartneriaid a rhanddeiliaid wedi bod yn sylfaen I'r gwaith fel a nodwyd yn pwynt 4 uchod. Mae hefyd yn bwysig nodi fod yr ymarferwyr sy'n rhan or gwaith yn eirioli dros bobl ac yn rhannu eu profiadau o dderbyn neu aros am wasanaeth yn y byd iechyd a gofal. Mae rhai or ymarferwyr a'r rhanddeiliaid yn drigolion lleol sy'n agos at bobl a chyda dealltwriaeth gyfoethog o brofiadau pobl ar lawr gwlad.

Fel rhan o'r gwaith penodwyd swyddog i gydlynu'r gwaith yn lleol. Rhan allweddol o rôl y Cydlynydd Llesiant fydd ymgysylltu a chynnwys trigolion – amlinellir hyn yn ei swydd ddisgrifiad. Mae defnyddio a chlywed lleisiau trigolion fel rhan o ddysgu, datblygu a gwerthuso y gwaith hefyd am fod yn ganolog I'r ffordd o weithio. Cyfeirir at hyn ymhellach ym mhwynt 8 gyda chyfle i ddarllen gwybodaeth bellach drwy ddilyn linc yno.

b.) A ydych wedi ystyried **cydweithio**?

Mae cydweithio yn greiddiol I'r gwaith. Mae cyfrifoldebau, cynlluniau, penderfyniadau yn rhai sy'n cael eu rhannu a'u gwneud/cymryd ar y cyd. Mae ymrwymiad gwirioneddol gan yr holl bartneriaid i gydweithio. Mae yna gyd berchnogaeth or gwaith ac fel amlinellwyd yn yr adroddiad 'Getting Ready,' roedd gweithio mewn partneriaeth ac arweinyddiaeth gref yn amlwg ar sawl lefel.

'*Dwi ddim wedi mynychu cyfarfodydd ble mae cymaint o bobl yn dod at eu gilydd, ac yn dal i ddod.'*
*(Cynghorydd Craig ap Iago)*

c.) Beth sydd wedi ei wneud neu bydd yn cael ei wneud i **atal** problemau rhag codi neu waethygu yn y dyfodol?

Mae’r gwaith yma yn gyfle i roi model ar waith lle bydd pawb yn cydweithio er lles pobl Dyffryn Nantlle. Byddwn yn atgyfnerthu'r hyn sydd eisoes yn gweithio, gwneud cysylltiadau o fewn ac ar draws y system iechyd, cymunedol a gofal cymdeithasol, cyfuno arfer da a chryfhau synnwyr cyffredin, grymuso ac ymddiriedaeth. Mae’r weledigaeth leol i ddysgu, datblygu ac adnabod rhwystrau a datrysiadau ar y cyd yn lleol yn elfen allweddol ir gwaith er mwyn medru adnabod, ac fel bo’n briodol, atal problemau.

ch.) Sut ydych wedi ystyried yr hirdymor a beth fydd anghenion pobl mewn blynyddoedd i ddod?

Mae defnyddio data a thystiolaeth drwy amryw o wahanol ddulliau wedi cael sylw’r partneriaid ac mae ymrwymiad  i ddysgu efo’i gilydd drwy ddefnyddio data. Mewn un o’r gweithdai cafwyd cyfle i ystyried y mathau o ddata ansoddol y gellir ei ystyried, a sut i gael mynediad ato. Cafwyd cyfle drwy gydweithio efo’r tîm Ymchwil a Dadansoddeg i edrych ar y data lleol mwyaf diweddar i gael mewnwelediad i feysydd megis Iechyd ac Anabledd, Gofalwyr Di -Dal, Amddifadedd ac Effeithlonrwydd Tai. Mae yna ddealltwriaeth o’r pwysigrwydd o ddefnyddio’r data ar hyn yr ydym yn ei ddysgu ohono er mwyn teilwra a datblygu cefnogaeth i dargedu anghenion lleol

d.) Er mwyn sicrhau **integreiddio**, a ydych wedi ystyried yr effaith bosib ar gyrff cyhoeddus eraill?

Mae cyrff cyhoeddus eraill wedi bod yn rhan allweddol or gwaith o’r cychwyn. Mae Adra, Grŵp Cynefin, Iechyd Cyhoeddus a Gofal Cychwynnol wedi bod yn bartneriaid allweddol yn y gwaith. Mae diddordeb ar lefel strategol o fewn y Bwrdd Iechyd gyda’r  Prif Weithredwr Dyfed Edwards wedi bod yn rhan o ddau weithdy a gyda’i ymrwymiad i fod yn rhan o weithdy pellach ar y 6ed o Hydref a fydd yn cael ei hwyluso gan swyddogion o Iechyd Gyhoeddus. Gellir gweld sylwadau partneriaid sydd wedi bod yn rhan or gwaith yn Atodiad 2.

## 6. Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a’r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

Nid oes asesiad effaith wedi ei gwblhau.
Mae gweithdai/cyfarfodydd Lles Nantlle wedi eu cynnal yn y Gymraeg a threfniadau perthnasol wedi eu rhoi ar waith er mwyn hwyluso cyfleon i bobl fedru defnyddio eu iaith o ddewis yn y cyfarfodydd.
Petai yna ddymuniad gan y Pwyllgor, byddem yn hapus i gynnal sgyrsiau pellach ar y cyd efo partneriaid sy’n rhan or gwaith ynglŷn a chynnal asesiad ar y cyd.

## 7. Camau Nesaf

**Cydlynydd Llesiant** - wedi ei phenodi ar ran y partneriaid. Mae hi wedi cwblhau ei chyfnod anwytho ac yn mynd rhagddi i weithio ar y rhaglen waith a luniwyd gan y partneriaid. Mae hon yn swydd ddisgrifiad sydd wedi ei lunio a'i chytuno rhwng y partneriaid a gellir darparu copi ohoni petai hynny yn ddefnyddiol.

**Lolfa Gymunedol -** Mae sefydlu 'Lolfa Gymunedol' yn un o'r trefniadau gafodd ei gytuno gan y partneriaid a bydd y Cydlynydd Llesiant yn arwain ar y datblygiad hwn fel rhan o'i rhaglen waith dros y cyfnod nesaf. Bydd y Lolfa Gymunedol leol wedi'i deilwra i ddarparu cefnogaeth i'r gymuned, a bydd yn lle croesawgar, hawdd i'w gyrraedd yn leol. Anelir i greu ymdeimlad o falchder a pherthyn o fewn y gymuned yn y Lolfa, a gwneud y defnydd gorau o gryfderau lleol a chysylltiadau. Bydd y Lolfa'n cynnig lle i breswylwyr, teuluoedd ac unigolion gael cyngor a chefnogaeth leol ar ystod o faterion.

Mae'n werth nodi yma bod cysylltiad rhwng y datblygiad yn Dyffryn Nantlle â dymuniad Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r help a'r gefnogaeth sydd ar gael i bobl drwy Berscriptiwn Cymdeithasol. Yn mis Ionawr 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y Fframwaith cenedlaethol ar gyfer Perscriptiwn Cymdeithasol. Yn y ddogfen hon disgrifir Perscriptiwn Cymdeithasol fel a ganlyn:

> '*Mae presgripsiynu cymdeithasol yn ddull o gysylltu pobl o bob oedran a chefndir â'u cymuned er mwyn rheoli eu hiechyd a'u llesiant yn well. Gall helpu i rymuso unigolion i ddeall eu hanghenion, eu cryfderau, a'u hasedau personol eu hunain a chysylltu â'u cymunedau eu hunain i gael cymorth ar gyfer eu hiechyd a'u llesiant.'*
>
> Yn dilyn hynny mae ffrwd gwaith rhanbarthol i ddatblygu modelau 'prescripsiwn cymdeithasol' yn cael ei arwain gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar draws ardal Bwrdd Iechyd Betsi Cadwalader. Ac yn lleol yma yng Ngwynedd mae grwp tasg wedi bod yn ymwneud a'r gwaith yma, ac yn cymryd cryn ddiddordeb yn yr hyd sy'n cael ei beilota yn Nantlle.

**Sgyrsiau ar Sail Cryfderau** – Rydym wedi sicrhau yr hyfforddiant yma ar gyfer yr holl bartneriaid. Mae hyfforddi a dysgu ar y cyd yn un or egwyddorion y mae'r holl bartneriaid yn awyddus I'w weld yn lleol. Bydd y hyfforddiant hwn yn galluogi'r rhai sy'n rhan or gwaith i:

- *Adnabod yr elfennau hanfodol ar gyfer cynnal sgyrsiau da efo pobl.*
- *Adlewyrchu ar ddulliau traddodiadol o gynnig gwasanaeth mewn iechyd a gofal cymdeithasol a sut mae dull sy'n seiliedig ar gryfderau yn cyd-fynd â dyletswyddau statudol ac ymarfer dda.*
- *Archwilio sgiliau personol a ffactorau eraill a all wella profiad y person.*
- *Ystyried ein defnydd o iaith a sut y gall ein iaith a'r geiriau yr ydym yn eu ddefnyddio gael effaith ar y person.*
- *Ystyried yr adnoddau a all gefnogi sgwrs dda*

**Gwerthuso Effaith –** Mae'n Partneriaid yn Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cynnig eu harbenigedd i helpu i werthuso effaith y gwaith. Bydd gweithdy 'Ripple Effect Mapping' yn cael ei gynnal ar y 6ed o Hydref. Mae Ripple Effects Mapping yn ddull cyfranogol, ansoddol sy'n gallu dal effeithiau ehangach (bwriadol ac anfwriadol) prosiect neu raglen. Mae'n dod â phobl ynghyd sydd wedi bod yn rhan o'r gwaith o gyflwyno prosiect neu raglen i fapio'n weledol yr hyn y maent wedi'i wneud a'r effeithiau hyd yn hyn. Yn aml, mae ffurfiau traddodiadol o werthuso yn dal cyfran fach o'r hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd. Golyga hyn y gellir colli gwybodaeth gwerthfawr a dyna pam y gall y dull yma fod mor werthfawr. Os hoffai'r pwyllgor dderbyn gwybodaeth neu adroddiad pellach yn dilyn y sesiwn hwn, byddem yn hapus i baratoi gwybodaeth ar eich cyfer.

**Lleisiau Trigolion –** Mae dysgu ac addasu'n barhaus wedi ei gynnwys yng ngweledigaeth y partneriaid ar gyfer y gwaith. Bydd clywed lleisiau trigolion yn allweddol i'r dysgu hwn. Byddwn yn dod a phobl ynghŷd i wneud hyn drwy ddefnyddio dulliau Ymarfer a Gyfoethogir gan Dystiolaeth (DEEP). Mae DEEP yn canolbwyntio ar bobl, eu profiadau a'u straeon ac yn defnyddio mathau amrywiol o dystiolaeth. Mae'r swyddog o'r Cyngor sydd wedi bod yn hwyluso gwaith Nantlle wedi cwblhau cwrs 'Arwain dysgu a datblygu gan ddefnyddio tystiolaeth: Cwrs Catalydd DEEP' a hoffem raeadru a defnyddio'r dysgu hwn fel rhan or gwaith wrth symud ymlaen.

## 8 Beth yn union sydd angen ei graffu?

- ***A yw'r model peilot wedi cryfhau cydweithio a gwydnwch cymunedol?*** Awgrymir fod y cynllun wedi cryfhau cydweithio yn sylweddol ar draws asiantaethau. Gellir gweld esiampl o hyn yn Atodiad 2, lle cyfeirir at ymrwymiad y meddygon lleol i gefnogi darpariaeth bwyd ar gyfer plant a phobl ifanc gyda partneriaid lleol. Gellir gweld esiampl o'r cydweithio lleol yr effaith ar drigolion mewn astudiaeth achos yn Atodiad 3.

- ***Beth yw'r elfennau ataliol ac ôl-ofal sydd wedi bod yn llwyddiant a pha rai sydd heb weithio cystal?*** Nid yw'r cynllun mewn lle eto i adrodd ar yr elfennau ataliol ac ôl-ofal ond byddwn yn monitro a gwerthuso'r cynllun yn ystod y chwe mis cyntaf, ac yn falch o adrodd yn ôl bryd hynny.

- ***A ddylid ei ymestyn i ardaloedd eraill ac a oes adnoddau priodol ar gael ar gyfer hynny?*** O ran y gwaith cychwynnol rydym yn argymell y gellir ymestyn i ardaloedd eraill. Bydd angen adnodd i hwyluso'r broses.

- ***Beth yw rôl aelodau etholedig yn y cynllun?*** Mae'r aelod etholedig lleol Craig ap Iago wedi bod yn rhan allweddol o'r gwaith ac wedi gweld budd aruthrol o fod yn rhan o'r cynllun: *'Model newydd, ble di'r Cyngor ddim yn gneud pob dim. Da ni gyd yn cydweithio, ac isio cydweithio. Cyngor ddim yn gorfod arwain, dim ond hwyluso'r broses.'*

## 9 Gwybodaeth Cefndir

Gweler isod linc ar at wybodaeth pellach ar gyfer y dulliau gwerthuso y cyfeiriwyd atynt.

- Ripple effect mapping | Evaluation tool | UMN Extension
- Datblygu Ymarfer a Gyfoethogir gan Dystiolaeth (DEEP) - Gofal Cymdeithasol Cymru - Ymchwil, data ac arloesi

- [Fframwaith cenedlaethol ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol [HTML] | LLYW.CYMRU]

## 10 Atodiadau

- *Atodiad un: Adroddiad 'Getting Ready' National Development Team for Inclusion.*
- *Atodiad dau: Sylwadau Partneriaid*
- *Atodiad 3: Astudiaeth Achos*

# Community Led Support: Getting Started in Gwynedd

**Amanda Nally, Gordon Waigand, Annie Smith and Jenny Pitts, National Development Team for Inclusion**
**March - May 2023**

The following report summarises the insights and reflections of the National Development Team for Inclusion (NDTi) gained through a series of discussions that took place between March – end of April 2023

The work and report have been commissioned by Menter Môn on behalf of the Council. The overarching goal is to determine whether or not the core ingredients and mindset required to achieve a true 'community led' approach to helping people live the best possible life within their local area are evident. The Getting Ready exercise enables the NDTi team to understand to what extent efforts are aligned and to consider how, if at all, links between stakeholders could be strengthened and enhanced. The geographic scope of the work was the Bro Lleu Regeneration Area, focussed on Dyffryn Nantlle and Penygroes.


Key points can be summarised as follows:

- Agreeing a local vision that is joined up and coproduced would bring clarity and focus to the work going forwards.
- An overwhelming sense of Community spirit and pride shone through every conversation.
- A willingness to understand how to do things differently that will improve the lives of citizens, staff experience and relationships locally.
- Strong partnership working and leadership is evident at several levels.
- Some wonderful approaches and examples of coproduction with local communities that needs to continue to be embraced and modelled as part of any work going forward.
- A consistent message about short-term funding streams and needing longer commitment to build longer term stability and resilience.
- There is an opportunity to build on the work to date, to expand a culture of strengths based practice across all teams, services and partners with aligned processes and systems.

The structure of this report follows the CLS Getting Ready Framework.

## Vision

The council as a whole has a clear ambition to strengthen its relationship with the citizens of Gwynedd and a community focussed, strengths based approach is consistent with this broad direction. Gwynedd, like many areas of the country, saw significant changes during Covid-19 with local initiatives developing and relationships building and there is a great deal to continue with.





Currently there is significant work underway in the 5 localities and 16 patch areas with pockets of good practice all over the county having a strong community focus for several years. Social Care and Health are working towards better integration and recognise there are real opportunities to further develop this. Other development work includes the implementation of a new model for Home Care and work relating to Building Community Resilience. The Council has a delicate role and needs to ensure it supports and nurtures the existing work and strength of the local communities without taking over, and this is something that there is an awareness and recognition of.

Developing a shared vision that clearly articulates the change programme, that is coproduced with people, partners and organisations is a critical first step to ensuring the intent, resources and commitment are aligned across all involved and this would be a positive step locally.

When local citizens need more formal help or support there are a number of Council 'front doors' with clear processes that practitioners follow. The developing community hubs could provide an opportunity to consider a more community-based approach to this formal route ensuring people get the information, advice and support at a time and place that's best for them and avoids pulling people unnecessarily into formal processes with the delays that are often associated with that. Residents are not always getting information and advice easily and yet we know this is a vital requirement in preventing reliance on services. Smooth processes between the community hubs and statutory services for people who do need formal support will be vital and such a response needs to be aligned with a strengths based approach.

Cross agency partnership appears strong in most areas we spoke to and there is a shared vision of success, even if this isn't formally written down. This is especially encouraging given that a number of people had not met before meeting with us, even though they were working on projects together or closely aligned.

## Leadership and Innovation




Strong leadership at all levels that supports the principles of a community focused, strengths based approach is a key success factor in both the implementation of further change its sustained ongoing development. The need for leaders in all organisations overtly and continually to reinforce the culture they are wanting to embed through communication and actions has a direct impact on how it is embraced and the reach of that impact.

Over recent years, many initiatives by various partners have led to significant regeneration within Dyffryn Nantlle, with efforts continuing and many projects likely to lead to better quality of life underway. There has been development by statutory bodies and large public sector organisations alongside grass-roots community initiatives where citizens have developed local assets.

Partners we spoke to during the Getting ready exercise provided invaluable insights:

*"Covid has shown us that you can trust people, believe it and not just say it. Covid taught us a lot in how to work differently together. But old approaches are coming back, and we need to guard against this".*

*"The community-facing primary school is very much seen as a place where future leaders are being trained – investing in the youngest amongst the community: leaders at all levels".*

*"Community-based hubs are the evolving model at the moment, with a lot of hubs providing different support to different people, communities and types of support. The council recognises the need to invest to help these connections work well. There are lots of services and interventions, but not all of these are known about".*

There are consistent themes regarding funding for projects and innovation where this is frequently shorter term, often 3 years in duration. Recognising that development takes longer in many communities this can lead to disruption and instability. It can also mean that stakeholders are more likely to have transactional relationships, meaning the investment in getting to know people and organisations and growing those relationships can be jeopardised.

People of all ages, all interests are supported within the area. Some projects are more leaning to formal health and social care, but the golden thread is helping people to have a good life in their community. Regeneration of the area, investment in training, skills development and employability will ensure that local people will have the skills and job opportunities without having to leave the area – a real investment in the local community and its growth.

There is a shortage throughout the county of units for people to start running their own business and a need to expand what can be offered. The Housing support is very much based on a 'whole person, whole life' approach, offering so much more than a place to live. Offering good quality housing, linked to support if needed, employment initiatives and building a future locally ensures local people can remain within their community and thrive.

In many respects there does appear to be a permissive approach that has supported innovation and creativity. The messaging relating to any subsequent change programme needs to be clear that it is building on the work underway, continuing to listen to the voices and ideas of those involved. The branding, the underpinning narrative and the positioning of such change will therefore be important to consider prior to wider engagement. In addition, it is important to consider how best to involve and engage people locally to maximise their time and energy whilst ensuring their voice is heard.

## Community Focus and Connections

Cyngor Gwynedd already adopts a genuine, community focus in its approach. Corporate support for the place-based change programme is essential in 'everyone playing their part'. Taking a citizenship-based approach to people who may require support will, by nature, require all statutory agencies, services, and local communities to work together around the person, or indeed, around the family. This could be an excellent opportunity to bring together a range of teams, organisations and professionals to work as a virtual team in further shaping a place-based approach.





The primary obstacles for community organisations appear to concern commissioning, especially for smaller, local provision, and the need to recognise some of the challenges these organisations face, especially the nature of shorter-term funding envelopes. Partnerships across members of the third sector offer a real opportunity to further understand and fully utilise the richness of local communities, particularly the opportunity to build on the neighbourhood, volunteers and community initiatives that have emerged during the Covid pandemic (and before).

Local authority structures need not be a barrier to this approach but there will be a need for all Social Care and Health teams to support a place-based approach; inevitably this can be

disruptive and will require strong leadership but will enable a range of practitioners to connect with those community organisations, increase their knowledge of specific communities and to bring their expertise and 'specialism' to bear. Knowledge of local communities and the existing 'community engagement' groups and partnerships will be invaluable to share with statutory colleagues. Inevitably, this is likely to require changes in process and behaviours between teams so that people experience seamless and timely support.

There is therefore real potential for Social Care, the Community Resource Teams, Housing and Communities to further connect around place, join up practice and to develop knowledge and relationships at a very local level and we get a strong sense that people are up for this.

## Impact and Measuring Change




There is, therefore, an opportunity to create a set of joined up measures that will provide vital information on whether the changes taking place are achieving the desired improvements against an agreed set of local outcomes. It will be particularly beneficial to agree those across organisations and service areas, including commissioning, including the voice of people with experience of using services locally, and to collect evidence and measures from a range of places to create a multi-dimensional learning and understanding of change.


There are so many positive things happening at present in the Dyffryn Nantlle and Penygroes area which, through rigid and traditional performance reporting could be missed or, worse still, such reporting could divert activity away from work that matters. A framework for understanding local impact needs to capture the difference (personal, social, economic and cultural) that these are making and to be developed collaboratively with those organisations. The Social Services and Wellbeing Act is an important part of that local framework but, we suggest, could be adapted and added to in order to reflect local context and priorities.

There is an opportunity to rethink locally about what data is gathered and by whom, how government returns can be serviced, how information is used internally, as well as across agencies and, importantly, the culture and leadership that needs to underpin this activity in order for this to be a positive and integral aspect of moving to a strengths-based, community led culture of practice.

There is therefore a need for a shared understanding of impact, evidence and outcomes and for this to be integral to the change process to inform learning on the ground. These measures will need to be identified and a baseline, wherever possible, established.

There was a local evaluation of community responses to Covid-19 and learning that was mentioned in many of the discussions. Health and Social Care saw that when people had to work together differently, and almost overnight in some cases, solutions came from the community. Unfortunately, some of these relationships have not been maintained and there is a need to recover some of that innovation. Pre-Covid, statutory organisations weren't working as much on prevention and it was reflected that there is a danger of the learning becoming forgotten and opportunities missed.

## Co-production




There is a need locally to embrace and recognise the local culture of genuine coproduction in a meaningful way. There are so many examples where consultation has formed a key part of previous change initiatives and it is therefore important to be mindful of citizens not having to repeat this exercise where information already exists, but to build on what has already been gathered to avoid repetition and duplication.


Local people love the area and are fiercely proud of it. As a post-industrial area, evidence shows the resilience and character. There is a well put together community network and, we understand, local citizens don't describe themselves as 'volunteers', they just see themselves as getting on with community life. On the ground, no matter how stressed people are, there is a desire to look after each other; Covid-19 seems to have highlighted and reinforced this community spirit.

There is a risk that this culture of 'Welsh people just do, they don't become an official volunteer' misses the opportunity to capture, celebrate and support (only where needed) their activities and vibrant contribution. Two community mapping exercises showed over 60 community organisations providing weekly/monthly activities.

It was felt that the council has gained more trust with the community, stating it is the strongest it's been, and this has been building over the last 3-4 years. This has been achieved by constant communication with local people and hosting regular events where 50 people join and share a meal; other examples include 25 older people coming to social events and the community pantry able to distribute free food from supermarkets. The voice of the community is strong in everything with lots of community consultations and reacting to what the community wants and needs; it is very important to those involved: "It keeps us going".

Increasing understanding and awareness of coproduction itself is going to be key in really working with communities and to engaging not just with the larger voluntary sector organisations, but the smaller (formal and informal) community groups some of which have come to the fore during the Covid-19 crisis.

## Quality




There are undoubtedly many areas of work that Gwynedd can celebrate and which have a direct impact on people's quality of life. A willingness to fully embed a culture of strength-based practice and outcomes-based support exists in pockets but will require a concerted and long-term effort throughout all partners to embed and sustain that culture.

We know that such approaches will only make a difference if the quality of interactions and conversations with people are backed up by internal processes and systems and, of course, by the quality of community supports and commissioned providers. This needs to include difficult decisions regarding over-provision of support that isn't promoting people's independence and it is likely to require a very

different approach to reviews and the quality of supports for people with Direct Payments (rather than seeing the mechanism of the Direct Payment a success indicator in itself).

Locally there are known issues surrounding care provision and this links with the key initiative to develop and embed a new model for Home Care provision, utilizing the strengths and assets of the person, their connections and community.

Demand for employment opportunities is growing in a positive manner. People want to better the quality of their own and their family's situation. More new businesses are starting off and living and working to enjoy the area is a driver in pushing up quality of life locally.

There is opportunity to increase the quality of people's experience of coming into contact with services; for those who contact any of the Council 'front doors' there is real potential for a different conversation underpinned by strong knowledge of the community and what is available which could prevent people being passed on unnecessarily and the subsequent delay to having their situation resolved. There is real potential to redesign the possible 'journey' people will experience through a range of approaches and to streamline and improve on that experience for people.

It is recognised that there is potential to further develop relationships with service providers to reflect a move to outcomes-based support, enabling positive risk and trust so that people of Gwynedd have more responsive and person-centred care and support. Promoting independence is a principle that runs through this work and indeed needs to be consistent across all the work of Social Care and Health. This will enhance the understanding of what quality of support can aspire to be and remove potential inefficiencies and limits to choice and independence that people may experience currently.

## Conclusion and next steps

It was a really enjoyable experience listening to all who attended the meetings; as mentioned, the sense of pride was clearly evident regardless of who was sharing their experiences. There are undoubtedly lots of great things happening in Gwynedd. Community infrastructure is there with plenty of "community spirit". One person stated, *"we have a massive opportunity here in a small window"* and there was total agreement of this statement.

People were open, honest and respectful and left feeling they learned a lot from listening to others. There was also a consistent message that those involved did not want a report that sits on a shelf and doesn't serve a practical function. It was felt this needs to be a stepping-stone to something else.

There is so much to build on in Gwynedd and the crucial factor in determining the success of any next steps will be a **clear scope** for any future work. There is an opportunity to include the full engagement of those with operational responsibility for Social Care teams and the Community Resource teams, and to include the processes that support local people when they do need formal support from Social Care. Considering the person's experience through this and the role of 'community' in ensuring those processes are aligned, can only enhance and further develop the approach with people and community at the heart.

Agreement of a **clear, joined up vision** will enable all parties to articulate a shared definition of success and then to agree together how this will be evidenced and we suggest a co-designed

impact framework would be powerful and would support the governance of further innovation without micro-managing it.

The council plays a major role in ensuring a strengths based, community led culture is embedded, but it must be on the community's terms. There is an opportunity to bring partners together, with local people, to really define success and to build resilience across communities where people know where to go or who to contact, at the right time for them, with a supporting infrastructure of collaboration and communication across a range of organisations, teams and professional groups.

Any change programme going forward needs to join the dots between community activity and strengths-based practice and conversations, and commissioning. It needs to provide a framework to bring everything together, including local and national government agendas, in a way that starts with the community. Cyngor Gwynedd is in a very strong place to build on, consolidate and embed the fantastic work to date in this regard and it does feel, with the degree of motivation and enthusiasm across all partners we met with, that the time is right to do so.

NDTi
National Development Team for Inclusion

The National Development Team for Inclusion
May 2023

## Atodiad 2

Sylwadau Partneriaid

**(Llio Wyn Yr Orsaf)**

Mae'n galonogol a chadarnhaol bod oddeutu 20 o fudiadau/adrannau gwahanol wedi ymgynnull mewn un ystafell efo'r un weledigaeth, a wedi cydweithio,  rhannu syniadau, a rhannu arferion da sydd yn ei dro wedi arwain at  ganfod cyllid i ariannu 'r prosiect, sefydlu'r lolfa gymunedol a swydd llawn amser. Mae'n dangos beth sydd yn bosib pan mae cyfathrebu clir, cydweithio a'r awch i wella llesiant trigolion Nyffryn Nantlle.

Mae'r cyd-weithio rhwng yr holl bartneriaid wedi golygu bod rhannu gwybodaeth yn fwy effeithiol ac yn cyrraedd mwy o bobl, e.e Cynhelir nifer o weithgareddau rheolaidd i atal unigrwydd ac ynysu yn y Dyffryn, ac mae'r prosiect yma wedi ein galluogi i gryfhau cysylltiadau cymunedol, sydd yn elfen allweddol ataliol ar gyfer lles emosiynol a chorfforol.

**(Ellen Williams – Uwch Reolwr Ardal Clwstwr y Gorllewin)**

Mae Gofal Cychwynnol ac yn benodol y Clystyrau Gofal Cychwynnol o fewn y Bwrdd Iechyd yn falch iawn o fod yn bartner gweithredol yng ngwaith prosiect Lles Nantlle gan ei fod yn cyd fynd a blaenoriaethau y clwstwr o ran hyrwyddo hunan ofal ac adeiladu gwydnwch Cymunedol fel cerbyd i hyrwyddo iechyd a lles.  Rhan allweddol o waith Gofal Cychwynnol a'r weledigaeth o fewn Iechyd yw symud gwasanaethau yn agosach i'r cartref a sicrhau bod y boblogaeth yn gallu cael mynediad rhwydd I'r ddarpariaeth addas y maent ei angen ar yr amser iawn ac er mwyn gallu gwneud hyn mae cydweithio a gwydnwch Cymunedol yn allweddol.

Mae Grwp Llesiant Dyffryn Nantlle yn cyd-fynd gyda sawl fframwaith Cenedlaethol Iechyd a Lles allweddol gan gynnwys Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2024 , Deddf Llesiant Cenedlaethau Dyfodol Cymru, Cymru Iachach, a Model Gofal Cychwynnol Cymru a Rhaglen Gogledd Cymru Iach.

Mae Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2024 yn canolbwyntio ar ddull system gyflawn i iechyd a lles gan ffocysu ar waith ataliol,  ymyrraeth gynnar a gwasanaethau Cymunedol integredig ac mae gwaith Lles Nantlle yn cwmpasu'r egwyddorion yma a'r ffordd yma o weithio drwy dynnu pobl ynghyd a chynnig darpariaeth gynnar ac ymateb i unigrwydd ac ynys rwydd cymdeithasol a hyrwydd iechyd a lles drwy gysylltu unigolion gyda adnoddau Cymunedol.

Mae gwaith Lles Nantlle yn cysylltu yn berffaith gyda blaenoriaeth y Bwrdd Iechyd ar Bresgripsiwn Cymdeithasol a phwysigrwydd cysylltu pobl gyda gweithgareddau a darpariaethau ac yn cyd fynd gyda amcanion Fframwaith Cenedlaethol Presgripsiwn Cymdeithasol.  Mae'r prosiect hefyd yn rhan o waith partneriaethol Presgripsiwn Cymdeithasol gyda Iechyd a Iechyd Cyhoeddus i gytuno a darparu model Presgripsiwn Cymdeithasol ar draws Gwynedd o Ebrill 2026.

Fel rhan o'r cydweithio yma bu inni fel clwstwr gynnal trafodaethau gyda'r meddygon lleol a'r fferyllwyr cymunedol lleol ac roeddent yn awyddus iawn i fod yn rhan o'r gwaith yma a'i hyrwyddo. Daeth cynnig gan y feddygfa i gefnogi'r ddarpariaeth bwyd ar gyfer plant a phobl ifanc yr ardal a chyfrannu i'r gefnogaeth yma gan bod yr elfen yma yn amlygu ei hyn yn aml ac yn rhywbeth yr oedd y feddygfa eisiau cyfrannu i'r datrysiad.

(Bethan Thomas Grŵp Cynefin)

Arweiniodd Grŵp Cynefin ar broses ymgysylltu gymunedol fanwl yn 2019, lle mapwyd dros 150 o weithgareddau ac adnoddau lleol ac archwilio anghenion llesiant trigolion Dyffryn Nantlle. Yn 2021, comisiynodd Grŵp Cynefin ymchwil academaidd i asesu'r angen am bresgripsiwn cymdeithasol yn y Dyffryn, gan osod sylfeini cadarn ar gyfer cydweithio traws-sector. Diolch i'r gwaith ymchwil Cefnogaeth dan Arweiniad y Gymuned (Community Led Support) a gomisiynwyd gan Gyngor Gwynedd a Menter Môn, sefydlwyd Grŵp Llesiant Dyffryn Nantlle, a arweiniodd at ddatblygu dulliau cydweithredol o rannu gwybodaeth ac arferion da, a chynllunio sut y gall gwasanaethau a sefydliadau gydweithio'n effeithiol i ymateb i anghenion y gymuned.
Mae penodiad y Cydlynydd Llesiant yn gam pendant tuag at wireddu'r cydweithio hwnnw'n realiti ymarferol. Bydd y rôl yn canolbwyntio ar gydlynu gwasanaethau, mapio bylchau yn y ddarpariaeth, a chydblethu'r hyn sydd eisoes yn bodoli yn y Dyffryn i greu dull mwy cydgysylltiedig o gefnogi trigolion. Trwy feithrin cysylltiadau rhwng asiantaethau a hyrwyddo presgripsiwn cymdeithasol, bydd y Cydlynydd yn galluogi ymyriadau cynnar, lleihau unigrwydd, a chynnig cymorth hygyrch cyn i broblemau waethygu gan gryfhau'r elfen ataliol o'r ddarpariaeth leol a chynyddu gwydnwch cymunedol yn y tymor hir.

(Dylan Thomas Adra)

Fel y Landlord Cymdeithasol mwyaf yng Ngwynedd gyda dros 350 eiddo yn Dyffryn Nantlle, roeddem yn awyddus iawn i fod yn rhan o'r prosiect a thrio cefnogi mewn unrhyw ffordd y gallwn.

Mae Cefnogi Pobl, Cefnogi Iechyd a Lles a Chefnogi ein Cymunedau i Ffynnu yn rhai o brif amcanion Cynllun Corfforaethol diweddaraf Adra, felly gobeithio y bydd bod yn rhan o'r prosiect yn cyfrannu tuag at gwrdd â'r amcanion yma.

Mae 'na nifer o wahanol aelodau staff wedi mynychu gweithdai a chyfarfodydd y grŵp hyd yma- o staff rheng flaen i'r Prif Weithredwr- gyda phawb wedi buddio trwy ddysgu am waith partneriaid a chreu cysylltiadau newydd. Mae ein Swyddog Cefnogi Pobl ar gyfer yr ardal sydd yn gweithio gyda rhai o'r trigolion mwyaf bregus yn ein cymunedau, yn enwedig wedi cael budd mawr trwy fynychu sesiynau'r grŵp.

*Fel cwmni da ni hefyd wedi cefnogi trwy hwyluso y rhan fwyaf o'r cyfarfodydd ar ein safle Tŷ Gwyrddfai ym Mhenygroes sydd wedi ein galluogi i addysgu partneriaid am y gwaith sydd yn digwydd ar y safle.*

*Da ni yn edrych ymlaen at weld sut fydd gwaith yn datblygu ac yn gobeithio y bydd ein tenantiaid yn y Dyffryn yn buddio ohono.*

(Dafydd Gwynne Rheolwr Partneriaethau Strategol, Cyfarwyddiaeth Iechyd Cyhoeddus, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr)

Ynghyd a darparu gwasanaethau gofal iechyd o safon uchel, amcan pwysig arall y Bwrdd Iechyd yw gwella iechyd a lles y boblogaeth ac i leihau anghyfartaleddau iechyd. Rydym felly fel Cyfarwyddiaeth Iechyd Cyhoeddus yn hynod o awyddus i gefnogi mentrau partneriaethol sy'n ceisio gwella iechyd a lles ein cymunedau drwy:

- roi ffocws ar atal ac ymyrraeth gynnar, yn enwedig ar gyfer unigolion sydd â'r angen mwyaf
- cefnogi pobl i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau a lleihau'r angen am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol
- creu'r amodau i gymunedau arwain eu hunain, yn cynnwys cael llais a theimlad o reolaeth dros yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw
- adnabod asedau lleol a chefnogi cymunedau i gysylltu â nhw

Mae'r gwaith sydd wrth law ym Mhrosiect Lles Nantlle yn enghraifft dda o'r hyn sy'n bosib pan ddaw arweiniad ac egni o'r gymuned eu hun, gyda chefnogaeth yn cael ei ddarparu wedyn gan asiantaethau statudol. Rydym yn awyddus iawn fod y model sy'n cael ei ddatblygu yn un cynaliadwy, ac felly wedi ymrwymo i gefnogi'r broses o werthuso effaith y prosiect e.e. cynnal gweithdy mapio a gwerthuso ar y 6ed o Hydref.

Edrychwn ymlaen at gefnogi'r gwaith dros y cyfnod nesaf, i ddeall effaith y prosiect ar les trigolion Nantlle, ac i adnabod pa wersi y gallwn eu rhannu ymhellach dros y sir a'r rhanbarth.

Fe gychwynnodd ein taith nol yn 2023. Mi wnes i ddechrau dod i adnabod nad oedd llawer o ddim yn digwydd yn ein cymuned ni i helpu pobl a'u teuluoedd oedd yn byw efo dementia neu broblemau cof.

Mi gychwynnom wneud 'chydig o waith ymchwil a dod ar draws Dementia Actif Gwynedd oedd ar y pryd yn cynnal gweithgareddau mewn trefi oedd yn dipyn o daith o'n ardal ni. Cysylltom efo aelodau or tîm a threfnu i ddod at ein gilydd i gael sgwrs am beth oedd yn bosib.

Daethpwyd i gytundeb i dreialu sesiynau yn lleol ac aethom ati i chwilio am leoliad, creu posteri a rhannu ein cysylltiadau lleol efo'r tîm Dementia Actif.

Criw o 4 unigolyn gychwynnodd efo'r grŵp yn wreiddiol ond erbyn heddiw mae yr aelodaeth wedi treblu.

Mae ein gallu ni i gynnig trafnidiaeth drwy ein cynllun trafnidiaeth cymunedol wedi helpu pobl i fynychu. Mae ein staff yn cynnwys y gyrrwr wedi cwblhau hyfforddiant Ffrindiau Dementia, sy'n golygu ein bod efo'r gallu ar ddealltwriaeth i gefnogi pobl a hwyluso eu mynediad ir grŵp.

*'Ar ddydd Llun mae y grŵp yn cael ei gynnal a dwi wrth fy modd yn dod i gwaith ar ddydd Llun, dwi'n cael teimlad da wrth ddod ir gwaith ac mae meddwl am fod yn rhan or grŵp wir yn codi fy ysbryd.' (Llio Yr Orsaf)*

Mae'r unigolion sy'n mynychu'r grŵp erbyn hyn yn ffrindiau annwyl iawn i'w gilydd. Doedden nhw ddim yn adnabod eu gilydd or blaen ond erbyn heddiw mae y grŵp ar cyfeillgarwch wedi dod yn rhan bwysig iawn o'u bywydau. Mae nhw yn aros am baned a sgwrs ar ôl y sesiwn ac wedyn yn mynd allan am ginio efo'i gilydd. Mae o'n ddiwrnod sy'n golygu cymaint ac yn gwneud gwahaniaeth mawr i'w llesiant. Dywedodd un o'r mynychwyr....

*'Mae dod i'r grŵp yma wedi helpu fi ddod allan o gyfnod o iseldra mawr ac mae fy mywyd i lot gwell rŵan.'*

Mae'r cyswllt mae y grŵp yn ei gael tu allan i amser y grŵp yn rhywbeth sydd wedi ein taro ni, mae yna ymdeimlad o gymuned rhwng yr aelodau. Roedd yna gyfod yn ddiweddar pan fuodd un or criw yn yr ysbyty. Mi fuodd pawb yn brysur i wneud yn siŵr fod pob dim mewn lle iddi pan ddaeth adref ac roedd yna rota rhwng y grŵp i gadw cwmpeini iddi drwy ymweliadau a galwadau ffon.

Mae dau or pobl sy'n mynychu yn ofalwyr di-dal ac mae mynychu'r grŵp yn gyfle iddynt gael seibiant a mwynhau eu hunain.

*'Dwi'n teimlo mor falch pan dwi'n gweld yr effaith bositif mae dod ir grŵp wedi gael ar fywydau yr unigolion, mai'n bleser cael gweld nhw yn mwynhau cwmpeini eu gilydd a gweld nhw yn byw eu bywyd gorau.' (Greta Yr Orsaf)*

Drwy gydweithio efo'r tîm Dementia Actif, efo'n gilydd mi rydym wedi datblygu perthynas agos iawn efo'r ysgol gynradd leol. Mi rydym yn cynnal gweithgareddau yno yn aml sy'n gyfle ir pobl hyn gael trafod a chwarae efo'r plant. Mae'n brofiad da iawn ir plant yn ogystal, mae'n gyfle iddynt ddysgu sgiliau cymdeithasu, magu hyder a chael cyswllt rhwng y cenedlaethau.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Gofal |
| **DYDDIAD** | 25 Medi 2025 |
| **TEITL** | Tai Gwag |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | Cynllun y Cyngor 2023-2028 - Gwynedd Glyd |
| **AWDUR** | Gareth Moriarty Owen |
| **AELOD CABINET** | Cynghorydd Paul Rowlinson |

**1. Pam fod angen ei graffu?**

Er mwyn cael sicrwydd bod cynlluniau addas mewn lle i daclo tai gwag, ynghyd ag adrodd ar y cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yn hyn parthed cynlluniau unigol i gynorthwyo trigolion Gwynedd.

**2. Beth yn union sydd angen ei graffu?**

2.1 Bydd y materion isod yn ffurfio y prif meysydd craffu sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad:

- Nifer tai gwag yn y sir
- Cynllun grantiau er mwyn helpu prynwyr i adnewyddu tai gweigion i safon byw derbyniol a dod â thai gwag yn ôl i ddefnydd ac yn helpu pobl ifanc a phrynwyr tro cyntaf i fyw mewn tŷ.
- Y cynnydd o ran y targed i ddod â 282 o dai gwag yn ôl i ddefnydd.
- Blaen graffu a fyddai'n addas codi premiwm treth uwch ar dai sydd wedi bod yn wag ers blynyddoedd

**3. Crynodeb a'r Materion Allweddol**

3.1 Fe lansiwyd y Grant Tai Gwag yn wreiddiol yn 2018 fel Grant Prynwyr Tro Cyntaf i adnewyddu tai gwag.

3.2 Ar 15 Rhagfyr 2020, ehangwyd y cynllun grant yn sgil cymeradwyo'r Cynllun Gweithredu Tai . Roedd hyn yn cynnwys buddsoddiad o £4m tuag at y cynllun, ynghyd ag adnabod targed o ddod â 282 o dai gwag yn ôl i ddefnydd erbyn diwedd oes y Cynllun Gweithredu Tai.

3.3 Ers 2020, mae'r cynllun wedi ei addasu ymhellach i adlewyrchu adborth a dderbyniwyd gan drigolion Gwynedd gyda'r newidiadau yn cynnwys:

- Newid fel bod cyn ail gartrefi yn cael eu cynnwys - er mwyn rhoi cyfle i gefnogi unigolion lleol sydd angen cymorth i adnewyddu cyn ail gartrefi sydd angen gwaith arnynt hefyd.
- Codi y swm sydd ar gael o £15,000 i £20,000 – er mwyn cyfarch cynnydd mewn costau defnyddiau a llafur i gwblhau y gwaith.

- Ehangu'r cynllun i sicrhau fod mwy na dim ond prynwyr tro cyntaf yn gymwys – mae hyn yn galluogi  unrhyw un â chysylltiad lleol i ymgeisio am y grant os ydynt yn brynwyr tro cyntaf neu ddim gan roi cyfle i fwy o bobl gael adnewyddu eu cartref ac aros o fewn eu cymunedau.

- Addasu'r meini prawf o fod gyda cyswllt â ward / ardal i fod gyda cyswllt â'r sir.

3.4 Ers lansio'r  Cynllun Gweithredu Tai, mae cynnydd da wedi bod gyda  299 o dai gwag wedi dod yn ôl i ddefnydd, sydd yn golygu bod y targed gwreiddiol o 282 wedi'i gyrraedd a'i basio.

3.5 Yn sgil ymestyn y Cynllun Gweithredu Tai i 2028/29, mae'r cynllun bellach wedi derbyn £750,000 o fuddsoddiad ychwanegol

3.6 Mae'r Adran Tai ac Eiddo yn parhau i ymgynghori gyda thrigolion Gwynedd ac ar hyn o bryd yn treialu newidiadau pellach i'r cynllun am 3 mis o'r 1af  Awst, sydd yn cynnwys:

- Codi trothwy incwm i £80,000 i gyplau sydd yn ymgeisio am y grant
- Asesu os yw eiddo yn gymwys drwy ddefnyddio bandiau Treth Cyngor (A-D)
- Codi uchafswm y grant o £20,000 i £25,000

## 4. Cefndir / Cyd-destun

4.1 Er mwyn ymateb i'r nifer o dai gwag yn y sir, sefydlwyd y Grant Tai Gwag  i gynorthwyo trigolion Gwynedd i adnewyddu tai gweigion i safon byw derbyniol. Cafodd y cynllun ei sefydlu yn 2018 fel Grant Prynwyr Tro Cyntaf i adnewyddu tai gwag. Roedd llawer o ddiddordeb yn y grant gyda 134  o geisiadau wedi eu derbyn a gwariant o £1.3m cyn i'r cynllun orffen am gyfnod yng nghanol mis Mehefin 2019 gan fod y gyllideb wedi'i wario.

4.2 Fel nodwyd uchod, cafodd y cynllun grant ei gynnwys yng Nghynllun Gweithredu Tai y Cyngor  a chymeradwyid yng nghyfarfod y Cabinet  ar 15 Ragfyr 2020. Buddsoddi'r £4m i'r cynllun gan y Cyngor a gosodwyd 282 o unedau fel targed ar gyfer gwireddu'r cynllun.

4.3 Maen bwysig nodi fel rhan o weithredu'r cynllun grant, bod y tîm Tai Gwag yn cadw golwg ar unrhyw adborth sydd yn cael ei dderbyn gan y cyhoedd i edrych ar ffurf o wella ac ehangu'r cynllun i gyfarch sefyllfaoedd ac anghenion trigolion ac i uchafu'r nifer yn y sir sydd yn gymwys ar gyfer derbyn y grant.

4.4 Yn dilyn adborth gan y cyhoedd cafodd meini prawf y cynllun ei ehangu yn 2023 i alluogi i berchnogion tai a fu'n arfer bod yn ail gartrefi gwag hefyd fod yn gymwys am y gefnogaeth. Roedd hyn yn ein galluogi ni i annog cymaint â phosib o dai gweigion yn ôl i ddefnydd yn y sir yn ogystal â rhoi fwy o gyfleon am gymorth i drigolion Gwynedd. Un enghraifft o hyn yw achos penodol yn Nhrefor lle wrthodwyd y cais gwreiddiol am gefnogaeth gan fod yr eiddo yn ail gartref ynghynt, ond oherwydd addasiadau i'r meini prawf roedd y prynwr bellach yn deilwng am y grant.   Mae'r isod yn ddyfyniad gan y Sion, perchennog yr eiddo:

*“Roedd y tŷ dwi wedi ei brynu arfer bod yn gartref i fy ffrind a dw i’n cofio chwarae yma’n hogyn bach. Gwerthwyd y tŷ rhyw 15 mlynedd yn ôl ac aeth o’n ail gartref. Roedd o ar lefydd fel Airbnb, sy’n bechod gan fod gymaint o bobl ifanc lleol eisiau aros ac eisiau tŷ. Mae’r grant yn golygu gymaint i fi. Wnes i drio amdano fo pan brynais i’r tŷ a ges i fy ngwrthod. Ro’n i mor falch pan ddaeth y Cyngor yn ôl mewn cysylltiad i ddeud bod y telerau wedi newid. Mae o am fod yn help mawr cael ail wneud y tŷ a symud i mewn yn gynt. Fel arall, fysa wedi cymryd blynyddoedd i neud o’n hun.”*

Mae posib clywed mwy am stori Sion wrth ddilyn y ddolen isod:


Stori Sion - Cyngor Gwynedd yn lansio fersiwn newydd o'r grant prynwyr tro cyntaf - YouTube

4.5 Yn ddiweddar, cymerwyd y cyfle i ehangu’r Cynllun unwaith eto mewn ymateb i newidiadau anghenion ein trigolion a’r cynnydd mewn costau sydd i’w weld yn genedlaethol. Bellach, mae uchafswm y grant sydd ar gael wedi cynyddu o £15,000 i £20,000, ac mae’r grant ar gael i bob math o brynwr, nid prynwyr tro cyntaf yn unig.

4.6 Ar draws cynlluniau tai gwag y Cyngor mae 299 o dai gwag wedi dod yn ôl i ddefnydd ers mis Ebrill 2020 sydd yn golygu ein bod wedi cyrraedd a gwireddu’r targed a osodwyd ar gyfer y cynllun, gan helpu nifer o drigolion Gwynedd a hynny ar draws y sir.

Mae 123 o dai wedi derbyn grant i adnewyddu tai gwag fel rhan o brosiect 3dd y Cynllun Gweithredu Tai gyda’r rhaniad ar gyfer Arfon, Dwyfor a Meirionnydd fel a ganlyn:

i. Arfon – 60
ii. Dwyfor – 28
iii. Meirionnydd – 35




4.7 Oherwydd y cynllun yma mae’r niferoedd uchod wedi gallu aros o fewn y sir a’u cymunedau lleol gan godi safon eu cartrefi. Mae dyfyniad isod gan unigolyn sydd hefyd wedi elwa o’r cynllun ac wedi creu cartref yn Chwilog:

*“Dan ni’n edrych ymlaen at setlo lawr yn ein cartref yma yn Chwilog, a chychwyn pennod newydd fel teulu efo babi ar y ffordd. Mae’r Grant Cartrefi Gwag wedi helpu ni i gwblhau atgyweiriadau hanfodol i’r tŷ, fel gosod ffenestri newydd,*

*ailadeiladu'r simnai a gwaith trydanol, yn llawer cyflymach na fysa ni wedi gallu gwneud ar ben ein hunain, a chael y lle yn barod i ni fel teulu mewn da bryd. Heb y grant, fysa ni ddim lle ydan ni rŵan, mae hynny'n saff! Mae'n golygu ein bod ni'n gallu cario mlaen i weithio ar y tŷ a'i wneud yn gartref am flynyddoedd i ddod.*

*"Roedd y tŷ wedi bod yn wag ers dros flwyddyn cyn i ni symud i mewn, ac roedd y cyn-berchennog, dynes leol, wir eisiau ei werthu i bobl leol. Gafodd y ddau ohonom ni ein magu yn agos i Chwilog ac mae'n golygu lot i ni i allu aros yn agos i'n teuluoedd a magu ein plentyn yn yr ardal 'dan ni'n nabod a charu."*

4.8 Mae Owain ab Myrddin hefyd wedi elwa i'r Cynllun grant er mwyn adnewyddu ei dŷ yn Nefyn. Dywedodd Owain:

"Roedd y grant yn help mawr i fi allu ail-wneud tŷ yn Nefyn. Oni bai am y cynllun fyddwn i'n bendant ddim wedi prynu tŷ oedd efo gymaint o waith i'w wneud arno fel tŷ cyntaf! Roedd o wedi bod yn ail gartref am tua deng mlynedd cyn i mi ei brynu, ac roedd gwir angen lot fawr o waith i gael o fyny i'r safon i fyw ynddo. Roedd rhaid delio efo tamprwydd, newid ffenestri a drysau, trwsio'r to, ail-weirio'r lle, rhoi system wresogi newydd i mewn, insiwleiddio… a tipyn mwy ar ben hynny.

Mae'n hollbwysig i bobl leol gael y cyfle i fyw yn eu cymunedau, ac mae'r grant wedi bod o gefnogaeth imi adnewyddu'r tŷ a chael cartref dw i'n falch ohono. Dyma'r lle dw i wedi cael fy magu, dyma'r lle mae'r mwyafrif o'n teulu a'n ffrindiau, ac mae'r teimlad o gymuned yma'n gryf iawn yma. Yn edrych i'r dyfodol, dw i'n edrych ymlaen at aros yn y tŷ yma am flynyddoedd i ddod ar ôl yr holl waith caled."

Yn ddiweddar iawn, bu i Owain sgwrsio gyda rhaglen BBC Countryfile ynglŷn a'i gartref ar grant dderbyniwyd gan y Cyngor i adnewyddu ei gartref. Mae modd gwrando ar ei stori dwy ddilyn y ddolen isod (Rhifyn 14 o Fedi 2025 ' The Archers' 21:50 o funudau i fewn i'r rhaglen):

Countryfile - BBC iPlayer

4.9 Dyma esiampl o eiddo isod sydd wedi derbyn ffenestri a drws newydd drwy’r grant:





*Chwith: Tu allan i’r tŷ cyn derbyn ffenestri a drws newydd  Dde: Ar ôl derbyn y grant gyda ffenestri a drws newydd*

4.10 Mae’n bwysig nodi bod y cynllun nid yn unig yn cynorthwyo i ddod ag eiddo yn ôl i ddefnydd ond hefyd yn cael effaith bositif ar y gymuned ehangach gan gyfrannu at yr economi leol gyda chyfanswm o £1.47m wedi ei wario, sydd ar gyfartaledd yn cefnogi 3.5 contractwr lleol gyda phob cais ac wedi denu dros £229,000 o fuddsoddiad preifat ychwanegol i fewn i'r economi leol.

4.11 Mae 42 cais ychwanegol i’w gwblhau gyda £465,000 wedi ei gymeradwyo ar gyfer y gwaith ynghyd â 17 cais yn y broses ymgeisio ar hyn o bryd.

4.12 Ym mis Mai 2025, penderfynodd y Cabinet ymestyn y Cynllun Gweithredu Tai ac fel canlyniad mae’r cynllun yma wedi derbyn estyniad hyd at 2028/29 , gyda buddsoddiad ychwanegol o £780,000. Yn sgil yr estyniad yma mae’r cynllun grant bellach yn cael ei hadnabod fel ‘Cynllun Grantiau Cartrefi Gwag Gwynedd’.

4.13 Ar hyn o bryd yng Ngwynedd mae 1,306 o dai gwag yn y sir. Serch hynny, bydd parhad i’r Cynllun Tai Gwag gyda’r buddsoddiad ychwanegol yn ein cynorthwyo i ddod â mwy o dai gwag yn ôl i ddefnydd dros y blynyddoedd nesaf.

4.14 Bydd ein camau nesaf yn cynnwys parhau i wrando ar adborth y cyhoedd ac addasu’r cynllun i gyrraedd anghenion trigolion Gwynedd. Rydym ar hyn o bryd yn treialu newidiadau pellach i’r meini prawf sef:

- Codi’r uchafswm incwm ar gyfer y cynllun fel ei fod yn £60,000 i unigolion ac £80,000 i gyplau.
- Defnyddio bandiau Treth Cyngor ar gyfer meini prawf eiddo teilwng am y grant, gydag eiddo gwag rhwng bandiau A a D yn gymwys.

- Cynyddu uchafswm y grant i £25k er mwyn adlewyrchu'r cynnydd mewn costau deunyddiau a llafur.

Mae'r cyfnod treialu wedi cychwyn ar y 1 Awst ac yn parhau am 3 mis. Byddwn yn monitro effaith newid yn y meini prawf yn ystod y cyfnod yma.

4.15 Yn ogystal â cynllun grant 3dd rydym hefyd yn cyd-weithio â'r Uned Treth Cyngor i wireddu cynllun 3e y Cynllun Gweithredu Tai. Mae'r cynllun yma yn cynorthwyo drwy ymestyn y cyfnod eithrio o dalu treth Cyngor ar dai gwag (prif neu unig gartref) gan roi blwyddyn ychwanegol i brynwyr tro cyntaf i gyflawni gwaith adfer hanfodol cyn y gellir meddiannu'r tŷ gan gynnwys achosion lle mae'r cyfnod eithriad wedi ei hawlio yn barod gan y cyn berchnogion.

4.16 Ers ei lansiad mae'r cynllun wedi cynorthwyo 142 o brynwyr tro cyntaf gyda buddsoddiad hyd yma o £199,088.00 (data dyddiedig 1af o Orffennaf 2025).

4.17 Yn dilyn penderfyniad diweddar y Cabinet i ymestyn y Cynllun Gweithredu Tai bydd cydweithio yn parhau rhwng yr Adran Tai ac Eiddo a Chyllid i gynnig y cymorth yma dros y blynyddoedd nesaf.

**5. Ymgynghori**

5.1 Fel y nodir uchod mae'r Adran wedi ystyried adborth sydd wedi ein cyrraedd gan y cyhoedd er mwyn edrych am ffyrdd o wella'r cynllun a sicrhau ei fod ar gael i gynorthwyo trigolion Gwynedd sydd ei angen.

5.2 Mae adborth hefyd yn cael ei hel wrth i'r Adran gynnal digwyddiadau megis ymgyrch Tai ar Daith a gafodd ei gynnal am yr ail flwyddyn yn olynol eleni (ym Methesda, Porthmadog, Tywyn a Nefyn) a chodi ymwybyddiaeth o'r cynllun yn ystod Eisteddfod Boduan yn 2023. Mae digwyddiadau wyneb yn wyneb fel hyn hefyd wedi ein galluogi i drafod y cynlluniau gyda thrigolion y sir ac ateb unrhyw gwestiynau sydd ganddynt ynglŷn â'r cymorth sydd ar gael.

5.3 Mae'n bwysig nodi bod y Tîm Tai Gwag hefyd wedi mynychu digwyddiadau allanol er mwyn codi ymwybyddiaeth am y cynllun grant. Mae hyn yn cynnwys cyfarfod a gafodd ei gyd-lynu gan Lywodraeth Cymru ac Arwerthwyr Tai y sir fel digwyddiad rhannu gwybodaeth ar gyfer y cyfleoedd sydd ar gael i drigolion Gwynedd yn y maes tai.

5.4 Mae'n bwysig nodi y bydd cynllun grant Llywodraeth Cymru yn dod i ben mis Medi 2026, a bydd rhaid i ni wrthod derbyn unrhyw geisiadau newydd ar ôl Rhagfyr eleni. Mae hyn felly yn pwysleisio pwysigrwydd y Cyngor i barhau i ddarparu grant ein hunain er mwyn cynorthwyo trigolion y sir.

## 6. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

6.1 Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru trwy anelu at gyflawni 7 o nodau llesiant: Cymru sydd yn llewyrchus, gydnerth, iachach, mwy cyfartal gyda cymunedau cydlynu a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu a sy'n gyfrifol ar lefel byd eang.

6.2 Mae'r Cynlluniau uchod yn rhan o'r Cynllun Gweithredu Tai sydd wedi'i lunio gyda'r nodau llesiant hyn mewn golwg a nodir sut mae pob cynllun yn perthnasu i'r nodau hynny yn amlwg ar bob tudalen (gweler Atodiad 1).

6.3 Fel y nodir uchod byddwn yn parhau i wrando ar adborth gan drigolion Gwynedd ac yn parhau i fynychu digwyddiadau a fydd yn rhoi cyfle i drigolion drafod ein cynlluniau gyda ni wyneb yn wyneb.

6.4 Rydym ar hyn o bryd yn treialu newidiadau pellach i'r Cynllun Cartrefi Gwag Gwynedd a fydd yn rhoi cyfleoedd newydd i drigolion Gwynedd. Byddwn yn monitro yn ystod y cyfnod treialu er mwyn darganfod os yw y newidiadau yma yn effeithiol.

6.5 Oherwydd natur buddion y cynllun o adnewyddu tai gwag y sir a chyfrannu at economi ehangach yr ardal mae'r cynllun yn sicr yn cefnogi nod Cymru Llewyrchus y Ddeddf. Yn ogystal a hyn, mae'r cynllun hefyd yn cynorthwyo bobl i greu eu cartrefi a chael aros yn eu cymunedau sydd yn cyfrannu at nod Cymru Iachach y ddeddf.

6.6 Mae cydweithio agos rhwng y tîm Tai Gwag a'r Uned Gorfodaeth i wireddu'r cynlluniau yma. Mae'r Adran hefyd yn rhan o grŵp trawsadrannol Eiddo Problemus. Mae aelodaeth y grŵp yn cynnwys:

- Tai (Tai Gwag ac Gorfodaeth)
- Economi
- Cyfreithiol
- Cynllunio (Gorfodaeth)
- Rheolaeth Adeiladu
- Cyllid/Treth Cyngor
- Parc Cenedlaethol Eryri

6.7 Mae'r cyd-weithio yma hefyd yn cyfrannu at nod Cymru Llewyrchus y ddeddf drwy ein cynorthwyo i fynd i'r afael â'r broblem a chreu mwy o gyfleon i drigolion y sir.

6.8 Mae’r Tîm Tai Gwag hefyd yn rhan o Grŵp Tai Gwag Rhanbarthol Gogledd Cymru gan gyd-weithio a siroedd eraill yn y Gogledd.

6.9 Yn ogystal, mae’r tîm hefyd yn gweithio mewn partneriaeth a chwmni Fraser & Fraser sydd yn cynorthwyo’r tîm i gael gafael ar berchnogion eiddo problemus y sir a hynny heb gost ychwanegol i’r Cyngor.

6.10 Fel y nodwyd uchod rydym yn parhau i addasu a threialu newidiadau i’r cynllun er mwyn ei wneud yn fyw effeithiol a hynny drwy ddefnyddio egwyddorion Ffordd Gwynedd.

**7. Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a’r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol**

7.1 Mae’r cynlluniau uchod yn rhan o’r Cynllun Gweithredu Tai a chynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb o’r Cynllun Gweithredu Tai yn ei gyfanrwydd (Atodiad 2).

7.2 Lluniwyd Asesiad Effaith i’r perwyl yma yn wreiddiol pan lansiwyd y Cynllun Gweithredu Tai yn 2020, ac eto pan adolygwyd y Cynllun ym Mehefin 2023.

7.3 Ystyrir bod y Cynlluniau uchod yn cael effaith bositif ar bob un o’r nodweddion cydraddoldeb a’r iaith Gymraeg trwy gynyddu’r nifer a’r ystod o dai o fewn y sir ar gyfer anghenion gwahanol gymunedau.

7.4 Fel rhan o feini prawf y cynllun mae rhaid i ymgeiswyr brofi eu bod wedi byw yng Ngwynedd am o leiaf y 5 mlynedd diwethaf neu os nad ydynt yn byw yng Ngwynedd ar hyn o bryd, eu bod nhw wedi byw yma am gyfnod o 10 mlynedd yn barhaus yn y gorffennol.

**8. Camau Nesaf**

8.1 Fel nodiwyd uchod rydym o fewn cyfnod treialu newidiadau i feini prawf y cynllun ers y 1af o Awst sef:

- Defnydd o fandiau Treth Cyngor A-D ar gyfer cymhwysedd eiddo gwag
- Uchafswm cyflog o £60,000 ar gyfer ymgeiswyr unigol a £80,000 ar gyfer cyplau.
- Cynyddu uchafswm y grant i £25k er mwyn adlewyrchu y cynnydd mewn costau defnyddiau a llafur.

8.2 Byddwn yn monitro effaith y newidiadau yma am gyfnod o 3 mis.

8.3 Os yw’r cyfnod treialu yn llwyddiannus byddwn yn edrych i ymgorffori y newidiadau fel rhan o’r meini prawf o fis Tachwedd 2025 ymlaen.

8.4 Byddwn yn parhau i ymgynghori gyda’r cyhoedd a chydweithio ag adrannau eraill drwy’r dulliau a nodwyd uchod er mwyn sicrhau bod y mwyaf yn cael ei wneud o’r cynlluniau rydym yn eu cynnig.

8.5 Byddwn yn parhau i weithredu Cynlluniau Cartrefi Gwag (3dd a 3e) ac yn parhau i hyrwyddo’r cynlluniau drwy ddulliau marchnata’r Adran gan gynnwys defnyddio cyfryngau cymdeithasol ac mewn digwyddiadau wyneb yn wyneb.

**Gwybodaeth Cefndir**

Tai gwag

**Atodiadau**

Atodiad 1 – Cynllun Gweithredu Tai:

*Cynllun Gweithredu Tai 3.0*

Atodiad 2 – Asesiad Effaith Cydraddoldeb
CYNNAL ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR CRAFFU GOFAL |
| **DYDDIAD** | 25 Medi 2025 |
| **TEITL** | Blaenraglen Pwyllgor Craffu Gofal 2025/26 |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | Cyflwyno rhaglen waith ddrafft y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 i'w mabwysiadu |
| **AWDUR** | Llywela Haf Owain, Uwch Ymgynghorydd Craffu |

1. Rhoddwyd cyfle i holl aelodau'r Cyngor, aelodau cyfetholedig, aelodau cabinet, penaethiaid adran a'r cyhoedd i awgrymu eitemau posib i'w craffu yn ystod 2025/26.

2. Yng nghyfarfod anffurfiol y Pwyllgor ar 2 Gorffennaf 2025 ystyriwyd yr eitemau posib i'w craffu yn ystod 2025/26.

3. Darparwyd gwybodaeth am yr eitemau posib ymlaen llaw i aelodau'r pwyllgor. Roedd yr eitemau yn cynnwys rhai oedd wedi eu hawgrymu yng nghyfarfodydd cyswllt y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd gyda'r Penaethiaid Adran a'r Aelodau Cabinet perthnasol, eitemau a graffwyd a oedd angen dilyniant a dwy eitem awgrymwyd gan aelodau'r pwyllgor hwn.

4. Blaenoriaethwyd eitemau yn y cyfarfod gan gadw mewn cof pwrpas craffu yng Ngwynedd, sef:

**CYFRANNU AT YRRU GWELLIANT MEWN GWASANAETHAU I BOBL GWYNEDD**

Gwneir hyn yn adeiladol trwy:

- Ymchwilio i bryderon am ansawdd ein gwasanaethau
- Weithredu fel Ffrind Critigol yn sicrhau fod sylw priodol yn cael ei roi i lais y dinesydd
- Adnabod ymarfer da a gwendidau
- Dal y Cabinet a'i aelodau i gyfrif
- Adolygu neu graffu penderfyniadau neu weithredoedd nad ydynt yn gyfrifoldeb y Cabinet

5. Gofynnwyd i aelodau ystyried y ffactorau canlynol wrth flaenoriaethu eitemau:

   - *A yw'r mater yn effeithio trigolion Gwynedd?*

- *A yw craffu yn gallu gwneud gwahaniaeth / cael dylanwad? (pobl / gwasanaeth / perfformiad)*
- *A yw'r mater yn amserol i'w graffu?*
- *Ydi'r mater yn flaenoriaeth i'r Cyngor?*
- *A ydym yn glir beth ydym yn ceisio ei wella?*

6. Gwnaed ymgais i flaenoriaethu uchafswm o dair eitem fesul cyfarfod er mwyn sicrhau bod sylw teilwng yn cael ei roi i faterion a bod craffu yn gallu ychwanegu gwerth.

7. Yn dilyn anfon nodyn at y swyddogion perthnasol yn eu hatgoffa o'r amserlen cyflwyno adroddiadau cafodd y Cadeirydd gais i ychwanegu eitem arall at raglen cyfarfod Medi sef Adroddiad Blynyddol 2024-25 - Gweithdrefn Cwynion, Ymholiadau a Diolchiadau – Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd a'r Adran Oedolion.

8. Gweler ynghlwm fel atodiad i'r adroddiad, rhaglen waith ddrafft y Pwyllgor.

9. Mae'r blaenraglen craffu yn rhaglen fyw a fydd yn cael ei adolygu yn gyson yn ystod y flwyddyn i sicrhau bod y materion cywir yn cael sylw. Rhoddir ystyriaeth i flaenoriaethu materion a fydd yn codi yn ystod y flwyddyn e.e. materion yn codi wrth graffu perfformiad ac eitemau ar flaenraglen y Cabinet.

10. **Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu Gofal fabwysiadu'r rhaglen waith ar gyfer 2025/26.**

ATODIAD

## BLAENRAGLEN DDRAFFT PWYLLGOR CRAFFU GOFAL 2025/26

| Dyddiad | Eitemau | Rheswm dros graffu |
|---|---|---|
| **12/6/25** | • Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Tai ac Eiddo<br>• Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Oedolion<br>• Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Plant | Craffu perfformiad adrannau'r Cyngor |
| | | |
| **25/9/25** | • Rhyddhau o'r Ysbyty | Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Ofalgar |
| | • Cydweithio gyda'r gymuned | Blaengraffu / Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Ofalgar |
| | • Tai Gwag | Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Glyd |
| | • Adroddiad Blynyddol 2024-25 - Gweithdrefn Cwynion, Ymholiadau a Diolchiadau – Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd a'r Adran Oedolion | Sicrwydd o ran y trefniadau ar gyfer delio gyda chwynion ym maes gwaith gofal |
| | | |
| **20/11/25** | • Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Tai ac Eiddo<br>• Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Oedolion<br>• Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Plant | Craffu perfformiad adrannau'r Cyngor |
| | | |
| **29/1/26** | • Gwasanaeth Derwen | Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Ofalgar / Heriau yn y maes |
| | • Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid | Sicrwydd bod y gwasanaeth yn effeithlon |
| | • Tîm 16+ | Sicrwydd o ran y ddarpariaeth ar gyfer rhai 16 oed+ |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| **26/3/26** | • Ail gartrefu cyflym a Chynlluniau Grant Cymorth Tai | Blaengraffu / Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Glyd |
| | • Strategaeth Cadw Teuluoedd gyda'i gilydd | Y ddarpariaeth bresennol a'r adnoddau sydd ar gael i wireddu'r strategaeth |
| | • Gwasanaeth Gofal Dydd | Blaengraffu / Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Ofalgar |